Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
66/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
15/06/2023

# Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-155-0

Teitl: Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant

Stuart Harries, Sioned Lewis, Jennifer Lane a Kara Stedman, Ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Harries, S., Lewis, S., Lane, J., Steadman, K., (2023) Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 66/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-warchod-plant

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Dr Jack Watkins
Adran: Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau....2

Rhestr o'r ffigurau....3

Geirfa 4

1. Cyflwyniad....5
2. Methodoleg....8
3. Ymchwilio i'r lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant....16
4. Adolygiad llenyddiaeth....30
5. Barn Rhieni....48
6. Profiadau gwarchodwyr plant....58
7. Cymorth ar gyfer denu a chadw gwarchodwyr plant....99
8. Casgliadau ac argymhellion....106

Atodiad A: Nifer y gwarchodwyr plant a'r gwasanaeth dydd i blant fesul awdurdod lleol....121

Atodiad B Holiadur Arolwg Gwarchodwyr Plant....123

**Rhestr o'r tablau**


Tabl 2.1: Ymatebwyr i'r arolwg o warchodwyr plant fesul awdurdod lleol............................12

Tabl 2.2: Ymatebwyr i'r arolwg o warchodwyr plant yn ôl faint o amser y maent wedi bod yn gwarchod plant ....................................................................................................13

Tabl 2.3: Nifer y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd fesul ardal awdurdod lleol.......................15

Tabl 3.1: Nifer y lleoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru 2018 - 2022 ....................17

Tabl 3.2: Nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig yng Nghymru 2018 – 2022.......................18

Tabl 3.3: Nifer y gwarchodwyr plant fesul awdurdod lleol, fesul blwyddyn...........................21

Tabl 3.4: Nifer y Gwarchodwyr Plant a Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant sy'n cynnig darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg (2019 i 2022) ..............................25

Tabl 3.5: Gwasanaethau Gwarchodwyr Plant a Gofal Dydd Plant Cymeradwy yn ôl dosbarthiad LSOA trefol-gwledig...................................................................28

Tabl A1: Nifer y Gwarchodwyr Plant cofrestredig, lleoliadau Gofal Dydd i Blant a'r holl Wasanaethau Gofal Plant ym mhob Awdurdod Lleol (Chwefror 2023) – wedi'u rhestru yn nhrefn nifer y gwarchodwyr plant.........................................................121

Tabl A2: Nifer y Gwarchodwyr Plant cofrestredig, lleoliadau Gofal Dydd i Blant a'r holl Wasanaethau Gofal Plant fesul 1000 o'r boblogaeth 0 i 12 oed – (yn nhrefn nifer y gwarchodwyr plant fesul 1000 o'r boblogaeth) .....................................................122

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 3.1: Nifer y gwarchodwyr plant a gofrestrodd ac a ganslodd eu cofrestriad yng Nghymru 2018 i 2022 ........ 23

Ffigur 3.2: Lleoliadau gofal dydd i blant a gofrestrodd ac a ganslodd eu cofrestriadau yng Nghymru 2018 i 2022 ........ 23

Ffigur 3.4: Gwasanaethau gofal plant cofrestredig wedi'u cymeradwyo o SASS 2021 yn ôl degradd LSOA Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 ........ 29

Ffigur 6.1: – I ba raddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried mynediad at hyfforddiant yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 70

Ffigur 6.2: I ba raddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried cyfleoedd dilyniant gyrfa yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 72

Ffigur 6.3: –Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod lefel y gwaith papur y mae angen iddynt ei gwblhau yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 75

Ffigur 6.4: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod yr angen i ddefnyddio TG yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 79

Ffigur 6.5: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod costau a threuliau rhedeg eu busnes yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 85

Ffigur 6.6: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod lefel yr incwm a enillir yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 88

Ffigur 6.7: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod yr oriau a weithir bob dydd yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 91

Ffigur 6.8: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod eu gallu i diwallu'r galw am leoedd gofal plant yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 92

Ffigur 6.9: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod cael gafael ar gymorth busnes yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf. ........ 94

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad / Description |
|---|---|
| AGC | **Arolygiaeth Gofal Cymru** yw rheolydd annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae'n cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru. |
| Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant | Mae'r **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** yn rhan o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a oes digon o gyfleoedd gofal plant i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn yr ardal. |
| Busnes Cymru | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw **Busnes Cymru** sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i helpu i gynnal a thyfu busnesau yng Nghymru. |
| Gofal Plant yn y Cartref | Math o ofal plant nad yw'n ofal gan riant sy'n digwydd yng nghartref y plentyn neu'r darparwr, yn hytrach nag mewn canolfan neu leoliad arall, yw **Gofal Plant yn y Cartref**. |
| Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd | Gwasanaethau sydd wedi'u lleoli o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor ar ofal plant yn ogystal â gweithgareddau eraill i blant a phobl ifanc, yw'r **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**. |
| LSOA | **Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is,** sef ardaloedd daearyddol sy'n cynrychioli poblogaeth gyfartalog o 1500 o bobl neu 650 o aelwydydd. |
| PACEY Cymru | Y **Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar** yng Nghymru - mae'n darparu hyfforddiant, cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio ledled Cymru. |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | Mae'r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** helpu darparwyr gofal plant i fodloni'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaeth gofal plant yng Nghymru. |
| SASS | **Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth**, sef ffurflen ar-lein y mae'n ofynnol i Bersonau Cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol ei llenwi o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, mewn perthynas â monitro cydymffurfiaeth gwasanaeth yw'r. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Dengys ffigurau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn rhwng mis Mawrth 2017 a mis Mawrth 2021, a bod tua 400 yn llai o leoliadau ym mis Mawrth 2021 o gymharu â mis Mawrth 2017. Mae colli gwarchodwyr plant a'r lleoedd gofal plant a gynigir ganddynt yn groes i'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r sector a'r ehangu sy'n digwydd mewn gofal plant a ariennir a mentrau polisi blynyddoedd cynnar eraill. Mae'r lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn debygol o gael effaith sylweddol ar argaeledd a hygyrchedd gofal plant, ac mae'n fygythiad i'r cyfrifoldeb statudol a roddir ar Awdurdodau Lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant i blant a theuluoedd. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymchwil Arad i gynnal adolygiad annibynnol i ddeall yn well y rhesymau dros y lleihad, a'r hyn y gellid ei wneud i gefnogi twf yn nifer y gwarchodwyr plant.

*Y Cefndir*

1.2 Mae'r sector gofal plant yng Nghymru yn galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, ac mae'r rhieni hyn yn mynd ymlaen i gynhyrchu cyfanswm o tuag £1.2 biliwn[1] o incwm y flwyddyn yng Nghymru (Crocker et al. 2018). Mae hefyd yn weithlu mawr, gyda bron i 15,000[2] yn gweithio mewn lleoliadau cofrestredig (Bonetti a Cooper 2022). Mae'r sector gofal plant felly yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru ac mae'n bwysig bod y llywodraeth yn cefnogi gofal plant hyblyg, fforddiadwy o ansawdd uchel (Crocker et al. 2018). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ystod o opsiynau gofal plant o ansawdd uchel ar gael i deuluoedd a phlant. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn mewn nifer o bolisïau a gyhoeddwyd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys *Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2016 – 2021; Ffyniant i Bawb*[3] *Llywodraeth Cymru, Y Cynllun Cyflogadwyedd*[4]*;* a *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithlu (2017)*[5]. Mae'r Strategaeth Ffyniant i Bawb yn amlinellu'r uchelgais y dylai plant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd. Rhan bwysig o'r uchelgais hon yw'r rôl y mae addysg gynnar a gofal plant yn ei chwarae o ran darparu amgylchedd

---

[1] Dyfynnir y ffigur hwn yn Crocker et al. (2018) ac mae'n cyfeirio at gyfanswm incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth y rhiant sy'n ennill y cyflog isaf (gan gynnwys rhieni unigol) ar aelwydydd yng Nghymru sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol.
[2] Dyfynnir y ffigur hwn yn Bonetti and Cooper (2022) a daw o ddata SASS AGC Gorffennaf - Awst 2021
[3] Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi | LLYW.CYMRU.
[4] Cynllun cyflogadwyedd 2018 | LLYW.CYMRU
[5] Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cynllun gweithlu | LLYW.CYMRU

diogel ac ysgogol. Mae Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithlu yn amlinellu cynigion i gyflawni system addysg gynnar a gofal integredig, gyda gweithlu gofal plant a chwarae medrus i gefnogi datblygiad plant.

1.3 Ym mis Medi 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y cam cynnar o roi Cynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig) ar waith, gan gynnig 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio. Ymhlith mentrau eraill sydd wedi cefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar mae Llwgu yn ystod y Gwyliau, Gwaith Chwarae, Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Ym mis Ebrill 2022 cynyddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad cyllido i'r Cynnig gan roi £6m y flwyddyn yn ychwanegol iddo er mwyn codi cyfradd fesul awr y Cynnig i ddarparwyr gofal plant o £4.50 i £5 yr awr. Nod y cynnydd hwn o 11% oedd helpu i ddarparu mwy o gynaliadwyedd ar draws y sector gofal plant yng Nghymru[6]. Mae gwarchodwyr plant yn allweddol i gyflwyno'r Cynnig a sicrhau bod rhieni'n gallu manteisio ar ofal plant o ansawdd uchel.

1.4 Dywedir bod gwarchodwyr plant yn darparu math arbenigol o wasanaeth fel cymorth i deuluoedd a math o ddull addysgegol o ymdrin â datblygiad plant sy'n wahanol i fathau eraill o ofal blynyddoedd cynnar (Ang et al. 2017). Mae ymchwil wedi canfod bod gwarchodwyr plant yn darparu nifer o fanteision megis:

- lleoliadau cartrefol;
- gofal mwy personol ac un-i-un;
- cymorth i ddysgu a datblygu ar draws ystod o oedrannau,
- parhad gofal;
- perthynas glos a;
- dull gweithredu proffesiynol, gydag arbenigedd a chymwysterau (Glencross et al. 2021).

*Nodau'r Ymchwil*

1.5 Nod yr adolygiad annibynnol hwn yw deall y rhesymau dros y lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru, ac ymchwilio i ffyrdd posibl o wrthdroi'r duedd bresennol. Mae'r prif amcanion fel a ganlyn:

[6] NEWYDDION: Adolygiad o gyfraddau Cynnig Gofal Plant Cymru | PACEY

- Canfod y rhesymau dros y lleihad cyson yn niferoedd y gwarchodwyr plant yng Nghymru;
- Nodi’r prif faterion a adroddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn arolygiadau gwarchod plant a’u gohebiaeth â gwarchodwyr plant;
- Nodi'r prif faterion a adroddwyd yn arolwg cenedlaetholo rieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant mewn perthynas â gwarchodwyr plant;
- Ymchwilio i'r heriau y mae’r gweithlu gwarchod plant yn eu hwynebu yn seiliedig ar eu barn a'u profiadau personol;
- Ystyried ymyriadau, argymhellion a gwersi y gellir eu dysgu o Gymru a mannau eraill er mwyn helpu i gadw a recriwtio gwarchodwyr plant.

# 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon ar fethodoleg yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad. Mabwysiadwyd dull cymysg o gasglu tystiolaeth a wnaeth ddefnydd helaeth o ddata cynradd a gasglwyd o arolygon a chyfweliadau gyda gwarchodwyr plant yn ogystal â thrafodaethau grŵp gydag ystod o randdeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr PACEY, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Hefyd, adolygwyd data eilaidd o lenyddiaeth gyhoeddedig, adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), a data arolwg rhieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae rhagor o fanylion am y dull a fabwysiadwyd wedi'u cynnwys yn yr adrannau sy'n dilyn.

*Adolygiad llenyddiaeth*

2.1 Cynhaliwyd adolygiad o'r llenyddiaeth bresennol sydd ar gael ar warchod plant fel sail i'r ymchwil ac i nodi materion allweddol a phynciau sy'n berthnasol i warchodwyr plant, ynghyd â rhoi rhagor o gyd-destun i'r maes gwarchod plant yng Nghymru a thu hwnt a darparu gwell dealltwriaeth ohono. Roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn canolbwyntio ar y canlynol: manteision gwarchod plant; heriau a rhwystrau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu; a mentrau neu enghreifftiau o arfer gorau i gefnogi, cadw a recriwtio gwarchodwyr plant.

2.2 Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ffynonellau o 2010 ymlaen i adlewyrchu tystiolaeth fwy diweddar o warchod plant. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar lenyddiaeth yn seiliedig ar warchod plant yn y DU, a dim ond sampl fach o lenyddiaeth o'r tu allan i'r DU a archwiliwyd.

2.3 Defnyddiwyd y termau chwilio a ganlyn ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth:

- Childminder/childminding
- Home-based childcare settings
- Family childcare providers
- Family care settings

2.4 Roedd y cronfeydd data a chwiliwyd yn cynnwys cyfnodolion JSTOR, ERIC a ScienceDirect, ond roedd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth y cyfeiriwyd ati yn

llenyddiaeth lwyd a gafwyd drwy Google Scholar, PACEY a ffynonellau a nodwyd drwy erthyglau ac adroddiadau.

*Dadansoddiad o adroddiadau arolygu gwarchodwyr plant Arolygiaeth Gofal Cymru*

2.5 Nod y dadansoddiad hwn o adroddiadau arolygu gwarchodwyr plant oedd nodi themâu a godwyd yn yr adroddiadau ynghylch materion cyffredin yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth, gan gyfrannu at ddealltwriaeth o'r heriau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu.

2.6 Dewiswyd sampl o 150 o adroddiadau arolygu ar hap, gan sicrhau gwasgariad daearyddol o warchodwyr plant ledled Cymru.

*Dadansoddiad o ddata arolwg rhieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant*

2.7 Dadansoddwyd data o arolwg cenedlaethol i rieni a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi dyletswydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol, fel rhan o'r ymchwil hwn. Pwrpas yr arolwg hwn yw cael gwell dealltwriaeth o anghenion gofal plant teuluoedd yng Nghymru sydd â phlant rhwng 0 ac 17 oed. Ei nod yw casglu gwybodaeth gan rieni'n ymwneud â'u profiadau o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig.

2.8 Roedd y set ddata ar gyfer yr arolwg rhieni hwn (a gynhaliwyd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2021) yn cynnwys 8,621 o ymatebion. O blith yr ymatebion hyn, atebodd 3,586 o ymatebwyr y cwestiwn “A oedd unrhyw anawsterau penodol i ddod o hyd i ofal plant ar gyfer un neu fwy o’ch plant? Os felly, pam?" Chwiliwyd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn am gyfeiriadau penodol at warchodwr plant (348 o ymatebion). Dadansoddwyd yr ymatebion hyn i nodi themâu cyffredin a godwyd. Trafodir y themâu mwyaf cyffredin a nodwyd o’r ymatebion hyn ym mhennod 5.

*Adolygiad o ddata Arolygiaeth Gofal Cymru*

2.9 Daeth y data a adolygwyd o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Stats Cymru ac roedd yn cynnwys:

- Cyfanswm blynyddol y lleoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru wedi'u dadansoddi yn ôl y math o leoliad (2018 i 2022)

- Cyfanswm capasiti y lleoedd gofal plant ar draws lleoliadau cofrestredig yng Nghymru yn ôl y math o leoliad (2018 i 2022)
- Cyfanswm y cofrestriadau newydd blynyddol a chofrestriadau a ganslwyd ar gyfer lleoliadau gofal plant yng Nghymru yn ôl y math o leoliad (2018 i 2022)
- Cyfanswm y lleoliadau yng Nghymru yn ôl iaith y ddarpariaeth (Cymraeg, Saesneg a'r ddwy iaith) yn ôl y math o leoliad.
- Cyfanswm capasiti y lleoedd gofal plant yn ôl iaith y ddarpariaeth (Cymraeg, Saesneg a'r ddwy iaith) yn ôl y math o leoliad.

2.10 Dadansoddwyd y data i gymharu tueddiadau a gofnodwyd ym mhob un o'r uchod ar gyfer gwarchodwyr plant â lleoliadau gofal plant eraill yng Nghymru.

2.11 Mae rhai cyfyngiadau i'r dadansoddiad o'r data y gallai Arad ei gynnal fel rhan o'r adolygiad hwn. Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar ddata sydd ar gael yn gyhoeddus i gynnal y dadansoddiad cymhariaeth ar draws mathau o leoliadau ar lefel awdurdod lleol. Roedd bwlch hefyd yn y data a oedd ar gael i gynnal dadansoddiad cymharol mewn perthynas â nodweddion (oedran, rhywedd ac ethnigrwydd) y gweithlu gofal plant ac yn benodol y gweithlu gwarchod plant. Cafodd rhai o’r cyfyngiadau hyn eu goresgyn gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a oedd yn gallu cynnal rhywfaint o waith dadansoddi cymharol ar ddata SASS ar lefel awdurdod lleol ac Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) (gweler tablau 3.3, 3.5 a Ffigur 3.4).

*Cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru*

2.12 Cynhaliwyd cyfweliadau â thri arweinydd polisi gofal plant o Lywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi sy’n ymwneud â nifer y gwarchodwyr plant sy'n cal eu denu a'u cadw, y cymorth sydd ar gael iddynt a pholisi ehangach yn ymwneud â gofal plant.

*Gweithdai gydag arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol*

2.13 Gwahoddwyd arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn grwpiau trafod rhithwir ym mis Hydref 2022 i rannu eu barn ar warchod plant. Cynigiwyd dau ddyddiad posibl i arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol fynychu trafodaeth grŵp ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar y pynciau canlynol:

- newidiadau yn nifer y gwarchodwyr plant sy'n gweithredu yn eu hardal a'u barn ynghylch y rhesymau dros y newidiadau mewn niferoedd dros amser;
- gwybodaeth sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant o'u Hasesiadau Digonolrwydd Gofal Plant;
- y galw lleol am warchodwyr plant;
- y cymorth a roddir gan warchodwyr plant i blant ag ADY;
- materion yn ymwneud â'r gweithlu.

*Cyfweliadau â rhanddeiliaid*

2.14 Cynhaliwyd y cyfweliadau canlynol â rhanddeiliaid i gael dealltwriaeth bellach o'r heriau a wynebir gan warchodwyr plant:

- Cyfweliadau gyda thri **chynrychiolydd o AGC** – yn canolbwyntio ar eu harsylwadau o faterion allweddol sy'n codi o'r arolygiadau a'r data sydd gan AGC. Roeddent hefyd yn gallu rhannu rhywfaint o ddata a gwybodaeth gydag Arad ar ôl y drafodaeth, a defnyddiwyd hynny yn yr adroddiad hwn.
- Cyfweliadau gyda thri **chynrychiolydd o PACEY Cymru** – yn canolbwyntio ar yr heriau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu (fel y galw am eu darpariaethau a’r modd y cânt eu cyflawni; materion yn ymwneud â gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; gofynion cynllunio lleol ac ati). Gofynnwyd iddynt hefyd pa gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd a beth sydd ei angen i oresgyn yr heriau a wynebir gan warchodwyr plant a'r heriau o ran cadw a denu gwarchodwyr plant.
- Cyfweliad gydag un cynrychiolydd o **Busnes Cymru** – yn canolbwyntio ar y nifer sy'n manteisio ar gyngor, grantiau a materion cynllunio.

*Arolwg o warchodwyr plant*

2.15 Er mwyn lleihau’r risg o syrffed ar arolygon ac er mwyn cael cyfradd ymateb dda i’r arolwg, cafodd yr arolwg ar-lein o warchodwyr plant ei gynnwys mewn arolwg gofal plant arall yr oedd Arad yn ei ddosbarthu fel rhan o werthusiad blwyddyn pump y Cynnig Gofal Plant. Anfonwyd dolen i’r arolwg ar-lein (a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022) at yr holl ddarparwyr gofal plant a oedd wedi darparu’r Cynnig Gofal Plant. Cafodd darparwyr a nododd eu bod yn warchodwyr plant eu cyfeirio at adran ychwanegol o'r arolwg. Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd ar wefan

PACEY Cymru i sicrhau bod gwarchodwyr plant nad oeddent yn darparu'r Cynnig Gofal Plant hefyd yn cael cyfle i ymateb.

2.16 Roedd y pynciau yn yr arolwg yn cynnwys: cefndir y gwarchodwr plant; y prif heriau a wynebwyd; a yw'r heriau wedi gwaethygu dros y tair blynedd diwethaf; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gofynnwyd hefyd i warchodwyr plant a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol dros y ffôn.

2.17 Cwblhawyd yr arolwg gan 188 o warchodwyr plant. Mae Tablau 2.1 a 2.2 yn dangos nifer y gwarchodwyr plant a ymatebodd fesul awdurdod lleol ac am ba hyd yr oeddent wedi bod yn rhan o'r proffesiwn. Dylid nodi, fodd bynnag, bod llawer o'r gwarchodwyr plant a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud bod defnyddio cyfrifiaduron ac, mewn rhai achosion, cael mynediad i'r rhyngrwyd, yn her (gweler adran 6). Felly, efallai fod cynnal arolwg ar-lein yn unig wedi cyfyngu ar allu rhai gwarchodwyr plant i ymateb iddo.

**Tabl 2.1: Ymatebwyr i'r arolwg o warchodwyr plant fesul awdurdod lleol**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Abertawe | 8 |
| Blaenau Gwent | 4 |
| Bro Morgannwg | 9 |
| Caerdydd | 21 |
| Caerffili | 9 |
| Casnewydd | 9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 8 |
| Ceredigion | 12 |
| Conwy | 15 |
| Gwynedd | 12 |
| Merthyr Tudful | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 |
| Powys | 12 |
| Rhondda Cynon Taf | 6 |
| Sir Benfro | 8 |
| Sir Ddinbych | 5 |
| Sir Fynwy | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 8 |
| Sir y Fflint | 16 |
| Torfaen | 7 |
| Wrecsam | 3 |
| Ynys Môn | 7 |
| **Cyfanswm** | **188** |

**Tabl 2.2: Ymatebwyr i'r arolwg o warchodwyr plant yn ôl faint o amser y maent wedi bod yn gwarchod plant**

| Amser fel gwarchodwr plant | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llai na 12 mis | 3 |
| 1-3 blynedd | 22 |
| 4-6 blynedd | 21 |
| 7-9 mlynedd | 20 |
| 10 mlynedd neu fwy | 121 |
| Heb nodi | 1 |
| **Cyfanswm** | **188** |

2.18 Dengys Tabl 2.2 mai’r gyfran fwyaf o ymatebwyr oedd y rhai a oedd wedi cofrestru fel gwarchodwyr plant ers 10 mlynedd neu fwy. Mae canfyddiadau’r adolygiad o ddata a drafodir yn adran 3, yn dangos bod gwarchod plant yn opsiwn gyrfa cymharol fyrdymor i lawer, sy’n awgrymu mai dim ond am gyfnod cymharol fyr y mae llawer o'r gwarchodwyr plant presennol wedi bod yn gweithredu. Mae hyn yn ei dro yn awgrymu efallai nad yw proffil yr ymatebwyr i'r arolwg, o ran yr amser y maent wedi gweithio fel gwarchodwyr plant, yn adlewyrchiad cywir o broffil y sector gwarchod plant. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o ddata cofrestru AGC, ochr yn ochr â’r grŵp dros dro o warchodwyr plant sy’n cofrestru eu busnes am ychydig flynyddoedd yn unig, fod y sector gwarchod plant yng Nghymru hefyd yn cynnwys cnewyllyn sefydlog o unigolion sydd wedi darparu gwasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Dengys y data fod cyfran uwch o warchodwyr plant o gymharu â darparwyr gofal dydd i blant, wedi cofrestru eu busnes hyd at 20 mlynedd yn ôl. Awgryma hyn fod proffil yr ymatebwyr i'r arolwg yn debygol o fod yn weddol gynrychioliadol o'r sector gwarchod plant o ran yr amser y maent wedi bod yn gweithredu.

*Cyfweliadau gyda gwarchodwyr plant*

2.19 Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gyda 30 o warchodwyr plant i archwilio eu barn a'u profiadau yn fwy manwl. Yn ogystal â manylion cyswllt gwarchodwyr plant presennol a gasglwyd fel rhan o’r arolwg ar-lein, rhoddodd PACEY Cymru hefyd fanylion cyswllt i Arad ar gyfer nifer bach o warchodwyr plant a oedd wedi datgofrestru a’r rhai a oedd wedi dechrau’r broses o ddod yn warchodwr plant ond nad oeddent wedi mynd ymlaen i gofrestru. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys:

- Pedwar gwarchodwr plant a oedd wedi datgofrestru;

- un nad aeth ymlaen i gofrestru;
- 25 o warchodwyr plant presennol.

2.20 Dengys Tabl 2.3 fod nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda gwarchodwyr plant yn ôl eu hardal awdurdod lleol. Cafwyd cwmpas eang o gyfweliadau ar draws ardaloedd amrywiol i sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol dda o fewn y sampl a oedd ar gael. Roedd pynciau’r cyfweliad yn canolbwyntio ar:

- y rhesymau dros ddod yn warchodwr plant;
- y manteision yn ogystal â'r heriau neu'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwarchod plant;
- effeithiau COVID-19;
- y lefel a'r math o gymorth sydd ar gael i warchodwyr plant;
- unrhyw gymorth pellach sydd ei angen ar warchodwyr plant neu awgrymiadau ar sut i oresgyn heriau presennol a chyflawni cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

2.21 Yn ogystal â chyfweliadau dros y ffôn gyda gwarchodwyr plant, mynychodd Arad ddwy gynhadledd PACEY Cymru lle y buont yn hwyluso trafodaethau grŵp gyda gwarchodwyr plant a fynychodd y digwyddiad. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar unrhyw heriau yr oedd gwarchodwyr plant yn eu hwynebu, ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i oresgyn yr heriau hyn.

**Tabl 2.3: Nifer y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd fesul ardal awdurdod lleol**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer y cyfweliadau** |
|---|---|
| Abertawe | 2 |
| Blaenau Gwent | 1 |
| Bro Morgannwg | 1 |
| Caerdydd | 2 |
| Ceredigion | 2 |
| Conwy | 2 |
| Gwynedd | 2 |
| Merthyr Tudful | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 |
| Powys | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 3 |
| Sir Benfro | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 |
| Sir y Fflint | 2 |
| Torfaen | 1 |
| Wrecsam | 1 |
| Ynys Môn | 1 |
| **Cyfanswm** | **30** |

*Cyfweliadau gyda rhieni*

2.22 Gofynnwyd i bob gwarchodwr plant a gyfwelwyd anfon e-bost neu neges at rieni sy'n defnyddio eu gwasanaeth, i ofyn, ar ran Arad, iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad byr dros y ffôn. Arweiniodd hyn at nifer bach o ymatebion gan rieni a arweiniodd at gynnal cyfweliad dros y ffôn â thri rhiant sy'n defnyddio gwarchodwyr plant.

2.23 Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y rhesymau dros ddefnyddio gwarchodwr plant, unrhyw faterion sy'n ymwneud â chael gafael ar ofal plant a phrif fanteision defnyddio gwarchodwr plant.

## 3. Ymchwilio i'r lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant

3.1 Mae adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer 2021-2022 yn amlygu effaith barhaus y pandemig ar y sector gofal plant a chwarae ledled Cymru. Dengys y data ostyngiad cyffredinol o 8% mewn gwasanaethau a gostyngiad o 4% mewn lleoedd sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal plant a chwarae yn ystod 2021-2022, gyda'r gostyngiad mwyaf i'w weld yn nifer y gwarchodwyr plant. Er bod y pandemig yn ddiamau wedi cael effaith ar argaeledd gwasanaethau gofal plant a chwarae ers 2020/21, mae'r lleihad yng nghyfanswm y lleoliadau gofal plant yng Nghymru yn deillio o gyfnod cynharach na hynny. Mae lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y lleoliadau cofrestredig wedi'i gofnodi ers o leiaf 2018. Gwelwyd gostyngiad o 563 yng nghyfanswm yr holl leoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2022 – gostyngiad o 14 y cant, o 4,137 o leoliadau cofrestredig yn 2018 i 3,574 yn 2022 (ffynhonnell AGC).

3.2 Lleihaodd nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael hefyd yn ystod y cyfnod hwn, ond dim ond gostyngiad o ddau y cant o ychydig dros 83,000 o leoedd yn 2018 i ychydig dros 81,400 yn 2022 – gweler tablau 3.1 a 3.2.

**Tabl 3.1: Nifer y lleoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru 2018 - 2022**

| | Maw-18 | Maw-19 | Maw-20 | Maw-21 | Maw-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y lleoliadau | | | | | Gwahaniaeth 2018 - 2022 | % y Newid |
| **Gwarchodwyr plant** | **2,201** | **2,131** | **2,025** | **1,931** | **1,686** | **- 515** | **- 23%** |
| **Gofal Dydd i Blant.** | **1,936** | **1,942** | **1,941** | **1,951** | **1,888** | **- 48** | **-0.83** |
| Creches | 27 | 26 | 20 | 17 | 14 | - 13 | - 48% |
| Gofal Dydd Llawn | 749 | 878 | 970 | 1,010 | 1,015 | 266 | 36% |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 50 | 45 | 41 | 40 | 38 | - 12 | - 24% |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 415 | 390 | 385 | 385 | 358 | - 57 | - 14% |
| Gofal Dydd Sesiynol | 695 | 603 | 525 | 499 | 463 | - 232 | - 33% |
| **Pob lleoliad gofal plant (gwarchodwyr plant a gofal dydd i blant)** | **4,137** | **4,073** | **3,966** | **3,882** | **3,574** | **- 563** | **- 14%** |

*Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)*

**Tabl 3.2: Nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig yng Nghymru 2018 – 2022**

| | Maw-18 | Maw-19 | Maw-20 | Maw-21 | Maw-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y lleoedd gofal plant | | | | | Gwahaniaeth 2018 - 2022 | % y Newid |
| **Gwarchodwyr plant** | **16,184** | **16,113** | **15,694** | **15,132** | **13,517** | **- 2,667** | **- 17%** |
| **Gofal Dydd i Blant.** | **66,881** | **67,317** | **68,631** | **69,376** | **67,909** | **1,028** | **1.5%** |
| Creches | 657 | 636 | 546 | 457 | 406 | - 251 | - 38% |
| Gofal Dydd Llawn | 31,197 | 34,593 | 37,638 | 39,134 | 39,412 | 8,215 | 26% |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 3,534 | 3,111 | 3,025 | 2,960 | 2,931 | - 603 | - 17% |
| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 15,909 | 15,366 | 15,656 | 15,484 | 14,723 | - 1,186 | - 8% |
| Gofal Dydd Sesiynol | 15,584 | 13,611 | 11,766 | 11,341 | 10,437 | - 5,147 | - 33% |
| **Pob lleoliad gofal plant (Gwarchodwyr Plant a Gofal Dydd i Blant)** | **83,065** | **83,430** | **84,325** | **84,508** | **81,426** | **- 1,639** | **- 2%** |

*Ffynhonnell; Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)*

3.3 Mae'r gostyngiad cymharol fawr yng nghyfanswm y lleoliadau cofrestredig (14 y cant) o'i gymharu â gostyngiad cyfrannol is yn nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael (dau y cant) rhwng 2018 a 2022, yn dangos mai lleoliadau llai oedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau gofal plant a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith mai ymhlith gwarchodwyr plant y gwelwyd y lleihad mwyaf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y lleoliadau cofrestredig ers 2018. Bu gostyngiad o 23 y cant yn nifer y gofalwyr plant cofrestredig yng Nghymru rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2022 – o 2,201 o leoliadau cofrestredig yn 2018 i 1,686 yn 2022. Lleihaodd nifer y lleoedd gwarchodwyr plant oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn hefyd yn sydyn (17 y cant) gan ostwng o 16,100 o leoedd yn 2018 i ychydig dros 13,500 yn 2022.

3.4 Arhosodd nifer y lleoliadau cofrestredig Gofal Dydd i Blant, h.y. pob lleoliad gofal plant heblaw gwarchodwyr plant, yn weddol gyson rhwng 2018 a 2021 (yn amrywio o 1,936 o leoliadau cofrestredig yn 2018 i 1,951 o leoliadau cofrestredig yn 2021). Fodd bynnag, lleihaodd nifer y lleoliadau Gofal Dydd i Blant rhwng 2021 a 2022, gan arwain at ostyngiad net bach o ychydig o dan un y cant yn y lleoliadau hyn

rhwng 2018 a 2022. Cynyddodd nifer y lleoedd a oedd ar gael mewn lleoliadau cofrestredig Gofal Dydd i Blant yn gyson bob blwyddyn yn ystod 2018 a 2021. Unwaith eto, bu gostyngiad bach yn nifer y lleoedd cofrestredig Gofal Dydd i Blant yn ystod 2021 a 2022 ond yn gyffredinol, cynyddodd nifer y lleoedd yn y lleoliadau hyn 1.5% rhwng 2018 a 2022.

3.5 Fodd bynnag, cofnododd y rhan fwyaf o fathau o leoliadau Gofal Dydd i Blant o leiaf rywfaint o leihad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y lleoliadau cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn (er nad oedd y lleihad mor sydyn â nifer y gwarchodwyr plant). Yr eithriad i hyn fu lleoliadau gofal dydd llawn, lle mae cyfanswm y lleoliadau cofrestredig wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers 2018, gan arwain at gynnydd o 266 o leoliadau (36 y cant) rhwng 2018 a 2022. Hefyd, gwelwyd cynnydd o dros 8,000 ledled Cymru yng nghyfanswm y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn (cynnydd o 26 y cant). Fodd bynnag, mae rhai o'r codiadau a'r gostyngiadau hyn mewn lleoliadau cofrestredig Gofal Dydd i Blant yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o leoliadau wedi newid eu statws cofrestru yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae nifer o leoliadau gofal dydd sesiynol wedi ymestyn eu horiau gweithredu ers 2017 i ddod yn wasanaethau gofal dydd llawn er mwyn darparu ar gyfer y galw ychwanegol am ofal plant yn sgil Cynnig Gofal Plant Cymru. O’r herwydd, nid yw pob cofrestriad gofal dydd sesiynol a ganslwyd yn adlewyrchu lleoliadau sydd wedi cau, ac nid yw pob cofrestriad gofal dydd llawn newydd yn adlewyrchu lleoliadau newydd sydd wedi agor – yn hytrach maent yn aml yn adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y mae’r lleoliadau hyn yn gweithredu ac felly sut y cânt eu cofrestru.

3.6 Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am warchodwyr plant. Nid yw'r lleihad cyflym yn nifer y gwarchodwyr plant a'r lleoedd gwarchod plant yng Nghymru yn adlewyrchu newid yn y ffordd y mae gwarchodwyr plant yn gweithredu. Mae'n adlewyrchu lleihad gwirioneddol yn nifer y lleoliadau sydd ar gael. Mae hyn yn debygol o effeithio ar ddewis llawer o rieni mewn perthynas â'r math o leoliad y gallant ymddiried gofal eu plant iddo. Mewn rhai ardaloedd mae hefyd yn debygol o arwain at oblygiadau i allu rhieni i gael mynediad at wasanaethau gofal plant yn agos at ble maent yn byw.

3.7 Bu lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig rhwng 2020 a 2023 ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru (gweler tabl 3.3). Mae ardaloedd awdurdodau lleol a gofnododd y gostyngiad mwyaf yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys Caerdydd, Abertawe a Bro

Morgannwg – dyma hefyd yr ardaloedd ble roedd y nifer fwyaf o warchodwyr plant yn gweithredu yn 2020. Roedd ardaloedd awdurdodau lleol a gofnododd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn gwarchodwyr plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig Merthyr Tudful, roedd nifer cymharol fach o warchodwyr plant cofrestredig yn gweithredu yn eu hardal beth bynnag.

**Tabl 3.3: Nifer y gwarchodwyr plant fesul awdurdod lleol, fesul blwyddyn**

| | Maw-20 | Maw-21 | Maw-22 | Maw-23 | Gwahaniaeth gwirioneddol 2020 - 2023 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 20 | 18 | 13 | 11 | **- 9** | **- 45%** |
| Caerffili | 131 | 127 | 111 | 109 | **- 22** | **- 17%** |
| Powys | 99 | 97 | 82 | 78 | **- 21** | **- 21%** |
| Sir y Fflint | 113 | 111 | 100 | 96 | **-17** | **- 15%** |
| Caerdydd | 262 | 256 | 229 | 214 | **- 48** | **- 18%** |
| Rhondda Cynon Taf | 145 | 132 | 123 | 122 | **- 23** | **- 16%** |
| Sir Fynwy | 72 | 65 | 51 | 44 | **- 28** | **- 39%** |
| Abertawe | 127 | 112 | 86 | 80 | **- 47** | **- 37%** |
| Wrecsam | 54 | 54 | 52 | 50 | **- 4** | **- 7%** |
| Castell-nedd Port Talbot | 90 | 84 | 70 | 67 | **- 23** | **- 26%** |
| Sir Benfro | 83 | 78 | 66 | 67 | **- 16** | **- 19%** |
| Conwy | 65 | 64 | 60 | 56 | **- 9** | **- 14%** |
| Ceredigion | 69 | 61 | 57 | 56 | **- 13** | **- 19%** |
| Torfaen | 45 | 45 | 36 | 33 | **- 12** | **- 27%** |
| Blaenau Gwent | 38 | 37 | 34 | 33 | **- 5** | **- 13%** |
| Bro Morgannwg | 145 | 142 | 126 | 112 | **- 33** | **- 23%** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 84 | 81 | 69 | 62 | **- 22** | **- 26%** |
| Casnewydd | 92 | 90 | 79 | 77 | **- 15** | **- 16%** |
| Sir Ddinbych | 47 | 45 | 38 | 33 | **- 14** | **- 30%** |
| Sir Gaerfyrddin | 111 | 105 | 98 | 90 | **-21** | **- 19%** |
| Gwynedd | 82 | 75 | 66 | 57 | **-25** | **- 30%** |
| Ynys Môn | 53 | 52 | 46 | 43 | **-10** | **- 19%** |


*Ffynhonnell: Cofrestr AGC*

3.8 Mae'r gostyngiad cyflym yng nghyfanswm y gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru wedi'i ysgogi gan ddau ffactor, sef y nifer cymharol uchel o warchodwyr plant bob blwyddyn sy'n canslo cofrestriad eu gwasanaeth, ynghyd â lleihad blynyddol yn nifer y cofrestriadau gwarchodwyr plant newydd. Fel y trafodir ym mhennod 6 yr adroddiad hwn, nododd llawer o warchodwyr plant a gyfwelwyd eu bod yn seilio eu penderfyniad i ddod yn warchodwr plant ar eu hamgylchiadau o ran eu ffordd o fyw ar y pryd. Ymhlith y senarios nodweddiadol roedd rhieni newydd sy'n penderfynu cofrestru fel gwarchodwyr plant er mwyn cynhyrchu incwm yn ogystal â gallu gofalu am eu plant eu hunain. Mae rhai o'r rhieni hyn yn gadael y maes gwarchod plant yn ddiweddarach am swyddi yn rhywle arall pan fydd eu plant eu hunain yn dechrau addysg amser llawn. O ganlyniad i senarios fel hyn a senarios eraill, yn nodweddiadol gwelwyd trosiant blynyddol cymharol uchel o gofrestriadau a chanslo cofrestriadau yn y sector gwarchod plant yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r sector gofal plant.

3.9 Nododd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod nifer y gofalwyr plant a oedd yn canslo eu cofrestriadau yn y gorffennol yn debyg i'r nifer o gofrestriadau newydd bob blwyddyn – a oedd yn cadw pethau'n sefydlog. Ar ôl i nifer mawr o warchodwyr plant ganslo eu cofrestriad yn 2018, arhosodd nifer y gwasanaethau a ganslwyd bob blwyddyn yn uchel, ond yn weddol gyson (yn amrywio o 168 i 198 y flwyddyn) yn ystod y cyfnod 2019 a 2021[7]. Fodd bynnag, arhosodd nifer y cofrestriadau newydd a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn gyson is na nifer y gwasanaethau a ganslwyd, ond yn ogystal â hynny gwelwyd gostyngiad yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, o 141 o gofrestriadau newydd yn 2018 i ddim ond 45 o gofrestriadau newydd yn 2021 – gweler Ffigur 3.1. Mae'n ymddangos felly mai'r lleihad yn nifer y cofrestriadau newydd yw'r prif ffactor sydd wedi arwain at y gostyngiad sydyn yng nghyfanswm y gwasanaethau gwarchod plant a gofnodwyd ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y llaw arall, cynyddodd nifer y lleoliadau Gofal Dydd newydd a gofrestrwyd o 132 yn 2018 i 170 yn 2022 ac am y rhan fwyaf o flynyddoedd roedd yn uwch na nifer y gwasanaethau a ganslwyd – gweler Ffigur 3.2.


[7] Cofnodwyd cynnydd sylweddol iawn yn nifer y cofrestriadau a ganslwyd yn 2021 – 2022. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran sy'n dilyn, roedd hyn i'w briodoli'n rhannol o leiaf i'r gwaith digideiddio cofrestriadau a wnaed gan AGC yn ystod y cyfnod hwn, a ysgogodd lawer o wasanaethau gwarchod plant a oedd wedi'u cofrestru ond nad oeddent yn cynnig darpariaeth gofal plant yn weithredol, i ganslo eu cofrestriad.

**Ffigur 3.1: Nifer y gwarchodwyr plant a gofrestrodd ac a ganslodd eu cofrestriad yng Nghymru 2018 i 2022**




Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

**Ffigur 3.2: Lleoliadau gofal dydd i blant a gofrestrodd ac a ganslodd eu cofrestriadau yng Nghymru 2018 i 2022**




Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

*Lleoedd cofrestredig o gymharu â'r lleoedd gwirioneddol sydd ar gael*

3.10 Mae'n bosibl nad yw nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi'u cofrestru ag AGC ar unrhyw adeg benodol o reidrwydd yn adlewyrchu nifer gwirioneddol y gwasanaethau gwarchodwyr plant sydd ar gael. Mae rhai gwarchodwyr plant yn

gwneud cais i atal eu cofrestriad AGC yn wirfoddol gan ganiatáu iddynt roi'r gorau i weithredu fel gwarchodwr plant am gyfnod penodol o amser a chynnal eu cofrestriad, gan eu galluogi i ailddechrau eu gwasanaeth yn ddiweddarach heb orfod ailgofrestru. Tra byddant wedi eu hatal yn wirfoddol, nid yw'r gwarchodwyr plant hyn yn darparu gofal i unrhyw blant er eu bod yn dal i fod wedi'u cofnodi fel gwasanaeth gofal plant cofrestredig. O ganlyniad, gall nifer y gwasanaethau gofal plant cofrestredig a gofnodwyd ar unrhyw adeg benodol orddatgan nifer gwirioneddol y gwasanaethau gwarchod plant sy'n darparu gwasanaeth i blant a'u teuluoedd.

3.11 Gall gwarchodwyr plant benderfynu atal eu cofrestriad yn wirfoddol am sawl rheswm. Fodd bynnag, nododd adroddiad diweddar a luniwyd gan PACEY Cymru[8] fod nifer o warchodwyr plant yn gwneud cais am statws atal gwirfoddol, er nad oes ganddynt unrhyw fwriad i ailddechrau eu gwasanaeth gwarchod plant. Dengys y canfyddiadau hefyd fod llawer o'r gwarchodwyr plant hyn yn parhau i fod â statws atal gwirfoddol am 'gyfnod maith' cyn canslo eu cofrestriad gydag AGC.

3.12 Yn 2021, cysylltodd AGC â'r holl warchodwyr plant fel rhan o'r gwaith o ddigideiddio'r broses gofrestru. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â gwarchodwyr plant a oedd wedi atal eu cofrestriad yn wirfoddol i ofyn a oeddent yn bwriadu ailddechrau cynnig gwasanaeth gwarchod plant yn y dyfodol agos ac, os felly, eu hannog i ddiweddaru eu cofrestriad yn ddigidol. Nododd llawer o'r gwarchodwyr plant hyn a oedd wedi atal eu cofrestriad yn wirfoddol eu bod yn bwriadu ailddechrau gwarchod plant ar ryw adeg. Nododd sawl un arall, fodd bynnag, nad oeddent yn bwriadu ailddechrau gwarchod plant yn y dyfodol agos. Arweiniodd y cyswllt hwn gan AGC at y gwarchodwyr plant hyn yn canslo eu gwasanaeth yn swyddogol yn gynt nag y bwriadwyd, a chyfrannodd hynny at y cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau gwarchodwyr plant a gafodd eu canslo yn ystod 2021 – 2022 (cafodd 289 o gofrestriadau eu canslo o gymharu â chyfartaledd o 183 y flwyddyn yn ystod y tair blynedd flaenorol). Arweiniodd hyn, ynghyd â gostyngiad yn nifer y cofrestriadau newydd yn ystod 2021 – 2022 at leihad arbennig o sydyn o 245 (13%) yng nghyfanswm y gwarchodwyr plant cofrestredig a gostyngiad o 11% (1,615) yn nifer y lleoedd gwarchod plant cofrestredig a oedd ar gael i blant yn ystod y flwyddyn honno. Mae'n bosibl felly nad yw'r lleihad sydyn hwn yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a gofnodwyd yn 2021-2022 o reidrwydd yn dangos lleihad cyflymach yn

[8] Adroddiad dadgofrestru gwarchodwyr plant yng Nghymru – PACEY 2021

nifer y gwarchodwyr plant sy'n gweithredu yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn lle hynny, mae'r ffigurau ar gyfer 2021 – 2022 yn cynnwys addasiad yn nifer y gwarchodwyr plant a gofnodwyd sy'n adlewyrchiad mwy cywir o gapasiti gwirioneddol gwarchodwyr plant yng Nghymru ar hyn o bryd.

*Effaith y lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant ar ddarpariaeth Gymraeg.*

3.13 Yn gyffredinol, ar draws yr holl leoliadau gofal plant, cynyddodd nifer y lleoedd gofal plant sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg rhyw fymryn rhwng 2019 a 2022. Crëwyd y lleoedd gofal plant Cymraeg ychwanegol hyn yn bennaf mewn lleoliadau Gofal Dydd i Blant. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, bu gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau gwarchod plant yn ystod yr un cyfnod. Fel y nodir uchod, bu gostyngiad o 24 y cant yng nghyfanswm y lleoliadau gwarchod plant cofrestredig yn ystod 2018 a 2022, fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad mwy sylweddol fyth yn nifer y lleoliadau gwarchod plant a oedd yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn ystod yr un cyfnod (gostyngiad o 28 y cant) – Gweler tabl 3.4.

**Tabl 3.4: Nifer y Gwarchodwyr Plant a Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant sy'n cynnig darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg (2019 i 2022)**

| | Gwarchodwyr plant | | Gofal Dydd i Blant | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Lleoliadau** | **Capasiti** | **Lleoliadau** | **Capasiti** |
| Medi 2021 | 89 | 682 | 392 | 10,051 |
| Ionawr 2020 | 87 | 664 | 392 | 10,125 |
| Ebrill 2020 | 86 | 664 | 404 | 10,343 |
| Medi 2020 | 84 | 650 | 411 | 10,586 |
| Ionawr 2021 | 84 | 649 | 415 | 10,657 |
| Ebrill 2022 | 82 | 633 | 411 | 10,654 |
| Medi 2021 | 71 | 552 | 417 | 11,057 |
| Ionawr 2022 | 71 | 563 | 406 | 10,613 |
| Ebrill 2022 | 70 | 553 | 408 | 10,697 |
| Awst 2022 | 64 | 517 | 412 | 10,809 |
| Gwahaniaeth (2019 a 2022) | **-25** | **-165** | **20** | **758** |
| Gwahaniaeth canrannol (2019 a 2022) | **-28%** | **-24%** | **5%** | **8%** |

Ffynhonnell: AGC

3.14 Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg ymhlith gwarchodwyr plant ynghyd â chynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau Gofal Dydd i Blant, unwaith eto yn adlewyrchu newid yn y ddarpariaeth o leoliadau llai i leoliadau mwy. Gall y newid hwn osod cyfyngiadau ar allu rhai rhieni i gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, neu o leiaf gyfyngu ar eu dewis o ran y math o leoliadau y

gallant gael darpariaeth Gymraeg ynddo. Dangosir hyn ymhellach yn y farn a fynegwyd yn Arolwg Cenedlaethol o Rieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant - gweler adrannau 5.17 i 5.18.

*Tueddiadau ar lefel leol*

3.15 Mae'r adrannau uchod yn amlinellu tueddiadau yn nifer y lleoliadau gwarchod plant cofrestredig a lleoedd gwarchod plant ar lefel genedlaethol, sef Cymru gyfan. Mae adolygu tueddiadau tebyg ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru yn fwy heriol gan fod llai o ddata cyhoeddedig yn ymwneud yn benodol â gwarchodwyr plant ar gael ar y lefel hon. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn nhabl 3.3, llwyddwyd i gael gafael ar rywfaint o ddata cyfres amser sy’n ymwneud â chyfanswm y gwarchodwyr plant cofrestredig gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

3.16 Fodd bynnag, mae gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd drwy Offeryn Data AGC[9], yn cynnig trosolwg o'r capasiti presennol ar lefel awdurdod lleol. Dengys data Power BI fod y niferoedd mwyaf o warchodwyr plant cofrestredig wedi’u lleoli yng Nghaerdydd ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill â phoblogaeth gymharol fawr yn ne-ddwyrain Cymru – Gweler ffigur A1 yn Atodiad A. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, mae nifer y gwasanaethau gwarchod plant cofrestredig yn uwch na nifer y Gwasanaethau cofrestredig Gofal Dydd i Blant, neu yr un fath â nhw. Fodd bynnag, ar draws awdurdodau lleol gogledd Cymru mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn sylweddol is na nifer y Gwasanaethau Gofal Dydd. Yn Sir Ddinbych, mae nifer y gwarchodwyr plant yn llai na hanner y Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant sy'n gweithredu yn yr ardal, ac yn Wrecsam mae bron i draean. Fodd bynnag, mae data Power BI hefyd yn dangos bod cyfanswm yr holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig fesul 1,000 o blant yng ngogledd Cymru yn uwch na’r nifer sydd ar gael mewn rhannau eraill o Gymru. Yn hynny o beth, mae gwarchodwyr plant yng ngogledd Cymru yn cyfrif am gyfran fach o sector gofal plant lleol cymharol fawr.

4.32 Cynhaliodd Kaneko et al. (2020), adolygiad byd-eang o fentrau cymorth Gofal Plant yn y Cartref ar draws 11 o wledydd (gan gynnwys y DU gyda PACEY fel ei rhaglen gymorth). Roeddent yn dadlau bod Gofal Plant yn y Cartref sy'n ofal o ansawdd yn gallu arwain at well canlyniadau o ran datblygiad plant ac yn darparu manteision i deuluoedd a chymdeithas (fel grymuso menywod yn economaidd a chreu swyddi o safon). Roedd rhai enghreifftiau o nodau ac arferion defnyddiol y rhaglenni cymorth a archwiliwyd ganddynt yn cynnwys cynyddu'r gydnabyddiaeth i Ofal Plant yn y Cartref; ymateb i anghenion cymunedol drwy feithrin sensitifrwydd a dealltwriaeth o ddiwylliant a chyfansoddiad cymunedau lleol; gwella gofal ymatebol drwy berthnasoedd rhwng rhieni a darparwyr; defnyddio model canolfan ragoriaeth lle y gallai darparwyr arsylwi a dysgu arferion gorau; darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth drwy alwadau ffôn, negeseuon a chyfarfodydd rheolaidd; adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol ymhlith darparwyr; a darparu cymorth ar ffurf adnoddau ariannol megis cyllid ar gyfer byrbrydau a deunyddiau, a benthyciadau busnes na chodir llog arnynt. Amlinellodd yr adroddiad nifer o argymhellion ar gyfer sector byd-eang Gofal Plant yn y Cartref, gan gynnwys:

- Dylai rhoddwyr a llunwyr polisïau gynyddu'r cyllid ar gyfer systemau cymorth a dylai llywodraethau ddarparu mwy o gyllid i ddarparwyr Gofal Plant yn y Cartref.
- Ymgorffori rhaglenni cymorth ar gyfer Gofal Plant yn y Cartref yn y sector cyhoeddus i gynyddu maint a chynaliadwyedd.

- Dylai’r sector gofal ac addysg plentyndod cynnar sefydlu cymuned ddysgu fyd-eang o raglenni cymorth presennol ar gyfer Gofal Plant yn y Cartref.
- Datblygu canllawiau a all fynd i’r afael â safonau, cymwyseddau ac offer i ddiffinio a mesur ansawdd Gofal Plant yn y Cartref ar draws ystod o leoliadau amrywiol.
- Dylid gwneud rhagor o ymchwil i ateb y cwestiynau sydd heb eu hateb.

4.33 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi darlun defnyddiol mwy byd-eang o warchod plant, gan ddangos bod heriau tebyg mewn rhannau eraill o'r byd, yn ogystal â dangos bod y DU yn ddatblygedig o gymharu â rhai gwledydd eraill o ran y cymorth gan y llywodraeth a chyrff y llywodraeth. Archwiliwyd sampl o lenyddiaeth arall o’r tu allan i’r DU hefyd, fodd bynnag mae modelau’n dra gwahanol ar draws y byd ac felly ni chanfuwyd unrhyw fentrau arfer gorau nac enghreifftiau priodol y gallai’r DU eu haddasu.

4.34 I grynhoi, o ran mentrau a chymorth, mae’r prif argymhellion ac awgrymiadau a geir yn y llenyddiaeth a allai fod yn berthnasol i'r darlun gwarchod plant yng Nghymru fel a ganlyn (gan gynnwys argymhellion a wnaed gan PACEY):

- Mae angen cyllid digonol, a dylid mynd i'r afael â bylchau cyllido i sicrhau bod gofal plant fforddiadwy ar gael;
- Dylid integreiddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd a phlant yn well, gan olygu bod awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog yn cydweithio’n agosach;
- Gellid datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu gyda'r nod o ddatblygu Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfraddau recriwtio a chadw isel, a rhwystrau i ddatblygiad proffesiynol;
- Mae angen mwy o gefnogaeth i helpu gwarchodwyr plant i ymdrin â gwaith papur a phrosesau gweinyddol eraill;
- Darparu mwy o hyfforddiant ar redeg busnes i warchodwyr plant;
- Ystyried hyblygrwydd mewn perthynas â chymarebau;
- Dylid hyrwyddo manteision gwarchod plant yn eang er mwyn denu gwarchodwyr plant newydd a mynd i'r afael â chamsyniadau am y rôl;

- Dylid cefnogi a hwyluso rhwydweithiau cymorth neu weithgareddau grŵp ymhlith gwarchodwyr plant, gellid ystyried enghreifftiau fel Magic Minders a’r cynllun mentora yn Lloegr ar gyfer Cymru.

4.35 I gloi, er mai cymharol ychydig o ymchwil sydd ar gael ar warchod plant o gymharu â phroffesiynau eraill yn y sector gofal plant, mae adolygiad o’r llenyddiaeth sydd ar gael wedi bod yn ddefnyddiol i roi darlun o’r hyn sy’n bodoli a'r bylchau yn y llenyddiaeth. Mae angen mwy o ymchwil yn y meysydd canlynol:

- Profiadau gwarchodwyr plant yng Nghymru;
- Ban rhieni a theuluoedd ynghylch eu profiad o ddefnyddio gwarchodwyr plant;
- Data ar amrywiaeth y gwarchodwyr plant;
- Barn gwarchodwyr plant ynghylch yr hyn fyddai'n eu cefnogi/eu cadw yn y proffesiwn;
- Effeithiau hirdymor COVID-19 ar warchodwyr plant.

4.36 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno'r hyn sy'n hysbys eisoes am warchod plant, mae'r adrannau canlynol bellach yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil yr astudiaeth hon ac yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r bylchau a nodir uchod.

# 5. Barn Rhieni

5.1 Mae'r bennod hon yn trafod barn rhieni ynghylch pam y gallai gwarchodwr plant fod yn ddewis gofal plant a ffefrir ganddynt a'r problemau y mae rhieni yn eu nodi o ran cael mynediad at warchodwyr plant. Mae’r dystiolaeth a gyflwynir yn seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol o Rieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr arolwg rhieni) a chanfyddiadau o gyfweliadau â thri rhiant a oedd yn defnyddio gwarchodwr plant adeg yr ymchwil. Ceir rhagor o fanylion am y dull a ddefnyddiwyd i ddehongli’r dystiolaeth hon yn y bennod ar fethodoleg (pennod 2).

*Dewisiadau rhieni a'u rhesymau dros ddefnyddio gwarchodwr plant*

5.2 Darparodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni destun ychwanegol yn eu hymatebion yn nodi mai gwarchodwr plant oedd yr opsiwn gofal plant yr oeddent yn ei ffafrio ond ni wnaethant gynnig rhesymau am hynny. Fodd bynnag, datgelodd tystiolaeth fanylach a gasglwyd drwy gyfweliadau rhieni nifer o resymau pam yr oedd yn well gan rai rhieni ddefnyddio gwarchodwr plant yn hytrach nag unrhyw leoliad gofal plant arall.

5.3 Nododd y rhieni a gyfwelwyd eu bod yn hoffi'r ffaith mai dim ond un person a oedd yn gofalu am eu plentyn yn hytrach nag aelodau lluosog o staff fel mewn lleoliad mwy (e.e. meithrinfeydd). Roedd hyn oherwydd eu bod yn meddwl bod eu plentyn yn debygol o gael mwy o gymorth un-i-un gan fod llai o blant gyda gwarchodwr plant.

> 'Rwy'n hoffi'r ffaith mai dim ond grŵp bach o blant sydd yno. Mae'n fwy o ddarpariaeth un-i-un o'i gymharu â meithrinfa neu gyfleuster gofal plant arall.' Rhiant a gyfwelwyd.

> 'Gallwch weld bod popeth mae fy ngwarchodwr plant yn ei wneud yn troi o gwmpas y plant. Mae'n meithrin perthynas agosach gyda'r plant.' Rhiant a gyfwelwyd.

> 'Mae meithrinfa [gofal dydd] yn teimlo fel ysgol i fabanod. Mae cymaint o blant yno. Roeddwn i'n teimlo bod y plant yn cael eu gadael i wneud fel y mynnon nhw. Ond mae'n llawer mwy strwythuredig gyda'r gwarchodwr plant. Maen nhw'n mynd allan i lefydd. Maen nhw'n eistedd i lawr ac yn gwneud gweithgareddau celf a chrefft. Maen nhw'n darllen llyfrau gyda'i gilydd. Mae'n eithaf personol.' Rhiant a gyfwelwyd.

5.4 Mantais dybiedig arall i ddefnyddio gwarchodwr plant, a nodwyd gan un rhiant a gyfwelwyd, yw'r sicrwydd o wybod, pan oedd yn siarad â'r gwarchodwr plant am les ei blentyn, ei fod yn siarad yn uniongyrchol â'r person a oedd â'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd. Nid yw hyn, yn eu barn nhw, yn gadael fawr ddim lle, os o gwbl, i unrhyw gamgyfathrebu, ac nid yw hyn o reidrwydd yn wir mewn lleoliad gofal plant mwy lle mae negeseuon tebyg yn cael eu cyfleu i un o blith nifer o weithwyr gofal plant proffesiynol sy'n gofalu am y plentyn, neu i unigolyn sy'n goruchwylio neu'n rheoli'r ddarpariaeth gofal a ddarperir gan eraill, ond na fyddant o reidrwydd yn darparu'r gofal eu hunain. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i un rhiant a gyfwelwyd gan fod gan ei blentyn ofynion arbennig, gan gynnwys alergeddau.

> 'Os oes neges y mae angen i mi ei throsglwyddo, mae'n cael ei chyfleu yn uniongyrchol i'r person sy'n gofalu am fy mhlentyn. Does dim rhaid trosglwyddo'r neges i rywun arall.' Rhiant a gyfwelwyd.

5.5 Roedd y cyfle i roi 'teimlad tebyg i gartref' i'w plentyn yn rheswm arall pam y nododd y rhieni a gyfwelwyd ei bod yn well ganddynt warchodwr plant na mathau eraill o ddarpariaeth gofal plant. Roedd yn bwysig i'r rhieni hyn bod gofal plant yn teimlo'n llai ffurfiol na'r hyn yr oeddent yn credu ei fod yn cael ei ddarparu mewn meithrinfa, gan barhau i gynnig trefn, strwythur a chefnogi datblygiad eu plentyn.

> 'Rwy'n hoffi'r teimlad o amgylchedd tebyg i'r cartref. Dyw hi [y plentyn ifanc] ddim yn teimlo ei bod hi'n mynd i'r ysgol. Mae'n teimlo ei bod hi'n mynd i gartref y gwarchodwr plant i gael gofal.' Rhiant a gyfwelwyd.

> 'Mae fy ngwarchodwr plant yn hollol anhygoel. Mae [plentyn] wrth ei fodd yn mynd yno. Mae fel mynd i dŷ ffrind. Dyna sut mae'n ei weld. Dyw ei ddim yn ei ystyried fel mynd i feithrinfa.' Rhiant a gyfwelwyd.

**Cael gafael ar warchodwr plant**

*Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth*

5.6 Roedd heriau o ran cael mynediad at wybodaeth am warchodwyr plant lleol yn thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mewn rhai achosion, roedd rhieni'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i/cael gafael ar wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt am warchodwyr plant lleol, sy'n awgrymu diffyg gwybodaeth a oedd ar gael yn hawdd i rieni sy'n chwilio am ofal

plant. Dywedodd un rhiant nad oes ganddo 'ddim syniad sut i gael gafael ar ofal plant' a dywedodd rhiant arall ei fod 'ddim yn gwybod sut i ddod o hyd i warchodwr plant cofrestredig y llywodraeth ar gyfer yr adeg y bydd ein plentyn yn troi'n dair er mwyn manteisio ar y cynllun gofal plant am ddim.' At hynny, pan geisiodd un rhiant ddefnyddio gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, canfu nad oedd y wefan yn hawdd ei defnyddio a bod prinder gwybodaeth am warchodwyr plant.

> 'Mae'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth drwy'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd a dyw e ddim yn rhoi digon o wybodaeth am warchodwyr plant i rywun allu gwneud penderfyniad gwybodus. Mae'r wefan yn araf ac yn drafferthus. Yn y diwedd, fe gollais amynedd a roeddwn i'n teimlo bod angen i mi dalu mwy nag y gallaf ei fforddio ar ffioedd meithrinfa.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni.

*Diffyg darpariaeth gwarchod plant yn gyffredinol*

5.7 Roedd canfyddiad o ddiffyg darpariaeth gwarchod plant yn thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni. Er enghraifft, nododd yr ymatebwyr ei bod yn anodd dod o hyd i warchodwyr plant yn eu hardal, a nododd rhai fod gwarchodwyr plant yr oeddent yn ymwybodol ohonynt bellach wedi cau/canslo eu cofrestriad. Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn dangos nad oedd rhieni a allai ddod o hyd i warchodwyr plant lleol bob amser yn gallu cael gafael ar unrhyw un o'r lleoedd gofal plant a ddarparwyd ganddynt. Roedd y rhieni a holwyd yn cydnabod bod gwarchodwyr plant yn ddewis poblogaidd ymhlith rhieni eraill ac mae’r galw mawr am leoedd yn aml yn ei gwneud hi’n anodd dod o hyd i warchodwr plant sydd â lleoedd ar gael. At hynny, nododd yr ymatebwyr i’r arolwg rhieni fod gan y gwarchodwyr plant y gwnaethant gysylltu â nhw restrau aros hir yn aml, felly hyd yn oed pe bai lleoedd ar gael, roedd rhestr o rieni eisoes yn aros i’w llenwi. Crynhodd un rhiant y sefyllfa drwy ddweud yn syml 'does dim digon o warchodwyr plant cofrestredig yn yr ardal hon.'

> 'Roedden ni'n chwilio am warchodwr plant i'n plentyn blwydd oed ond roedd pob un ohonynt yn llawn. Gan gynnwys rhai a oedd yn golygu taith 30 munud.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni.

> 'Mae yna wastad bobl yn holi am warchodwyr plant, ond mae'n ymddangos eu bod wastad yn llawn.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni.

'Mae'n ymddangos bod gwarchodwyr plant yn fwy poblogaidd, ond mae ganddyn nhw restrau aros hir iawn hefyd.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni.

5.8 Ategwyd hyn gan un rhiant a gyfwelwyd a esboniodd fod y ddarpariaeth gofal plant yn ei ardal yn cynnwys meithrinfeydd yn bennaf, yn hytrach na gwarchodwyr plant. At hynny, nid oedd gan y gwarchodwyr plant lleol yr oedd y rhiant yn ymwybodol ohonynt ddigon o le i gynnig y nifer o ddyddiau yr oedd eu hangen ar y rhiant.

'Lle rwy'n byw mae'n ymddangos bod prinder gwarchodwyr plant. Mae'n ymddangos bod digonedd o feithrinfeydd ond dim llawer o warchodwyr plant. O blith yr holl warchodwyr plant y gwnes i gysylltu â nhw, dim ond dau ohonyn nhw allai gynnig dau ddiwrnod yr wythnos i mi. A chwiliais i cyn belled â thaith 25 munud o'm cartref. Mae fy ngofalwr plant presennol 15 munud i ffwrdd.' Rhiant a gyfwelwyd.

5.9 Roedd canfyddiadau'r arolwg rhieni'n awgrymu bod prinder gwarchodwyr plant a oedd ar gael i ddarparu gofal plant ar adegau penodol pan fo rhieni angen y ddarpariaeth. Er enghraifft, esboniodd yr ymatebwyr nad yw rhai gwarchodwyr plant yn gweithio ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos, sy'n ei gwneud yn anodd i rieni gael mynediad at ofal plant ar y diwrnodau y mae angen gofal arnynt. Codwyd materion tebyg gan ymatebwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i warchodwr plant a oedd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol oherwydd bod rhai gwarchodwyr plant yn gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig.

'Mae fy ngofalwr plant yn wych ond yr unig broblem yw nad yw hi'n gweithio ar ddydd Gwener - sy'n gwneud dydd Gwener yn arbennig o anodd.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

'[Mae] prinder gofal plant ar gael yn ystod gwyliau ysgol i blant dan bedair oed gan fod llawer o warchodwyr plant yn gweithio yn ystod y tymor yn unig.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.10 At hynny, tynnodd rhai ymatebwyr i'r arolwg rhieni sylw at brinder gofal plant sydd ar gael gyda'r nos a/neu ar benwythnosau. Nododd un rhiant fod hyn yn achosi 'anhawster i rieni sy'n gweithio yn y sectorau manwerthu/lletygarwch.' Codwyd hyn hefyd fel problem gan un rhiant a gyfwelwyd, a fyfyriodd ar sut y mae diffyg gofal plant gyda'r nos a/neu ar y penwythnos yn creu her i rieni sy'n gweithio sifftiau. Esboniodd y rhiant hwn fod yn rhaid iddo newid ei swydd oherwydd y broblem hon gyda gofal plant.

5.11 Dylid nodi fodd bynnag, bod diffyg darpariaeth gyda'r nos ac ar benwythnosau yn broblem sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gofal plant, nid dim ond gwarchodwyr plant.

> 'Roeddwn i eisiau gwarchodwr plant gyda'r nos ac ar benwythnosau, ond mae'n ymddangos nad yw hynny ar gael... Felly, o ran fy swydd i, rwy'n gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallaf ei wneud oherwydd problemau gofal plant.' Rhiant a gyfwelwyd.

5.12 Pwynt arall a godwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg ynghylch argaeledd darpariaeth oedd prinder gwarchodwyr plant sy'n gallu cynnig y gofal cofleidiol sydd ei angen ar rieni. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i sôn am brinder gwarchodwyr plant a allai gynnig gwasanaeth cofleidiol i ollwng a chasglu eu plentyn o'r ysgol.

> 'Doeddwn i ddim yn gallu cael neb i ofalu am y plant pan oedd yr ieuengaf gartref yn y prynhawniau. Roeddwn i'n gobeithio dod o hyd i warchodwr plant a allai gasglu'r plant o'r ysgol a gofalu amdanyn nhw nes i mi orffen yn y gwaith, ond doedd dim ar gael. Mae [methu â dod o hyd i warchodwr plant addas] wedi fy atal [rhag] dod o hyd i waith.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

> 'Mae'n anhygoel o anodd dod o hyd i ddarparwr sy'n gallu cynnig gofal cofleidiol ar gyfer mynychu meithrinfa mewn ysgol. Roeddwn i'n ddigon ffodus i ddod o hyd i warchodwr plant a allai ofalu am fy mhlentyn, ond mae'r lleoedd yn brin iawn.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni.

5.13 Ategwyd yr her hon gan un rhiant a gyfwelwyd a esboniodd ei bod yn 'anodd iawn dod o hyd i rywun a fyddai'n casglu fy mhlentyn ar ôl ysgol; ac mae dod o hyd i rywun sydd â lle hyd yn anoddach fyth - mae'r lleoedd yn llawn.' Rhiant a gyfwelwyd.

*Diffyg darpariaeth gwarchod plant addas*

5.14 Roedd canfyddiad o ddiffyg darpariaeth gwarchod plant addas sy'n diwallu anghenion rhieni yn thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni. Dywedodd rhieni ei bod yn anodd iddynt ddod o hyd i warchodwr plant sydd ar agor yn ddigon cynnar yn y dydd i'w galluogi i ollwng eu plentyn cyn cymudo i'r gwaith ac yn ddigon hwyr iddynt allu casglu eu plentyn ar ôl diwrnod llawn o waith.

'Does dim gofal plant ar gael cyn wyth y bore sy'n creu anhawster o ran dechrau gweithio ar oriau swyddfa arferol ar ôl i chi ystyried cymudo.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

'Dw i ddim yn cyrraedd adref tan yn hwyr weithiau oherwydd bod y ffyrdd mor brysur yr adeg honno o'r dydd ac ar ôl cysylltu â [enw'r gofal plant] dydyn nhw ddim yn agor yn ddigon cynnar yn y bore i gymryd fy mhlentyn er mwyn i mi allu cymudo i'r gwaith.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.15 Fodd bynnag, awgrymodd un rhiant a gyfwelwyd fod gwarchodwyr plant, o'i brofiad ef, yn tueddu i fod yn fwy hyblyg gydag amseroedd gollwng a chasglu o gymharu â meithrinfeydd. Nododd y rhiant hwn fod y feithrinfa y mae'n ei defnyddio ar gyfer un plentyn wedi codi tâl arnynt am fod 20 munud yn hwyr yn casglu ei blentyn ar ôl cael ei ddal mewn traffig wrth deithio o'r gwaith. Ar y llaw arall, nid yw'r gwarchodwr plant y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer ei blentyn arall wedi codi tâl pan fydd, ambell waith, wedi bod yn hwyr i gasglu ei blentyn. Er gwaethaf yr enghraifft hon o warchodwr plant yn bod yn fwy hyblyg na meithrinfa, mae hyn yn dal i awgrymu nad yw amseroedd agor/cau gofal plant bob amser yn cyfateb i ofynion rhieni. Fodd bynnag, unwaith eto, dylid nodi bod hwn yn fater sy’n berthnasol i'r holl ddarpariaeth gofal plant, nid dim ond gwarchodwyr plant.

5.16 Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni at anawsterau wrth ddod o hyd i warchodwr plant a allai ddiwallu anghenion penodol eu plentyn, gydag un rhiant yn dweud 'does dim digon o leoedd, a neb ar gael fel gwarchodwr i blant ag anghenion arbennig'. Eglurodd rhiant arall: 'Mae fy mhlentyn anabl angen staff sydd wedi'u hyfforddi yn ei raglenni amlddisgyblaethol pwrpasol er mwyn diwallu ei anghenion penodol e.e. toiled a chyfathrebu. Mae gwasanaethau gofal generig e.e. gwarchodwyr plant, clybiau gwyliau, ac ati yn anaddas ar gyfer hyn.' Myfyriodd un rhiant a gyfwelwyd hefyd ar sut y gwnaethant ddewis lleoliad meithrin ar gyfer un plentyn oherwydd na allai ddod o hyd i warchodwr plant 'a allai ymdopi' â chyflyrau iechyd y plentyn.

*Diffyg darpariaeth gwarchod plant cyfrwng Cymraeg*

5.17 Roedd diffyg gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg hefyd yn bryder i rai o’r ymatebwyr i’r arolwg rhieni. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos un ymatebydd a dynnodd sylw at bwysigrwydd gofal plant cyfrwng Cymraeg i deuluoedd Cymraeg eu hiaith, fel eu teulu nhw.

'Mae gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg yn cael eu harchebu ymlaen llaw (mae ganddynt restr aros) ac maen nhw'n brin iawn. Mae'n bwysig i ni fel teulu gael lleoliad Cymraeg iaith gyntaf i'n plant gan ein bod ni'n Gymry iaith gyntaf. Does dim llawer o warchodwyr plant sy'n rhugl nac yn hyderus mewn Cymraeg iaith gyntaf.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.18 At hynny, nododd yr ymatebwyr hyn i'r arolwg a oedd eisiau gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â'r ffaith bod prinder gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg yn eu hardal, gall dod o hyd i un sy’n diwallu anghenion unigol rhieni fod yn fwy heriol fyth. Er enghraifft, dywedodd un rhiant fod 'dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg yn ddigon anodd, ond mae ceisio dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg sydd hefyd â lle ar gael ar y diwrnodau penodol yn ein hwythnos waith yn anodd iawn'. Dywedodd rhiant arall ei bod yn 'anodd dod o hyd i warchodwr plant sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dref a oedd hefyd yn agor am 7:30am.'

5.19 Fel yr amlinellir yn adran 3.11 mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl leoliadau gofal plant yng Nghymru wedi cynyddu ers 2018. Fodd bynnag, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith gwarchodwyr plant wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn gan ei gwneud yn fwy heriol i rieni gael mynediad at wasanaethau gwarchod plant cyfrwng Cymraeg mewn llawer o ardaloedd.

*Diffyg lleoedd i frodyr a chwiorydd*

5.20 Roedd heriau o ran cael gafael ar ofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn yn thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni. Un o'r prif broblemau a godwyd oedd diffyg lleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd, gydag ymatebion y rhieni'n awgrymu nad yw gwarchodwyr plant weithiau'n gallu derbyn brodyr a chwiorydd oherwydd nifer y lleoedd sy'n cael eu cyfyngu gan gymarebau gwarchodwyr plant. Fel yr esboniodd un ymatebydd i’r arolwg rhieni: 'Roedd gen i efeilliaid, ac roedd hi'n anodd iawn dod o hyd i warchodwr plant a oedd yn gallu derbyn y ddau blentyn ar yr un pryd.'

5.21 Gall heriau o ran dod o hyd i warchodwr plant sy'n gallu derbyn brodyr a chwiorydd olygu bod yn rhaid i rai rhieni ddefnyddio gwahanol leoliadau ar gyfer pob un o'u plant. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu bod rhieni'n defnyddio gwarchodwr plant ar gyfer un plentyn a gwasanaeth gofal dydd ar gyfer y plentyn arall, er eu bod yn ffafrio rhoi'r ddau yng ngofal gwarchodwr plant. At hynny, gall defnyddio gwahanol leoliadau ar gyfer gwahanol blant greu problemau logistaidd i

rieni wrth ollwng neu gasglu eu plant o ddarpariaeth gofal plant. Er enghraifft, esboniodd un rhiant a gyfwelwyd faint y broblem hon:

> 'Mae cael y ddau blentyn mewn lleoliadau gwahanol wedi bod yn hunllef logistaidd. Rwyf wedi colli cyfrif ar sawl gwaith rwyf wedi bod yn hwyr yn casglu un neu'r llall. Ond diolch byth, mae'r ddau leoliad wedi bod yn dda iawn am y peth.' Rhiant a gyfwelwyd.

*Cost gofal plant*

5.22 Roedd fforddiadwyedd gofal plant yn thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni. Er bod llawer o rieni wedi cyfeirio at gost gofal plant yn gyffredinol, gan wneud sylwadau ar ba mor ddrud ydoedd, cyfeiriwyd yn benodol at warchodwyr plant hefyd. O fewn yr ymatebion hyn, roedd yn ymddangos bod barn gymysg. Credai rhai rhieni fod gwarchodwyr plant yn ddrytach na lleoliad gofal plant arall, a dywedodd un rhiant fod 'gwarchodwyr plant yn codi tâl am bopeth'. Ar y llaw arall, roedd rhieni eraill o'r farn bod gwarchodwyr plant yn opsiwn mwy fforddiadwy gan 'eu bod yn tueddu i fod yn rhatach na meithrinfeydd.'

5.23 Mae'n ymddangos bod problemau'n ymwneud â fforddiadwyedd gofal plant yn waeth i rieni â mwy nag un plentyn, ac mae costau gofal plant yn cynyddu'n sylweddol i rieni y mae angen gofal plant arnynt ar gyfer mwy nag un plentyn.

5.24 Mewn sawl achos, mae materion yn ymwneud â fforddiadwyedd gofal plant wedi peri i rieni i ddefnyddio gofal plant anffurfiol a ddarperir gan aelodau o'r teulu (neiniau a theidiau yn aml). Fel yr esboniodd un ymatebydd i’r arolwg rhieni:

> '[Rwy'n] dibynnu'n fawr ar fy rhieni am ofal plant (sy'n anodd) gan nad ydw i'n gallu fforddio gwarchodwr plant ar gyfer fy mhlentyn hynaf yn ogystal â thalu am ofal plant i'm plentyn blwydd oed tra byddaf yn y gwaith.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.25 At hynny, myfyriodd yr ymatebwyr i’r arolwg rhieni ar sut mae cost gofal plant yn effeithio ar eu penderfyniadau mewn perthynas â gwaith/cyflogaeth. Er enghraifft, dywedodd un rhiant 'Roedd yn rhaid i mi weithio llai yn y maes gofal iechyd er mwyn lleihau costau'. Dywedodd ymatebydd arall i’r arolwg rhieni ei fod yn teimlo bod cost gofal plant wedi gwneud iddo feddwl ‘nid yw’n werth gweithio’, ac eglurodd rhiant arall ymhellach fod costau gofal plant yn golygu ei fod yn wynebu’r cyfyng gyngor

‘naill ai rydych chi'n talu eich holl gyflog i rywun ofalu am eich plant neu rydych chi'n aros gartref, gyda dim gyrfa a dim arian.'

> 'Mae'n rhaid i rieni (yn enwedig menywod) leihau eu horiau / gweithio'n rhan-amser / rhoi'r gorau i weithio gan nad yw'n ariannol hyfyw i weithio a thalu costau gofal plant.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.26 Un penderfyniad cysylltiedig â gwaith a wneir gan rai rhieni yw dod yn warchodwr plant eu hunain. Awgryma'r ymatebion i'r arolwg a'r data a gasglwyd o'r cyfweliadau mai un rheswm y tu ôl i'r penderfyniad hwn oedd galluogi'r rhieni hyn i oresgyn y broblem o'u costau gofal plant eu hunain gan eu bod yn credu y gallent ofalu am eu plentyn/plant eu hunain tra'n ennill incwm drwy ofalu am blant rhieni eraill. Fodd bynnag, er bod un rhiant a oedd wedi dod yn warchodwr plant yn cydnabod bod 'gofal plant yn rhy ddrud i deuluoedd', nododd hefyd nad yw gwarchod plant 'yn darparu digon o incwm i gynnal busnes.' Ymhellach, roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn bod trefniadau gweithio hyblyg ar draws ystod o swyddi gwahanol wedi galluogi rhieni i ystyried ffyrdd eraill o weithio gartref a gofalu am eu plant ar yr un pryd, gan leihau’r cyflenwad posibl o warchodwyr plant – gweler hefyd adran 6.4.

5.27 Er bod rhieni’n cydnabod y cyllid gofal plant sydd ar gael i rieni cymwys drwy’r Cynnig Gofal Plant, esboniodd rhai rhieni ei bod yn anodd yn logistaidd iddynt gael mynediad i'r gofal plant a ariennir oherwydd diffyg gofal cofleidiol.

> 'Yn gymaint ag yr ydym yn gwerthfawrogi'r 30 awr - mae dwy awr y dydd yn y feithrinfa yn anhygoel o anodd eu rheoli'n logistaidd pan fydd rhywun yn gweithio'n llawn amser. Heb warchodwr plant a chefnogaeth teulu, fydden ni byth yn gallu manteisio arno.' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

5.28 Yn ogystal â hynny, bu rhai rhieni’n myfyrio ar sut y byddai’r Cynnig Gofal Plant yn fwy buddiol pe bai ar gael i rieni yn gynharach na’r tymor ar ôl i’w plentyn droi’n dair oed.

> 'Mae'r 30 awr a ariennir yn ddefnyddiol ond mae'n dod yn rhy hwyr i fod yn ystyrlon mewn perthynas â menywod yn y gwaith - mae angen iddo helpu i ariannu gofal plant o'r adeg y bydd rhieni'n dychwelyd i'r gwaith (h.y. o naw mis ymlaen).' Ymatebydd i'r arolwg rhieni

*Hygyrchedd darpariaeth gofal plant*

5.29 Nid yw llawer o'r themâu sy'n ymwneud â chael mynediad at ddarpariaeth a godwyd yn y bennod hon drwyddi draw yn unigryw i ddarpariaeth gwarchod plant. Awgryma tystiolaeth yn yr ymatebion gan rieni i'r arolwg fod y problemau hyn yn ymwneud â mynediad yn berthnasol i ddarpariaeth gofal plant yn fwy cyffredinol. Cefnogir hyn gan ddata a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018-19) a nododd bod 26% o'r rhieni a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru o'r farn ei bod yn anodd dod o hyd i ofal plant sy'n gweithio iddynt o gwmpas eu horiau gwaith (o gymharu â 74% a oedd yn ei chael yn hawdd).

5.30 Codwyd materion tebyg hefyd mewn adroddiad a oedd yn trafod credoau, ymddygiad a rhwystrau rhieni o ran cael gafael ar ofal plant ac addysg gynnar (Llywodraeth Cymru, 2021). Felly, un argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn oedd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried beth y gallent ei wneud i gefnogi cynaliadwyedd a thwf y sector gofal plant.

## 6. Profiadau gwarchodwyr plant

6.1 Mae’r bennod hon yn archwilio profiadau gwarchodwyr plant a’r heriau y gallant eu hwynebu. Mae’r adrannau sy’n dilyn yn seiliedig yn bennaf ar gyfweliadau, trafodaethau grŵp ac arolwg a gynhaliwyd gyda gwarchodwyr plant, mewnwelediadau a rannwyd gan PACEY, a thrafodaethau grŵp a gynhaliwyd gyda staff awdurdodau lleol.

*Y rhesymau dros ddod yn warchodwr plant*

6.2 Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i warchodwyr plant pam eu bod wedi penderfynu dod yn warchodwr plant. Datgelodd y canfyddiadau fod y prif reswm yn seiliedig ar eu hamgylchiadau pan wnaethant y penderfyniad hwn. Un senario gyffredin oedd unigolion yn dewis bod yn warchodwr plant er mwyn cynhyrchu incwm yn ogystal â gallu gofalu am eu plant neu eu hwyrion/wyresau eu hunain.

> 'Y fantais oedd fy mod wedi gallu gofalu am fy mhlant fy hun tra roeddwn i'n gweithio.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd

> 'Roedd fy swydd flaenorol - fel athrawes - yn golygu bod gen i lai o amser i dreulio gyda fy mhlant fy hun - roedd gwarchod plant yn llawer mwy hyblyg ac yn gweithio'n well i mi gyda theulu ifanc.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd

6.3 Roedd yn ymddangos bod y penderfyniad i ddod yn warchodwr plant hefyd yn cael ei ysgogi gan y problemau yr oedd rhieni'n eu hwynebu o ran cael mynediad at ofal plant. Mae llawer o'r materion yn ymwneud â mynediad at ofal plant a eglurwyd gan warchodwyr plant a gyfwelwyd yn debyg i'r rhai a godwyd gan rieni fel y trafodir yn adrannau 5.7-5.27. Roedd y materion hyn yn cynnwys cost gofal plant, sy'n waeth i rieni a chanddynt fwy nag un plentyn; a diffyg argaeledd, a oedd mewn rhai achosion yn ymddangos yn fwy o her i'r rhieni hynny yr oedd yn well ganddynt ddefnyddio gwarchodwr plant (gweler adrannau 5.3-5.6 sy'n amlinellu rhesymau rhieni dros ffafrio gwarchodwr plant yn hytrach na lleoliadau gofal plant eraill). O ganlyniad, arweiniodd yr heriau hyn o ran cael mynediad i ofal plant at rai rhieni'n cofrestru i ddod yn warchodwyr plant eu hunain er mwyn datrys eu problemau gofal plant.

6.4 Fodd bynnag, awgrymodd un rhanddeiliad fod y pandemig COVID-19 wedi arwain at gyfleoedd gweithio mwy hyblyg (e.e. gweithio o gartref) sydd o bosibl wedi ei gwneud yn haws i rieni sicrhau cyflogaeth sydd hefyd yn eu galluogi i ofalu am eu

plant neu i gysoni eu patrymau gwaith â'u trefniadau gofal plant. Felly, awgrymodd y rhanddeiliad hwn y gallai rhieni, o ganlyniad, fod yn llai tebygol erbyn hyn o benderfynu dod yn warchodwr plant er mwyn gofalu am eu plant tra'n ennill incwm.

6.5 Dywedodd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd eu bod wedi cael eu denu at swydd gwarchod plant oherwydd yn ogystal â'r ffaith eu bod am weithio gyda phlant, roeddent hefyd yn hoffi'r syniad o fod yn berchen ar eu busnes eu hunain (trafodir hyn ymhellach yn adran 6.9-6.13 sy'n amlinellu manteision gwarchod plant) . At hynny, roedd gan rai o'r gwarchodwyr plant hyn gymhwyster gofal plant/blynyddoedd cynnar eisoes ac roeddent yn awyddus i ddefnyddio hwn tra'n mwynhau manteision bod yn berchen ar eu busnes eu hunain.

*Y cyfnod o amser yr oedd pobl wedi bod yn warchodwyr plant a chynlluniau ar gyfer y dyfodol*

6.6 O blith y gwarchodwyr plant a ymatebodd i'r arolwg, nododd 187 y cyfnod o amser yr oeddent wedi bod yn warchodwyr plant. O blith y rhain, roedd ychydig yn llai na dwy ran o dair (65 y cant - 121 o blith 187) wedi bod yn gwarchod plant am 10 mlynedd neu fwy, ac roedd 11 y cant arall (20 o blith 187) wedi bod yn gwarchod plant am rhwng saith a naw mlynedd. Mae hyn yn awgrymu cyfoeth o brofiad gwarchod plant ymhlith y mwyafrif o'r rhai a holwyd a bod gwarchod plant yn opsiwn gyrfa hirdymor i'r unigolion hyn. Roedd 11 y cant arall (21 o blith 187) wedi bod yn gwarchod plant am bedair i chwe blynedd a 12 y cant wedi bod yn gwneud hynny am rhwng un a thair blynedd. Dim ond dau y cant (tri o bob 187) a oedd wedi bod yn gwarchod plant ers llai na 12 mis. Mae'n bosibl bod y gyfran gymharol fach o ymatebwyr a oedd newydd ddechrau gwarchod plant yn adlewyrchu'r lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru yn y blynyddoedd diwethaf fel y trafodir ym mhennod 3.

6.7 Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu cynlluniau dros y pum mlynedd nesaf, dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg gwarchodwyr plant (54 y cant - 101 o blith 187) eu bod yn bwriadu parhau i weithio fel gwarchodwr plant. Dywedodd gweddill yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu gadael y maes gwarchod plant yn ystod y pum mlynedd nesaf (31 y cant - 58 o blith 187) neu nad oeddent yn gwybod beth oedd eu cynlluniau (15 y cant - 28 o blith 187). O blith y rhai a ddywedodd eu bod yn bwriadu gadael gwarchod plant, roedd y gyfran fwyaf (38 y cant - 31 o blith 82) yn bwriadu ymddeol o fewn y pum mlynedd nesaf. Roedd 16 y cant arall (13 o blith

82) yn bwriadu rhoi’r gorau i weithredu fel gwarchodwr plant i weithio mewn swydd arall yn y sector gofal plant, sy’n dangos bod gwarchodwyr plant yn dadleoli i’r sector gofal plant ehangach. Roedd cynlluniau eraill yn cynnwys gweithio mewn swydd arall y tu allan i’r sector gofal plant (10 y cant – wyth o blith 82) neu ddychwelyd i addysg (dau y cant – dau o blith 82). Nododd y 33 y cant arall (27 o blith 82) nad oeddent yn gwybod beth oedd eu cynlluniau.

6.8 Mae canfyddiadau o'r cyfweliadau gyda gwarchodwyr plant yn awgrymu ambell reswm dros ddadleoli gwarchodwyr plant i'r sector gofal plant ehangach. Roedd y rhesymau hyn yn tueddu i fod yn seiliedig ar rai o'r heriau a wynebir gan warchodwyr plant a drafodir ymhellach yn adrannau 6.14 i 6.87. Er enghraifft, esboniodd un gwarchodwr plant ei fod yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb o ymdrin â'r gwaith papur, ac roedd yn credu y byddai'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei rannu rhwng mwy o aelodau o staff pe bai'n gweithio mewn lleoliad gofal plant arall. Wrth gyfeirio at y gwaith papur ar asesu risg y mae'n ofynnol ei gwblhau, esboniodd gwarchodwr plant arall ei bod yn 'ymddangos yn haws bod mewn lleoliad allanol, lle nad yw'r cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch ar fy ysgwyddau i.'

*Y Pethau Cadarnhaol am Warchod Plant*

6.9 Mae rôl gwarchodwyr plant yn un bwysig, gan ddarparu gwasanaeth hanfodol i rieni a phlant. Mae gwarchodwyr plant yn aml yn cynnig opsiwn gofal plant hyblyg, yn nes at gartrefi a gweithleoedd rhieni ac mewn amgylchedd cartref sy'n cael ei ffafrio gan lawer o rieni (gweler adrannau 5.2-5.5 am ragor o fanylion am ddewisiadau rhieni a'r rhesymau dros ddefnyddio gwarchodwr plant).

6.10 Amlinellodd y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd yr hyn yr oeddent yn ei fwynhau am eu swydd a beth oedd manteision gwarchod plant yn eu barn hwy. Buont yn myfyrio ar sut y gall gwarchod plant fod yn ddewis gyrfa rhagorol, gan roi cyfle i bobl weithio gartref ac adeiladu eu busnes eu hunain. Roedd llawer o warchodwyr plant yn gwerthfawrogi'r rhyddid a'r hyblygrwydd a ddaw yn sgil hyn, gan eu galluogi i sefydlu eu busnes fel y mynnent, er enghraifft, dewis yr amseroedd y maent am eu gweithio a'r gweithgareddau y maent yn eu gwneud gyda'r plant.

> 'Gallaf ddewis beth rwy'n ei wneud a phryd rwy'n gweithio. Rwy'n hoffi'r rhyddid.'
> Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

'Hyblygrwydd gwych a dilyn ddiddordebau'r plant gan fynd gyda'r llif. Does dim cyfyngiadau amser fel yn yr ystafell ddosbarth.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

'…yr anturiaethau a gawn a defnyddio gofod awyr agored yn bendant [yw un o'r] pethau mwyaf cadarnhaol yn sgil bod yn warchodwr plant.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

6.11 Yn ogystal â'r rhyddid hwn, esboniodd un gwarchodwr plant fod y gallu i addasu cynlluniau o ddydd i ddydd yn dibynnu ar yr hyn yr hoffai'r plant ei wneud a beth sy'n digwydd bob dydd yn bwysig iddo. 'Er enghraifft, pe bai sesiwn cylch chwarae ar gael y diwrnod hwnnw y gall gwarchodwyr plant ei mynychu, gallwn i benderfynu ar fyr rybudd i fynd â'r plant yno' – gwarchodwr plant a gyfwelwyd. Ar gyfer y gwarchodwr plant hwn, roedd yn teimlo bod rhedeg ei fusnes ei hun yn ei alluogi i wneud penderfyniadau fel y rhain na fyddai'n gallu eu gwneud pe bai'n cael ei gyflogi mewn lleoliad gofal plant arall.

6.12 Nododd un gwarchodwr plant a gyfwelwyd, yn ei farn ef, y gall lleoliadau gwarchod plant fod o fudd i ddatblygiad cymdeithasol plant gan eu bod yn fwy tebygol o ryngweithio â phlant o oedrannau gwahanol o gymharu â lleoliadau eraill.

'Y peth cadarnhaol yw eich bod yn gweld y plant yn addasu ac yn newid oherwydd gwahanol oedrannau a galluoedd y plant. O fewn y lleoliad [gwarchod plant] hwn mae o fudd i'r plentyn fod yng nghwmni plant o wahanol oedrannau gan ei fod yn dysgu y bydd angen iddo helpu efallai neu aros i wneud rhai gweithgareddau.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

6.13 Nododd llawer o'r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd mai un o fanteision allweddol gwarchod plant iddyn nhw'n bersonol oedd bod y gwaith yn rhoi boddhad mawr iddynt gan sôn am eu balchder o weld plant yn dysgu ac yn datblygu dan eu gofal a pha mor freintiedig yr oeddent yn teimlo bod rhieni'n ymddiried ynddynt i ofalu am eu plant.

'Rwyf wrth fy modd bod gyda'r plant a chefnogi teuluoedd. Rwyf wedi gallu cefnogi teuluoedd drwy gyfnodau anodd ac mae hynny'n fraint. Mae gen i fabanod ar hyn o bryd ac mae'r ffaith bod rhieni'n ymddiried ynof fi gyda nhw yn rhan arbennig iawn o'r swydd.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

'Gwylio'r plant yn tyfu a bod yn fodel rôl mor bwysig yn eu bywydau. Gan nad oes gennyf blant fy hun rwy'n ceisio rhoi'r cariad a'r gofal hwnnw i blant eraill. Rwy'n

gwylio [enw'r plentyn] yn tyfu i fod yn ferch brydferth a dyma'r teimlad gorau yn y byd.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

'Gwylio'r plant rwyf wedi bod yn gofalu amdanynt ers eu bod yn chwe mis oed yn tyfu a datblygu. Rydych chi'n bwysig i'r plentyn hwnnw a'i deulu ac mae'n anrhydedd gallu ymddiried yn y plant hynny a'u haddysgu, mae'n fraint. Rwy'n gwirioni ar fy swydd.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

*Heriau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu*

6.14 Er bod gwarchodwyr plant yn cydnabod y gall y swydd roi boddhad mawr iddynt, fe wnaethant hefyd fyfyrio ar y ffaith bod anawsterau'n gysylltiedig â'r swydd hefyd. Eglurodd y gwarchodwyr plant eu bod yn wynebu amrywiaeth o heriau, o'r cam cyn cofrestru ymlaen, fel yr amlinellir yng ngweddill y bennod hon. Mae tystiolaeth ar gyfer y bennod hon yn seiliedig ar ymatebion gwarchodwyr plant i'r arolwg a chyfweliadau dilynol.

*Cofrestru*

6.15 Mae sawl cam cyn gallu gweithio fel gwarchodwr plant. Mae'r broses yn dechrau gyda sesiwn friffio, a gynhelir gan PACEY neu Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol i ddysgu am y broses a'r gofynion. Yna, mae hyfforddiant cyn cofrestru i warchodwyr plant ar gyfer darparu gofal plant yn y cartref, gydag unedau ar 'Gyflwyniad i ofal plant yn y cartref' a 'Paratoi ar gyfer ymarfer fel gwarchodwr plant'. Cyflwynir yr hyfforddiant hwn ar-lein a chaiff ei asesu drwy bortffolio o waith. Y cam olaf yw cyflwyno cais i AGC, sy'n cynnwys tystlythyr iechyd gan feddyg yr ymgeisydd, manylion gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a manylion hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a thystysgrifau hyfforddiant cyn cofrestru.

6.16 Dywedodd PACEY fod y broses o ddod yn warchodwr plant cofrestredig wedi dod yn fwyfwy cymhleth, a bod mwy o ofynion a chostau uwch yn gysylltiedig â hynny. Mae'n credu bod hyn yn her sylweddol i unigolion sy’n awyddus i ymuno â'r maes, a bod ganddo'r potensial i atal rhai rhag dilyn gyrfa fel gwarchodwr plant. Teimlai’r rhanddeiliaid a gyfwelwyd y gall rhai o’r gofynion cofrestru diweddar a gyflwynwyd e.e. yr unedau cymwysterau newydd sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â fframwaith cymwysterau 2019 ei gwneud yn anodd i rai pobl ddechrau gweithio yn y proffesiwn. Roedd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd, a oedd wedi bod yn

gweithredu ers sawl blwyddyn, hefyd wedi mynegi'r farn hon neu o leiaf yn credu ei bod yn haws cofrestru fel gwarchodwr plant pan wnaethant hwy ddechrau o gymharu â newydd-ddyfodiaid y dyddiau hyn.

6.17 Yn ôl PACEY, yr unigolyn sydd fel arfer yn ysgwyddo costau hyfforddiant cyn cofrestru ar gyfer dod yn warchodwyr plant. Mae rhai awdurdodau lleol yn talu'r costau hyn a thros y blynyddoedd bu cynlluniau ad hoc i dalu am yr hyfforddiant cyn cofrestru. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw'r cymorth hwn ar gael, gall y costau sefydlu sy'n gysylltiedig â gwarchod plant fod yn rhwystr mawr i unigolion sy'n ystyried dod yn warchodwyr plant a / neu gall gyfrannu at y sefyllfa ariannol fregus y mae rhai gwarchodwyr plant yn ei wynebu ar ôl i'w busnes ddechrau gweithredu.

6.18 Dywedodd gwarchodwyr plant a PACEY hefyd wrth dîm yr adolygiad y gall y broses o ddod yn warchodwr plant cofrestredig gymryd cryn dipyn o amser, ac amcangyfrifir y bydd y daith yn para rhwng chwe mis a thair blynedd, mewn rhai achosion. Mae'r amserlen estynedig hon i'w phriodoli i ofynion amrywiol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall unigolyn gofrestru (fel y nodir yn 6.5). Gall hyn fod yn rhwystr i rai unigolion, gan ei fod yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o amser ac ymdrech a gall gyd-fynd ag amser pan fydd yn rhaid iddynt efallai wneud newidiadau i'w cartref a / neu brynu eitemau amrywiol e.e. teganau a gatiau diogelwch, i wneud eu cartref yn addas ar gyfer gwarchod plant.

6.19 Gall y daith i ddod yn warchodwr plant cofrestredig fod yn hirfaith a chymhleth, a gofyn am fuddsoddiad sylweddol o ran amser, ymdrech a chost ariannol bosibl. Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd y pwynt hefyd bod rhai o'r darpar warchodwyr plant y maent wedi gweithio â nhw wedi gweld y broses gofrestru yn llethol ac yn ddryslyd, gan wneud iddynt ddigalonni a chwilio am gyfleoedd cyflogaeth eraill.

*Cymhareb oedolion i blant y Safonau Gofynnol Cenedlaethol*

6.20 Amlygodd y rhai a gymerodd ran yn y drafodaeth grŵp ar gyfer awdurdodau lleol yr angen, yn eu barn hwy, am fwy o hyblygrwydd a chymorth i warchodwyr plant o ran y cymarebau a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir11. Noda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol y gall gwarchodwyr plant ofalu

[11] Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (arolygiaethgofal.cymru)

am 10 o blant hyd at 12 oed; o blith y deg plentyn hynny, ni chaiff mwy na chwech o blant fod dan wyth oed ac ni chaiff mwy na thri fod dan bump oed. Nododd y rhai a gymerodd ran yn y drafodaeth grŵp fod gan warchodwyr plant yng Nghymru lai o hyblygrwydd o ran cymarebau na'r rhai sy'n gweithredu yn Lloegr a'r Alban. Roeddent hefyd o'r farn bod anhyblygrwydd y cymarebau presennol ar gyfer plant iau yn cael effaith andwyol ar fusnesau gwarchodwyr plant a hyfywedd ariannol.

6.21 Mewn rhai rhanbarthau o Gymru, yn hanesyddol caniatawyd i warchodwyr plant anfon cais at AGC i amrywio'r cymarebau o ran y plant y gallent ofalu amdanynt yn ystod diwrnod arferol. Roedd enghreifftiau o geisiadau a gyflwynwyd yn cynnwys yr angen i gyflwyno amrywiadau i ganiatáu ar gyfer cyfnod byr o orgyffwrdd rhwng amseroedd gollwng a chasglu (e.e. llacio'r cymarebau gofynnol am hanner awr y dydd i gwmpasu'r gorgyffwrdd hwn). Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys ceisiadau i amrywio'r cymarebau er mwyn cefnogi anghenion gofal plant tymor byr i deuluoedd (fel gofalu am frodyr a chwiorydd, cwmpasu newidiadau i amserlenni gwaith, neu ddarparu gofal plant ychwanegol yn ystod y gwyliau). Bwriad ceisiadau am yr amrywiadau hyn oedd cefnogi cysondeb gofal.

6.22 Trafodwyd y potensial i gyflwyno neu ailgyflwyno mwy o hyblygrwydd o'r math hwn mewn perthynas â chymarebau mewn cyfarfodydd grŵp gyda gwarchodwyr plant. Nododd y rhan fwyaf o'r gwarchodwyr plant y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dychwelyd at yr hyblygrwydd hwn, yn enwedig pe bai'n galluogi gwarchodwyr plant i weithio gyda'i gilydd ac ar ran ei gilydd yn ystod gwyliau neu salwch. Fodd bynnag, er bod diddordeb mewn cyfleoedd i lacio'r cymarebau ar adegau penodol, nid oedd unrhyw awydd ymhlith gwarchodwyr plant yr ymgynghorwyd â hwy i gynyddu nifer cyffredinol y plant y gellid gofalu amdanynt.

> "Mae'n heriol peidio â chael unrhyw hyblygrwydd yn y cymarebau ar gyfer plant dan 5 oed. Er enghraifft, methu â chynnig oriau ychwanegol o bryd i'w gilydd i deuluoedd sydd gyda mi eisoes oherwydd fy mod yn llawn neu barhau i ddarparu gofal i frodyr a chwiorydd y mae eu teuluoedd eisoes yn defnyddio fy ngwasanaeth". Ymatebydd i'r arolwg.

> "Does dim hyblygrwydd o ran niferoedd fel sydd ganddyn nhw yn Lloegr. Felly, mae'n rhaid i mi droi pobl i ffwrdd os ydyn nhw'n gorgyffwrdd hyd yn oed am y cyfnod byrraf o amser". Ymatebydd i'r arolwg.

6.23 Er na chaniateir i warchodwyr plant lacio'r gymhareb staff i blant yn eu lleoliadau am unrhyw gyfnod o amser yn ystod y dydd ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod rhai gwarchodwyr plant yn gwneud hynny. Mae adroddiadau arolygu AGC a adolygwyd yn cyfeirio at achosion o dorri'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn rhai lleoliadau gwarchod plant. Dywedwyd bod rhai o'r rhain am gyfnodau byr o amser pan oedd plant yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn dangos ymhellach y problemau y gall rhai gwarchodwyr plant eu hwynebu yn sgil diffyg hyblygrwydd gyda chymarebau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai o'r achosion o dorri'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn yn arwyddocaol ac ni chânt eu hesgusodi.

6.24 Roedd holiadur yr arolwg a ddosbarthwyd i warchodwyr plant yn rhestru agweddau ar reoli busnes gwarchod plant a oedd wedi'u nodi'n flaenorol fel heriau posibl – h.y.:

- Cael Caniatâd Cynllunio;
- Cael mynediad at hyfforddiant;
- Mathu â darparu ar gyfer / ateb y galw am leoedd gofal plant;
- Galw isel / methu â llenwi'r lleoedd gofal plant sydd ar gael gennyf;
- Costau a threuliau rhedeg busnes gwarchod plant;
- Cael gafael ar gymorth busnes;

Roedd holiadur yr arolwg hefyd yn rhestru agweddau sy'n gysylltiedig â gweithio fel gwarchodwr plant a oedd wedi'u nodi'n flaenorol fel rhai a allai fod yn heriol – h.y.:

- Cyfleoedd dilyniant gyrfa;
- Lefel y gwaith papur a'r gwaith gweinyddol;
- Yr angen i ddefnyddio TG / cyfrifiadur / rhyngrwyd;
- Lefel yr incwm a enillir;
- Oriau a weithir bob dydd / wythnos;

6.25 Gofynnwyd i warchodwyr plant nodi, ar raddfa o un i bump, i ba raddau yr oeddent yn ystyried pob un o'r rhain yn her: roedd un yn cynrychioli dim her o gwbl a phump yn her sylweddol (roedd 'Amherthnasol' hefyd yn opsiwn). Yna cyflwynwyd yr un rhestr o heriau posibl i'r ymatebwyr eto a gofynnwyd a oedd unrhyw un o'r rhain wedi dod yn haws neu'n fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Roedd yr opsiynau

ateb yn cynnwys 'Haws', 'Mwy heriol', 'Dim newid' ac 'Amherthnasol'. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu ymatebion yr arolwg i'r cwestiynau hyn.

*System Gynllunio*

6.26 Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodi cymarebau oedolion i blant.[12] Yn dibynnu ar yr oedrannau, gall gwarchodwr plant ofalu am hyd at ddeg o blant hyd at 12 oed.[13] Fodd bynnag, er mwyn gofalu am fwy na chwech o blant, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar warchodwr plant. Nododd gwarchodwyr plant a rhanddeiliaid eraill y gall cael caniatâd cynllunio fod yn broses gymhleth a chostus, ac, yn ôl y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd, mae'n ymddangos bod yr angen am ganiatâd cynllunio yn amrywio yn dibynnu ar ble yng Nghymru y maent wedi'u lleoli.

6.27 Mae p'un a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio hefyd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Mae'r canllawiau diweddaraf sy'n ymwneud â rheolau cynllunio lleol ar ofal plant yn dyddio o 2016[14] ac yn nodi y gallai fod angen caniatâd cynllunio os bydd 'cymeriad y cartref yn newid o ganlyniad i'r busnes [gwarchod plant]', a allai ddeillio o 'gynnydd sylweddol yn y traffig neu nifer y bobl' neu pe byddai'r busnes yn 'amharu ar gymdogion ar adegau afresymol'. Fodd bynnag, noda'r canllawiau i Awdurdodau Lleol:

> "[CIW] Inspectors determine if premises are safe and suitable for the provision of care, taking into account the maximum number of children that a childminder will look after at any one time and the available space for each child. If planning authorities consider, in the light of the advice set out above that planning permission should be required for an individual to use their home for child minding purposes, then unless there are specific planning reasons for doing so through conditions, they should not specify or restrict the number of children to be minded".

---

[12] Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Gwasanaethau gofal plant a chwarae | Arolygiaeth Gofal Cymru

[13] Mae uchafswm y plant y gall gwarchodwr plant ofalu amdanynt fel a ganlyn:

- Deg o blant hyd at 12 oed;
- O blith y deg plentyn hynny, ni chaiff mwy na chwech fod o dan wyth mlwydd oed.
- O blith y chwech hynny, ni chaiff mwy na thri fod o dan bum mlwydd oed.
- O blith y tri phlentyn hynny, fel arfer ni all mwy na dau fod o dan 18 mis oed, er y gellir gwneud eithriadau ar gyfer brodyr a chwiorydd.

[14] Caniatâd cynllunio: gwarchod plant | LLYW.CYMRU

6.28 Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i’r arolwg gwarchodwyr plant (94 o blith 187) nad oedd caniatâd cynllunio, nac unrhyw heriau sy’n gysylltiedig â hyn, yn berthnasol iddynt hwy. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio fod y broses wedi bod yn heriol. Dywedodd naw y cant (16 o blith 187) o’r holl ymatebwyr i’r arolwg fod cael caniatâd cynllunio yn her sylweddol, gan roi sgôr her o bump allan o pump, a rhoddodd tri y cant arall (chwech o blith 187) sgôr her o bedwar allan o bump iddo. At hynny, dywedodd 10 y cant (18 o blith 187) fod cael caniatâd cynllunio wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf.

6.29 Awgryma'r canlyniadau hyn nad yw llawer o warchodwyr plant wedi cael profiad o ymdrin â materion yn ymwneud â chaniatâd cynllunio, ond i’r rhai sydd wedi cael profiad o'r fath, mae’n ymddangos bod y broses wedi bod yn heriol a bod lefel yr her yn cynyddu.

6.30 Cyfeiriodd un o gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd ag ef at warchodwr plant newydd y bu bron iddo dynnu’n ôl o’r broses gofrestru oherwydd y dywedwyd wrtho y byddai’n rhaid cwblhau cais cynllunio llawn na allai ei fforddio. Nododd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol fod yr awdurdod, ar yr achlysur hwnnw, wedi gallu cefnogi cais cynllunio'r gwarchodwr plant. Fodd bynnag, cyfeiriodd y cynrychiolwyr hefyd at enghreifftiau lle y gwrthodwyd caniatâd cynllunio i rai gwarchodwyr plant a oedd yn dymuno cofrestru eu gwasanaeth ac amlinellodd y gall hyn fod yn golled ariannol fawr i’r unigolyn dan sylw ac yn enghraifft a allai atal darpar warchodwyr plant eraill rhag hyd yn oed ystyried cofrestru. Cyfeiriodd rhai gwarchodwyr plant hefyd at y costau, a nododd un fod cost gwneud cais am ganiatâd cynllunio i’w galluogi i ofalu am 10 o blant yn fwy nag £850.

6.31 Rhoddir crynodeb isod o rai enghreifftiau pellach o brofiadau gwarchodwyr plant gyda gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

**Enghreifftiau o brofiadau heriol gyda'r system gynllunio**

“Yn anffodus, rwyf wedi wynebu her fawr gyda chael caniatâd cynllunio. Mae'r broses wedi cymryd 10 mis a nawr mae'r amodau y mae'n rhaid i mi weithredu o'u mewn yn ofnadwy, i'r graddau fy mod i'n difaru gwneud cais. Rwyf wedi cofrestru i ofalu am 10 o blant ond dim ond chwech y gallaf eu cael, gan gynnwys fy rhai fy hun, heb ganiatâd cynllunio. Un o’r cyfyngiadau a osodwyd arnaf fel rhan o’r cytundeb cynllunio yw mai dim ond rhwng 10am a 4pm y gallaf ddefnyddio fy ngardd sy’n gwbl afresymol ac sy’n mynd yn groes i’r canllawiau ar ganiatáu i blant chwarae yn yr awyr agored, CCUHP a hawliau plant. Mae hyn wedi cyfyngu yn hytrach na chynyddu nifer y plant y gallaf ofalu amdanynt a’r gallu i gynnig

parhad gofal i frodyr a chwiorydd ac ati." - Ymatebydd i'r Arolwg Gwarchodwyr Plant

"Mae'n hynod rwystredig bod yn rhaid i mi wneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn cyflogi cynorthwyydd a fydd yn caniatáu i mi lenwi lleoedd ychwanegol, ac eto wn i ddim pa fath o ganiatâd sydd ei angen. Prin yw'r cymorth sydd ar gael i'm helpu i wneud cais ac mae cost fawr yn gysylltiedig â chael y wybodaeth sydd ei hangen cyn hyd yn oed dechrau ar y broses. Mae gennyf ddigonedd o le i ddarparu ar gyfer mwy o blant, llawer o bobl â diddordeb mewn bod yn gynorthwyydd i mi, fodd bynnag, ni allaf fforddio mynd drwy'r broses gynllunio. Byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o ganllawiau cliriach ar hyn neu, yn well fyth, pe bai'r broses yn cael ei hariannu." - Ymatebydd i'r Arolwg Gwarchodwyr Plant

6.32 Yn ogystal â chost, amser a chymhlethdod y broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio, her allweddol a nodwyd gan randdeiliaid yw'r diffyg cysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran sut y caiff rheolau cynllunio eu cymhwyso. Yn ôl y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, gall hyn greu dryswch ac ansicrwydd i warchodwyr plant a all, mewn rhai achosion, beri i warchodwyr plant dybio bod angen caniatâd cynllunio arnynt pan nad yw hynny'n wir. Gall hyn atal rhai gwarchodwyr plant rhag ymestyn eu darpariaeth hyd yn oed pan fydd ganddynt yr awydd a'r capasiti i wneud hynny.

6.33 Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd hefyd o'r farn bod diffyg cyfathrebu rhwng adrannau cynllunio a'r timau gofal plant o fewn awdurdodau lleol yn aml sydd, yn ei dro, wedi arwain at gyfleu negeseuon anghyson ynghylch cynllunio i warchodwyr plant. Ategir y diffyg gwybodaeth a'r diffyg cyfathrebu ymhellach gan ein hymchwil na allai ddod o hyd i unrhyw wybodaeth neu ganllawiau a oedd ar gael yn hawdd ar unrhyw un o wefannau awdurdodau cynllunio Cymru a adolygwyd, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwarchodwyr plant.

6.34 Mae PACEY wedi codi'r materion hyn mewn perthynas â dryswch ac anghysondeb, ac mae hefyd wedi casglu enghreifftiau o sut y mae cyfyngiadau cynllunio awdurdodau lleol yn effeithio ar warchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru.

Dywed PACEY Cymru ei fod yn ymwybodol o ddarlun cynyddol sy'n peri pryder lle mae rhai adrannau cynllunio lleol o'r farn bod angen caniatâd cynllunio ac yn codi ffioedd mawr am brosesu hyn mewn rhai ardaloedd.[15]

6.35 Mae'r enghreifftiau hyn o heriau gyda'r system gynllunio a brofir gan warchodwyr plant yn amlygu'r angen i ddarparu arweiniad clir a chyson i warchodwyr plant ar ofynion cynllunio ar draws pob awdurdod cynllunio, a phwysigrwydd hynny.

*Hyfforddiant a dilyniant gyrfa*

6.36 Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i warchodwyr plant ymgymryd â hyfforddiant gorfodol wedi'i hunanariannu, gan gynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig; diogelwch a hylendid bwyd; a diogelu. Nododd rhai gwarchodwyr plant yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn gweld yr hyfforddiant hwn yn ddrud ac y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o gyllid tuag ato, yn enwedig gan fod angen iddynt adnewyddu'r hyfforddiant hwn bob ychydig flynyddoedd.


6.37 Mae hyfforddiant anstatudol arall ar gael i warchodwyr plant. Darparodd y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd enghreifftiau o'r mathau hyn o gyrsiau hyfforddi yr oeddent wedi'u cyflawni neu'n ymwybodol ohonynt, gan gynnwys hyfforddiant yn ymwneud â'r Ddeddf ADY newydd; lleferydd ac iaith; a hyfforddiant codi a chario. Roedd gwarchodwyr plant yn tueddu i werthfawrogi faint o hyfforddiant a oedd ar gael, yn enwedig y cyrsiau hyfforddi hynny a oedd ar gael am ddim neu am bris rhesymol. Cydnabuwyd bod 'PACEY yn dda am ddarparu hyfforddiant am ddim', a'i fod yn cynnig nifer o weminarau ar bynciau amrywiol, a bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol weithiau'n cynnig rhai cyrsiau hyfforddi am bris gostyngol.

6.38 Awgryma'r ymatebion i'r arolwg y gall hygyrchedd hyfforddiant fod yn broblem i rai gwarchodwyr plant, gyda phedwar y cant (saith o blith 188) o warchodwyr plant yn nodi hyn fel her sylweddol gan roi sgôr her o bump allan o bump i hyn a rhoddodd 17 y cant arall (32 o blith 188) sgôr her o bedwar allan o bump iddo. At hynny, dywedodd 50 y cant (94 o blith 188) o ymatebwyr fod cael mynediad at hyfforddiant wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu ag 16 y cant (30 o blith 188) a nododd ei fod wedi dod yn haws. Dewisodd 30 y cant arall (57 o blith

[15] Planning issues in Wales | PACEY a'r adroddiad 'Impact of Local Authority Planning restrictions' i Lywodraeth Cymru (Medi 2021, heb ei gyhoeddi)

188) yr opsiwn 'dim newid' a dewisodd y pedwar y cant arall (saith o blith 188) 'amherthnasol' – gweler Ffigur 6.1.

**Ffigur 6.1: – I ba raddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried mynediad at hyfforddiant yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=188)

6.39 Mae sylwadau ychwanegol yn yr arolwg ac yn ystod cyfweliadau dilynol yn awgrymu bod gwarchodwyr plant yn ei chael hi'n anodd dilyn hyfforddiant yn ystod y dydd ac felly hoffent i rywfaint o hyfforddiant gael ei gynnal gyda'r nos a/neu ar benwythnosau. Fodd bynnag, nododd rhai o'r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd fod yr awdurdod lleol yn eu hardal hwy yn cynnig sesiynau hyfforddi am ddim i warchodwyr plant a oedd yn aml yn cael eu darparu wyneb yn wyneb neu ar-lein gyda'r nos ac ar benwythnosau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y graddau y mae hyfforddiant o'r math hwn ar gael yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

6.40 Fodd bynnag, roedd rhai gwarchodwyr plant hefyd yn cydnabod y gall fod yn anodd ymgymryd â hyfforddiant hyd yn oed gyda'r nos ac ar benwythnosau oherwydd ymrwymiadau personol y tu allan i oriau gwaith, megis eu bywyd teuluol eu hunain.

> 'Mae llawer o hyfforddiant da ar gael ond nid bob amser ar yr adeg iawn o'r dydd. Mae angen hyfforddiant gyda'r nos neu ar y penwythnos ar warchodwyr plant ac nid yw hynny bob amser ar gael.' Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

> 'Ers COVID mae mwy o hyfforddiant ar-lein ar gael ond gan fy mod i'n gweithio 50 awr yr wythnos ac yn fam i dri o blant, mae bron yn amhosibl ffitio'r cyfan i mewn.' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

'Rwy'n mynychu unrhyw hyfforddiant yn ystod fy amser rhydd, sydd weithiau'n golygu fy mod yn colli fy mhenwythnos oherwydd gofynion hyfforddi.' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

6.41 Roedd sawl ymatebydd i’r arolwg yn teimlo ei bod wedi dod yn haws cael mynediad at hyfforddiant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac ers y pandemig oherwydd darpariaeth ar-lein. Mae hyn wedi golygu bod gwarchodwyr plant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant gyda'r nosau ac ar benwythnosau yn haws gan osgoi amser a chostau teithio. Fodd bynnag, nododd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd ei bod yn well ganddynt gael rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb, yn enwedig oherwydd ei fod yn cynnig cyfle iddynt gyfarfod a rhyngweithio ag eraill a oedd yn mynychu'r hyfforddiant.

'Mae cyflwyno hyfforddiant dros Zoom/ar-lein wedi bod yn wych gan fy mod i'n gallu cael mynediad at gymaint mwy o hyfforddiant gan nad oes rhaid i mi ystyried amseroedd teithio, a gallaf ffitio'r hyfforddiant i mewn o amgylch gofal plant fy nheulu fy hun. Rwyf wedi treblu fy hyfforddiant dros y 12 mis diwethaf.' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant

6.42 Er gwaethaf yr hyfforddiant sydd ar gael, mae sylwadau gan warchodwyr plant yn awgrymu bod nifer y gwarchodwyr plant sy'n manteisio ar yr hyfforddiant yn amrywio. Nid oedd rhai ymatebwyr i'r arolwg yn gweld perthnasedd hyfforddiant anstatudol oherwydd, yn eu barn nhw, nid oedd o reidrwydd yn arwain at unrhyw ddilyniant gyrfa.

'Dyw hyfforddiant a dilyniant gyrfa ddim yn berthnasol i warchodwyr plant gan eu bod yn parhau i weithredu fel y maent wedi gwneud erioed neu'n symud i swydd arall'. - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant


6.43 Nododd bron i draean o'r ymatebwyr i'r arolwg (30% - 56 o blith 187) nad oedd dilyniant gyrfa, ac unrhyw heriau sy'n gysylltiedig ag ef, yn berthnasol iddyn nhw – gweler ffigur 6.2. Awgryma hyn nad yw llawer o warchodwyr plant o reidrwydd yn teimlo bod dilyniant gyrfa yn gysylltiedig â'u rôl ac efallai nad ydynt yn cydnabod bod y ffordd y maent yn tyfu eu busnes ac yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn gyfystyr â dilyniant gyrfa.

Mae dros chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg (26 y cant - 49 o blith 187) yn ystyried cyfleoedd dilyniant gyrfa o fewn y maes gwarchod plant yn her sylweddol neu fawr, gan roi sgôr her o bedwar neu bump allan o bump iddo. Er nad oedd bron i hanner (44 y cant - 83 o blith 187) yn ystyried cyfleoedd dilyniant gyrfa o fewn y maes

gwarchod plant yn her, efallai mai'r canfyddiad mwyaf diddorol yw nad oedd bron i draean (30 y cant - 56 o blith 187) yn ystyried bod dilyniant gyrfa yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn gysylltiedig â rhai o'r canfyddiadau a adroddwyd yn gynharach yn amlinellu nad oedd rhai ymatebwyr i'r arolwg yn gweld perthnasedd dilyn hyfforddiant anstatudol gan nad oedd yn arwain at unrhyw ddilyniant gyrfa (gweler adran 6.42). Fe wnaeth ymatebwyr eraill ddatganiadau tebyg:

'Nid yw dilyniant gyrfa yn wir yn berthnasol i warchodwyr plant os ydych yn bwriadu aros yn union fel gwarchodwr plant' - ymatebydd arolwg gwarchodwyr plant.

**Ffigur 6.2: I ba raddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried cyfleoedd dilyniant gyrfa yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=187)

6.44 Roedd y canfyddiad bod dilyniant gyrfa yn her neu ddim yn berthnasol i warchod plant, hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y farn a fynegwyd gan rai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd a nododd y gallai diffyg cyfleoedd dilyniant gyrfa atal rhai unigolion rhag ystyried gwarchod plant fel opsiwn gyrfa. Roedd un gwarchodwr plant a holwyd o'r farn y dylai marchnata wedi'i anelu at ddenu darpar warchodwyr plant amlygu'r proffesiynoldeb a'r cyfleoedd dilyniant gyrfa sy'n gysylltiedig â'r proffesiwn.

'Dylid hyrwyddo proffesiynoldeb a dilyniant gyrfa. Mae recriwtio gwarchodwyr plant newydd yn cael ei farchnata'n anghywir yn fy marn i h.y. fel bwlch, pan fydd gennych deulu ifanc. Felly, wnaiff gwarchodwyr ddim buddsoddi ynddyn nhw eu hunain nac yn y lleoliad gan y byddan nhw'n symud ymlaen yn gyflym at rywbeth arall.' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant

6.45 Ar nodyn cysylltiedig, teimlai rhai aelodau o awdurdodau lleol fod llawer o gyfleoedd gyrfa yn codi mewn meysydd eraill o'r diwydiant gofal plant i'r rhai sydd wedi

gweithio fel gwarchodwr plant. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio i PACEY neu o fewn amgylcheddau gofal plant eraill. Yn eu barn nhw, dylai'r cyfleoedd hyn ar gyfer dilyniant gyrfa gael eu hyrwyddo i ddarpar warchodwyr plant hefyd fel ffordd o'u hannog i ymuno â'r diwydiant.

*Gwaith gweinyddol a gwaith papur*

6.46 Fel rhan o'u rôl, mae gan warchodwyr plant nifer o gyfrifoldebau gweinyddol, gan gynnwys bod yn ymwybodol o'r datblygiadau o ran polisïau a gweithdrefnau a sicrhau bod y gwaith papur cywir yn ei le ar gyfer eu lleoliad ac ar gyfer rhieni sy'n defnyddio eu lleoliad. Rhaid bod gan warchodwyr plant ddogfennau ar waith er mwyn i'w lleoliadau gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys cofnod o ddamweiniau, salwch difrifol a digwyddiadau arwyddocaol eraill sy'n digwydd ar y safle; trefniadau ar gyfer delio â chwynion a phryderon; cofnodion presenoldeb; Datganiad o Ddiben sy'n cynnwys:

- nodau ac amcanion;
- manylion y gwasanaethau a gynigir, cyfleusterau ac arferion;
- polisi derbyn; a
- telerau ac amodau.

6.47 Dylai gwarchodwyr plant hefyd fod yn cynnal arsylwadau fel rhan o'r cwricwlwm newydd a chofnodi tystiolaeth o'r gweithgareddau y maent yn eu gwneud gyda'r plant.


6.48 Pan fydd plentyn newydd yn dechrau mynychu lleoliad gwarchod plant, rhaid i'r gwarchodwr plant hefyd ddarparu 'pecyn rhieni' i'r teulu. Gall hyn gynnwys contractau rhieni, ffioedd, polisïau, llythyrau am rannu gwybodaeth, llyfrynnau croeso, a pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelu/amddiffyn plant a chwynion. Rhoddir canllawiau i warchodwyr plant yng Nghymru ynghylch pa bolisïau a gweithdrefnau sydd eu hangen ar eu lleoliad, ac mae rhai polisïau a gweithdrefnau yn orfodol (fel rhai sy’n ymwneud â diogelu ac iechyd a diogelwch). Mae yna hefyd nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill a all amrywio yn ôl lleoliad – er enghraifft polisïau sy’n ymwneud â defnyddio trampolîn, anifeiliaid ac anifeiliaid anwes, tripiau, chwarae yn yr awyr agored. Rhaid i warchodwyr plant hefyd sicrhau


eu bod yn ymwybodol o'r polisïau a’r gweithdrefnau diweddaraf sydd eu hangen arnynt, a sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru.

6.49 Awgryma'r ymatebion i’r arolwg y gall ‘lefel y gwaith papur a'r gwaith gweinyddol’ fod yn her sylweddol i warchodwyr plant, gyda bron i hanner (48 y cant – 90 o blith 187) yn dewis sgôr her o bump allan o bump am hyn, a 22 y cant arall (40 o blith 187) yn rhoi sgôr her o bedwar allan o bump iddo. At hynny, dywedodd tri chwarter (75 y cant – 142 o blith 187) fod 'lefel y gwaith papur a'r gwaith gweinyddol' wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond un ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi dod yn haws, a dywedodd 22 y cant (41 o blith 187) na fu unrhyw newid – gweler ffigur 6.3.

6.50 Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r rhai a amlygwyd yn y llenyddiaeth a adolygwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid ehangach sy'n nodi bod gwaith papur a thasgau gweinyddol yn cael eu hystyried yn un o'r heriau mwyaf a wynebir gan warchodwyr plant. Cydnabu PACEY, AGC a chynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd, er y gall lefel y gwaith papur atal rhai unigolion rhag ymuno â’r proffesiwn ac annog eraill i adael, bod y rhan fwyaf o’r gwaith papur yn bwysig ac yn angenrheidiol. Roedd AGC yn cydnabod bod y gwaith papur ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y cwricwlwm newydd hefyd yn creu rhai pryderon ymhlith gwarchodwyr plant. Fodd bynnag, nododd hefyd y dylai'r newid i lenwi mwy o ffurflenni ar-lein helpu i leihau effaith gwaith papur, yn ogystal â helpu i broffesiynoli'r sector. Ond cydnabuwyd hefyd bod llenwi mwy o ffurflenni ar-lein yn debygol o fod yn her i’r rhai nad oes ganddynt sgiliau digidol.

**Ffigur 6.3: –Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod lefel y gwaith papur y mae angen iddynt ei gwblhau yn her ac a yw’r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=187)

6.51 Ymhelaethodd sawl ymatebydd i’r arolwg ar sut y gall gwaith papur a gwaith gweinyddol fod yn her, fel a ganlyn.

> 'Fy mhroblem fwyaf yw'r rheoleiddio cynyddol a'r newidiadau cyson i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu ddeddfwriaeth arall sydd weithiau'n cael ei chyfleu'n wael. Mae maint y gwaith gweinyddol a'r gwaith papur yn lladd unrhyw fwynhad rwy'n ei gael o'r swydd' - Ymatebydd i'r arolwg gofal plant.

> 'Mae angen diweddaru llawer o fentrau newydd neu newidiadau i ofynion/deddfwriaeth cyn gynted â phosibl ac mae hyn yn effeithio ar y mwynhad a gewch o'r swydd neu'n golygu bod angen i chi weithio am fwy o amser nag yr hoffech chi.' Ymatebydd i'r arolwg gofal plant

6.52 Roedd gan y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd farn gymysg ynghylch y gwaith gweinyddol a'r gwaith papur. Roedd y rhan fwyaf o'r gwarchodwyr plant yn cydnabod y gall gwaith papur fod yn feichus ac y gall effeithio ar eu hamser personol. Fodd bynnag, roedd llawer o warchodwyr plant hefyd yn cydnabod bod y gwaith papur yn bwysig a bod angen cael y systemau cywir yn eu lle i barhau i broffesiynoli'r rôl a chydnabod gwarchod plant fel busnes. Teimlai sawl gwarchodwr plant a gyfwelwyd eu bod yn gallu ymdopi â lefel y gwaith papur. Teimlwyd hyn yn arbennig gan y rhai a oedd yn cael diwrnod i ffwrdd, neu ychydig oriau i ffwrdd yn ystod yr wythnos i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith papur yn ystod y cyfnod hwn, felly nid oedd yn cymryd cymaint o'u hamser rhydd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

6.53 Teimlai rhai gwarchodwyr plant, er y gallent ymdopi â rhywfaint o'r gwaith papur, y gall sicrhau eu bod yn cynhyrchu'r dogfennau polisïau a gweithdrefnau

angenrheidiol a'u darparu i rieni fod yn her fawr. Dywedodd un gwarchodwr plant fod ganddo 24 o bolisïau ar hyn o bryd, a bod yn rhaid diweddaru pob un ohonynt yn rheolaidd ac ychwanegu atynt wrth i rai newydd gael eu cyflwyno. Er ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod rhai o'r rhain yn eu lle, roedd o'r farn eu bod yn ormodol ac yn anymarferol. Dywedodd rhai hefyd fod y gwaith papur yn teimlo'n ddibwrpas gan eu bod yn gwybod nad oedd rhieni'n darllen yr holl wybodaeth a roddir iddynt.

> 'Rydych chi'n gwybod bod y rheolau hyn yno oherwydd bod rhywbeth wedi digwydd yn y gorffennol, ond mae'n rheol gyffredinol ac mae angen mwy o synnwyr cyffredin yn hytrach na chadw at reolau'. - Cyfweliad â gwarchodwr plant

6.54 Er y cydnabuwyd bod PACEY Cymru yn rhoi arweiniad da ar bolisïau a gweithdrefnau – gan gynnwys gwybodaeth a gweminarau, teimlai gwarchodwyr plant y byddai’n ddefnyddiol pe gallent gael mynediad at dempledi ar gyfer polisïau penodol. Yn Lloegr, darperir templedi gan PACEY, fodd bynnag, yng Nghymru y canllawiau cyffredinol yw y dylai gwasanaethau ddatblygu polisïau yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol eu hunain. Fodd bynnag, o ystyried adroddiadau gwarchodwyr plant am y baich gweinyddol, gallai Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru adolygu'r dewis hwn, mewn cydweithrediad â PACEY Cymru.

6.55 Teimlai rhai gwarchodwyr plant hefyd y gall faint o dystiolaeth y mae angen iddynt ei chasglu ar gyfer AGC fel amod cofrestru fod yn heriol. Er enghraifft, soniodd un gwarchodwr plant am yr her o ddangos bod y plant yn cael hwyl yn eu lleoliadau, ac y gall hyn fod yn anodd gyda babanod. Yn aml disgwylir iddynt dynnu lluniau fel tystiolaeth; fodd bynnag, gall hyn eto fod yn anodd ei gofnodi wrth iddo ddigwydd pan fo gwarchodwyr plant yn brysur yn gofalu am y plant ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ac ati. Teimlai rhai hefyd y gallai’r cwricwlwm newydd fod yn her gan fod angen mwy o waith papur ac arsylwadau. Dywedodd sawl gwarchodwr plant hefyd nad oeddent eto wedi cael arweiniad clir am y cwricwlwm newydd a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud yn eu lleoliad i’w adlewyrchu.

> 'Dw i ddim yn meddwl bod hyn yn iawn. Mae rhieni eisiau rhywun i ofalu am eu plentyn tra byddan nhw yn y gwaith. Dw i ddim yn gweld pam mae'n rhaid i mi ei weithredu na bod yn lleoliad addysgol. Lleoliad yn y cartref ydw i, felly dim ond dysgu dyddiol y dylen ni fod yn ei wneud, dim ond dysgu sylfaenol, nid y cwricwlwm newydd yma i Gymru. Mae'n ormod.' Gwarchodwr plant a gyfwelwyd

6.56 Roedd nifer o'r gwarchodwyr plant yn teimlo bod llawer o’r gwaith papur yn ormodol ar gyfer gwarchodwyr plant o gymharu â meithrinfa sydd â mwy o staff i neilltuo amser i hynny yn ystod oriau gwaith. Y consensws cyffredinol ymhlith gwarchodwyr plant oedd, hyd yn oed ble roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y gwaith papur y mae’n rhaid ei roi ar waith, mai’r pryder oedd cael yr amser i wneud y gwaith papur heb dreulio llai o amser a rhoi llai o sylw i'r plant y maent yn gofalu amdanynt – sef blaenoriaeth eu rôl yn eu tyb nhw. Dywedodd rhai gwarchodwyr plant fod gofynion corfforol a meddyliol y swydd yn ystod y dydd yn golygu eu bod yn aml wedi blino gormod i wneud gwaith papur gyda'r nos. Mae hyn hefyd yn anodd i'r rhai sydd â theuluoedd sy'n pryderu bod y gwaith papur yn bwyta i mewn i amser teulu. Dywedodd un gwarchodwr plant ei bod yn gorfod cau ei lleoliad am un diwrnod yr wythnos er mwyn neilltuo amser i gwblhau'r holl waith papur.

> 'Mae'n swydd gorfforol ac felly rwy'n cael trafferth gwneud gwaith papur gyda'r nos oherwydd fy mod wedi blino cymaint ar ôl gweithio yn ystod y dydd.' Cyfweliad â gwarchodwr plant

> 'Chi yw'r cyfrifydd, y glanhawr, chi yw popeth ac mae disgwyli i chi dracio plant. Mae popeth rydych chi'n ei wneud yn naturiol, ond mae angen i chi allu profi a dogfennu mai dyma'r hyn rydych chi'n ei wneud.' Cyfweliad â gwarchodwr plant

6.57 Yn ogystal â thempledi ar gyfer polisïau a gweithdrefnau, teimlai'r rhan fwyaf o warchodwyr plant y byddai'n ddefnyddiol cael arweiniad cliriach ynghylch pa waith papur cyffredinol sydd ei angen, mwy o dempledi a gwell cyfathrebu ynghylch pan fydd pethau'n cael eu diweddaru. Galwyd hefyd am symleiddio’r gwaith papur, gan wneud dim ond y gwaith papur angenrheidiol yn ofynnol, ac yn llai goddrychol o ran yr hyn y bydd arolygwyr unigol AGC yn canolbwyntio arno yn ystod arolygiadau (trafodir hyn yn fanylach yn y bennod nesaf). Teimlwyd y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r pwysau gweinyddol ar warchodwyr plant.

> 'Byddai'n ddefnyddiol pe bai AGC yn rhoi ychydig o arweiniad ar waith papur. Os nad oes gennym ni rywbeth yn ei le nad ydyn ni wedi cael gwybod amdano maen nhw'n rhoi gradd is i ni ac yn dweud y dylen ni wybod hyn - wel, sut ydyn ni i fod i wybod os nad ydyn nhw wedi rhoi gwybod i ni am y newid?!' . - Cyfweliad â gwarchodwr plant

> 'Mae'r gwaith papur braidd yn annelwig. Does dim sy'n dweud wrthych chi yn union beth sydd angen i chi ei wneud. Mae rhai gwarchodwyr plant yn gwneud llawer mwy nag eraill. Mae fy holl waith papur ar y gliniadur ond does dim

canllawiau ynghylch a oes angen argraffu pethau neu a oes modd ei ddangos ar y gliniadur. Rwy'n ffodus oherwydd does dim plant gen i ar ddydd Llun felly rwy'n defnyddio'r diwrnod hwn i wneud gwaith papur. Fel arfer mae'n cymryd tua phedair awr. Dyw'r rhan fwyaf o warchodwyr plant ddim yn gallu gwneud hyn yn ystod yr wythnos felly maen nhw'n gwneud hynny ar y penwythnos ac yn eu hamser rhydd. Mae hyn yn golygu bod llawer o waith yn ddi-dâl.' - Cyfweliad â gwarchodwr plant

6.58 O ran y ffaith bod y tasgau gweinyddol yn teimlo fel gwaith di-dâl, cafwyd awgrym ynghylch cynyddu'r ffioedd a godir ar rieni i dalu am y gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol y byddai’n anodd trosglwyddo'r gost ychwanegol hon i rieni sy’n aml yn cael trafferthion eisoes i ymdopi'n ariannol, ac roedd y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd yn teimlo na fyddent yn gallu gwneud hyn i deuluoedd sy’n defnyddio eu lleoliad.


6.59 Ceir tystiolaeth bellach o'r broblem sy'n ymwneud â gwaith papur yn yr adroddiadau arolygu AGC a adolygwyd, lle mae mwyafrif y meysydd o ddiffyg cydymffurfio ac argymhellion ar gyfer gwella yn ymwneud â gwaith papur a gweithdrefnau yr oedd angen i warchodwyr plant eu mabwysiadu neu eu cynhyrchu. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau arolygu yn cofnodi materion megis yr angen i ddiweddaru gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhai polisïau nad oeddent ar waith (er enghraifft polisi defnyddio trampolîn, gweithdrefn sychu dwylo). Roedd llawer o adroddiadau arolygu hefyd yn cyfeirio at gofnodion fel dyddiaduron, gweithdrefnau ymarfer tân, datganiadau o ddiben ac asesiadau risg, nad oeddent yn cael eu cynhyrchu na'u diweddaru. Mae hyn yn dangos yr her y gall gwarchodwyr plant ei hwynebu wrth gadw'r holl waith papur a gweithdrefnau'n gyfredol ac yn dangos y dylid rhoi cymorth pellach i helpu gwarchodwyr plant i wneud hyn er mwyn iddynt allu cydymffurfio â'r rheoliadau.

6.60 Roedd y rhan fwyaf o warchodwyr plant a gyfwelwyd yn teimlo’n gymwys yn yr agwedd ddigidol ar gwblhau gwaith papur, ond roeddent yn cydnabod y gall fod yn anodd i lawer o warchodwyr plant nad ydynt yn gyfarwydd â TG a chwblhau pethau ar-lein. Roedd canfyddiad y gall hyn fod yn arbennig o anodd i rai gwarchodwyr plant hŷn. Teimlai un gwarchodwr plant “os nad ydych yn gymwys yn ddigidol yna allwch chi ddim bod yn warchodwr plant mwyach”. Mae adborth o gyfweliadau rhanddeiliaid hefyd yn adlewyrchu'r teimlad hwn. Er enghraifft, dywedodd AGC, er y dylai’r newid i ffurflenni ar-lein helpu i greu proses weinyddol symlach, y bydd carfan o bobl yn cael trafferth gyda llythrennedd digidol. Yng ngrwpiau trafod yr

awdurdodau lleol, darparwyd sawl enghraifft o warchodwyr plant a oedd wedi gadael y proffesiwn oherwydd na allent ymdopi â gofynion digidol y swydd.

6.61 Awgryma'r ymatebion i'r arolwg y gall 'yr angen i ddefnyddio TG/cyfrifiadur/rhyngrwyd' fod yn her i tua hanner y gwarchodwyr plant a holwyd, gyda 26 y cant (43 o blith 187) yn rhoi sgôr her o bump allan o bump i hyn, a 23 y cant arall (41 o blith 187) yn rhoi sgôr her o bedwar allan o bump. Ymhellach, dywedodd bron i ddwy ran o dair (62 y cant – 114 o blith 184) fod yr 'angen i ddefnyddio TG/cyfrifiadur/rhyngrwyd' wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond un ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi dod yn haws, a dywedodd 34 y cant (63 o blith 187) na fu unrhyw newid – gweler ffigur 6.4[16].

**Ffigur 6.4: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod yr angen i ddefnyddio TG yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=187)

6.62 Cynigiodd nifer bach o'r ymatebwyr i'r arolwg sylwadau ychwanegol hefyd ynghylch pa mor anodd y gall fod iddynt gyflawni tasgau gweinyddol ar gyfrifiaduron ac ati ac y byddent yn gwerthfawrogi mwy o gymorth gyda hyn. Soniodd rhai ymatebwyr i'r arolwg fod angen cymorth aelodau o'u teulu arnynt i gwblhau gwaith papur ar-lein, ac y byddent yn ei chael hi'n anodd ei gwblhau heb eu cefnogaeth.

> 'Byddwn i wrth fy modd yn newid popeth i fod yn ddigidol ond wn i ddim ble i ddechrau.' Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant

[16] Dylid nodi mai dim ond ar-lein yr oedd yr arolwg ar gael a allai fod wedi eithrio rhai gwarchodwyr plant sy'n gweld bod defnyddio TG neu gael mynediad i'r rhyngrwyd yn her, rhag ymateb – gweler hefyd y fethodoleg a amlinellir yn adran 2. Mae'n bosibl felly bod y canfyddiadau a gyflwynir uchod yn tanddatgan nifer y gwarchodwyr plant sy'n ystyried yr angen i ddefnyddio TG yn her.

'Dydw i ddim yn dda gydag unrhyw fath o dechnoleg; dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod sut i anfon e-bost felly mae'n rhaid i fy merch fy helpu gryn dipyn' Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwr plant

6.63 Gwnaed nifer o awgrymiadau yn ystod cyfweliadau â gwarchodwyr plant a rhanddeiliaid eraill, o ystyried yr heriau gweinyddol y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu, y dylai fod cyrsiau a chymorth ar gael i wella eu llythrennedd digidol.

6.64 Yn ogystal â heriau gyda llythrennedd cyfrifiadurol, cyfeiriodd rhai gwarchodwyr plant hefyd at heriau o ran cael mynediad i gysylltiad digonol â'r rhyngrwyd.

'Mae gennym gysylltiad gwael iawn â'r rhyngrwyd yma. Rydym wedi newid cyflenwyr yn rheolaidd ond mae'n dal yn araf iawn'. Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant

*Arolygiadau AGC a gohebiaeth gan AGC*

6.65 Mynegodd gwarchodwyr plant farn gymysg mewn perthynas ag arolygiadau. Teimlai rhai fod yr arolygiadau a gawsant yn deg ac nad oeddent mor frawychus ag yr oeddent yn ei ddisgwyl. Teimlai rhai hefyd fod y cyfnod o amser rhwng arolygiadau yn briodol, ac nad oedd yn rhy feichus. Fodd bynnag, nododd eraill eu bod yn teimlo dan fygythiad gan arolygwyr AGC, neu'n gwybod am warchodwyr plant eraill a oedd yn teimlo fel hyn. Nododd un gwarchodwr plant ei fod yn adnabod rhai gwarchodwyr plant eraill sydd wedi rhoi'r gorau i'r proffesiwn cyn eu harolygiad gan ei fod wedi codi cymaint o ofn arnynt.

6.66 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid mai un ffordd o helpu i liniaru'r teimladau brawychus a brofir gan rai gwarchodwyr plant wrth gael eu harolygu fyddai i AGC gynnal ymweliadau mwy rheolaidd rhwng arolygiadau swyddogol. Awgrymwyd y gallai hyn fod hanner ffordd rhwng cyfnodau arolygu, ac y gallai arolygydd ddod i'r cartref yn anffurfiol i roi cyngor a gwybodaeth am y broses arolygu a'r hyn a ddisgwylir. Roedd galwad hefyd am roi mwy o wybodaeth i warchodwyr plant yn gyffredinol am y broses arolygu.

6.67 Roedd teimlad hefyd ymhlith rhai gwarchodwyr plant, oherwydd natur agos-atoch gwarchod plant, y gall weithiau deimlo fel ymosodiad personol arnynt pan fydd arolygydd yn tynnu sylw at bethau yn eu tŷ sy'n is na'r safonau disgwyliedig, neu agweddau ar eu cartref y gellid eu gwella.

'Gall [arolygiad AGC] deimlo'n llawer mwy personol na phe bai mewn lleoliad allanol, ac mae angen cydnabod mai hwn yw ein cartref ni yn ogystal â bod yn lleoliad gofal plant'. - Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

6.68 Nododd un gwarchodwr plant ei fod yn gwybod am warchodwr plant arall a oedd yn teimlo bod y sylwadau a wnaed gan arolygydd yn dilyn ymweliad yn ymosodiad personol arno, i'r fath raddau fel ei fod wedi canslo ei wasanaeth dair wythnos ar ôl ei arolygiad. Nododd gwarchodwr plant arall nad oedd yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan AGC a'i fod yn gweld rôl yr arolygiaeth fel 'pigo beiau' yn hytrach na 'chanmol arfer da'.

'Mae 'na bwysau mawr. Rwy'n meddwl yn barhaus nad yw'r hyn rwy'n ei wneud yn ddigon da oherwydd nad yw'n cyrraedd y disgwyliadau anghredadwy hyn. Mae AGC yn teimlo fel endid mawr brawychus sy'n mynd i ddod i mewn a dweud wrthyf fy mod i'n dda i ddim. Mae'n beth mor bersonol pan mae'n gartref i chi ac mae pobl yn dod i mewn i ddweud nad ydych chi'n gwneud hyn a'r llall yn iawn, rydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich barnu. Rwy'n meddwl eu bod nhw [AGC] eisiau cael eu gweld fel sefydliad cefnogol, ond mewn gwirionedd mae'n teimlo'n frawychus.' - Gwarchodwr plant a gyfwelwyd.

'Dydyn nhw [AGC] ddim yn sylweddoli bod hwn yn gartref yn ogystal â lleoliad gwarchod plant. Gall fod yn eithaf digalon cael arolygydd yn cerdded o amgylch y tŷ yn pigo beiau, fel bod dim digon o bethau ar y wal yn y cyntedd ac ati.'- Gwarchodwr plant a gyfwelwyd,

6.69 Y prif fater a nodwyd mewn perthynas ag arolygiadau AGC oedd diffyg cysondeb. Gwnaed y pwynt hwn gan y gwarchodwyr plant eu hunain a rhai arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol. Dywedodd y gwarchodwyr plant eu bod yn teimlo'n ansicr ynghylch 'beth fydd yn cael ei godi' yn ystod arolygiadau. Cyfeiriodd un gwarchodwr plant at enghraifft lle y cafodd ei geryddu am beidio â hysbysu AGC yn uniongyrchol am ddigwyddiad ble y bu'n rhaid iddo fynd â phlentyn dan ei ofal i'r adran damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag, digwyddodd rhywbeth tebyg i warchodwr plant a oedd wedi ymdrin â'r mater yn yr un modd, ond ni chodwyd hyn o gwbl yn ystod ei arolygiad. Teimlai'r gwarchodwyr plant felly fod lefel uchel o oddrychedd yn gysylltiedig â'r broses arolygu.

6.70 Gwelwyd hefyd ddiffyg cysondeb o ran y materion a adroddwyd yn adroddiadau arolygu AGC a adolygwyd fel rhan o'r ymchwil hwn. Er bod cysondeb cyffredinol o ran sylwadau'n ymwneud â'r gwaith papur sydd angen i warchodwyr plant ei

gwblhau, cododd rhai arolygwyr faterion na chawsant eu codi gan arolygwyr eraill. Er enghraifft, codwyd materion megis a oedd pegiau ar yr uchder cywir i’r plant roi eu cotiau arnynt eu hunain, a oedd allweddi’n cael eu cadw ar y wal ai peidio, yr angen i ddatblygu cysylltiadau â lleoliadau eraill, mewn rhai adroddiadau ond nid eraill. Mae'n ymddangos bod nifer o'r argymhellion neu'r arsylwadau hyn yn rhai goddrychol gan arolygwyr unigol a gallant gyfrannu at y teimladau a fynegir ymhlith gwarchodwyr plant o ddull anghyson a theimlad o 'mae'n dibynnu pwy gewch chi' ar gyfer eu harolygiadau.

6.71 Roedd galwad ymhlith gwarchodwyr plant i gael mwy o gysondeb o ran arolygiadau, roedd hyn hefyd yn berthnasol i'r polisïau a’r gwaith papur sydd eu hangen arnynt (gweler y bennod flaenorol). Teimlai rhai pe bai modd rhannu mwy o wybodaeth am sut mae arolygwyr yn asesu lleoliadau gwarchodwyr plant cyn arolygiad y byddai hyn yn helpu gyda'r pwysau y mae gwarchodwyr plant yn ei deimlo ynghylch arolygiadau ac yn sicrhau mwy o gysondeb. Roedd un awgrym hefyd y dylai gwarchodwr plant gael yr un arolygydd bob tro (lle bo modd). Byddai'r cysondeb hwn yn helpu gwarchodwyr plant i feithrin perthynas â'u harolygydd a'u galluogi i gael person penodol i gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw gwestiynau (cyn neu ar ôl yr arolygiad).

6.72 Sylw a wnaed yn ystod trafodaethau gydag awdurdodau lleol oedd y dylai gwarchodwyr plant gael mwy o gymorth dilynol ar ôl pob arolygiad. Er enghraifft, pan oedd arolygwyr yn nodi meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth neu sgôr wael, awgrymwyd y dylai'r gwarchodwyr plant hyn gael cymorth ac arweiniad ar sut i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

6.73 Teimlai rhai gwarchodwyr plant nad oeddent wedi cael llawer o gymorth gan AGC, neu nad oedd AGC yn gweithio er budd gwarchodwyr plant. Fodd bynnag, nododd eraill fod ganddynt berthynas dda ag AGC neu bod y cyfathrebu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf.

> 'Mae AGC wedi bod yn barod ei chymorth bob tro, dim ond codi'r ffôn sydd raid'.
> Cyfweliad â gwarchodwr plant

*Ymwybyddiaeth o Warchod Plant*

6.74 Roedd teimlad cryf ymhlith rhanddeiliaid a gwarchodwyr plant nad yw’r rôl gwarchod plant yn cael ei gwerthfawrogi’n ddigonol, ei bod yn cael ei thanbrisio, ac nad yw’n

cael ei chydnabod fel rôl broffesiynol. Roedd pryder bod diffyg ymwybyddiaeth o broffesiynoldeb y rôl, gyda llawer yn dweud eu bod yn dal i deimlo bod canfyddiad bod gwarchodwyr plant yn ddim mwy na 'glorified babysitters'. Teimlai rhanddeiliaid a gwarchodwyr plant nad oes gan hyd yn oed rieni sy'n defnyddio gwarchodwyr plant ddealltwriaeth lawn bob amser o'r cymwysterau, yr hyfforddiant a'r dyletswyddau gweinyddol y mae'n ofynnol i warchodwyr plant eu cyflawni er mwyn darparu gofal i'w plant. Roedd llawer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd hefyd o'r farn nad yw gwarchodwyr plant bob amser yn cael eu cydnabod gan eraill fel busnes ac nad yw rhai gwarchodwyr plant yn cydnabod eu hunain fel busnes. Nododd y rhanddeiliaid hyn fod hyn yn cyfrannu at rai rhieni a rhanddeiliaid ehangach yn eu tanbrisio.

6.75 Rhoddodd gwarchodwyr plant sawl enghraifft o deimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi. Nododd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd eu bod yn teimlo fel 'cyfnither dlawd yn y maes gofal plant'. Nodwyd bod camsyniad cyffredin mai dim ond gofalu am blant y mae gwarchodwyr plant yn ei wneud - 'eu rhoi o flaen y teledu o bosibl' - tra yr ystyrir bod lleoliadau gofal plant eraill yn canolbwyntio mwy ar ddatblygiad plant a gweithgareddau addysgol. Teimlai rhai gwarchodwyr plant nad oedd awdurdodau lleol ac ymwelwyr iechyd yn hyrwyddo gwarchodwyr plant i rieni i'r un graddau ag yr oeddent yn hyrwyddo lleoliadau gofal plant eraill yn eu hardal. Cyfeiriodd un gwarchodwr plant at enghraifft o ymwelydd iechyd lleol a oedd yn annog rhieni i anfon eu plant i feithrinfa Cylch yn hytrach nag at warchodwr plant, gan ddweud wrth rieni bod plant yn cael gwell datblygiad addysgol mewn lleoliad Cylch nag yr oeddent mewn lleoliad gwarchod plant.

> 'Rwy'n teimlo nad ydym yn cael ein hyrwyddo rhyw lawer fel gwasanaeth arbenigol. Weithiau rydym yn cael ein gweld fel 'glorified babysitter', nid yw rhai pobl yn deall beth rydyn ni'n ei wneud a'r manteision i'w plant yn sgil amgylchedd gofal plant â mwy o ffocws, lle rydym yn dod i adnabod y plant a'u hanghenion. Mae hyn yn rhwystredig – nid yw'r gair yn cael ei ledaenu ddigon am warchodwyr plant a'n rôl.' Cyfweliad â gwarchodwr plant.

> 'Rydym [gwarchodwyr plant] yn dechrau cael mwy o gydnabyddiaeth fel gweithwyr proffesiynol, er enghraifft, gan feddygon teulu a bydwragedd. Fodd bynnag, rwy'n dal i deimlo nad yw gwarchodwyr plant yn cael eu cydnabod ddigon, ac mae'n gwneud i mi deimlo nad wyf yn gwneud swydd go iawn.' - Cyfweliad â gwarchodwr plant

6.76 Roedd awdurdodau lleol a gwarchodwyr plant yn cydnabod bod gwarchodwyr plant yn teimlo eu bod yn cael eu tanwerthfawrogi, yn arbennig felly yn ystod y pandemig. Arhosodd llawer o warchodwyr plant ar agor yn ystod y pandemig i ofalu am blant gweithwyr allweddol, ond nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod fel gweithwyr allweddol eu hunain. Nododd rhanddeiliaid nad oedd gwarchodwyr plant yn cael yr un gydnabyddiaeth â gweithwyr meithrin ac athrawon - er eu bod yn derbyn plant i mewn i'w cartrefi ac wrth wneud hynny, yn peryglu eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd. Rhoddodd un gwarchodwr plant enghraifft o'i phlant ei hun ddim yn cael mynd i hyb yr ysgol leol a oedd ar agor i blant gweithwyr allweddol, oherwydd nad oedd ei rôl fel gwarchodwr plant yn cael ei chydnabod fel rôl gweithiwr allweddol. Roedd hyn yn golygu na allai ofalu am gymaint o blant â'r arfer yn ystod y cyfnod hwn, gan fod ei phlant ei hun gartref a bu'n rhaid eu cynnwys yn nifer y plant y caniatawyd iddi ofalu amdanynt.

6.77 Nododd rhanddeiliaid y gall fod diffyg ymwybyddiaeth hefyd o rôl gwarchod plant ymhlith y rhai sy'n ystyried dod yn warchodwr plant. Yn ystod trafodaethau ag awdurdodau lleol roedd consensws, er mwyn denu mwy o bobl i'r diwydiant, y dylid hyrwyddo gwarchod plant fel proffesiwn a llwybr gyrfa a bod angen mynd i'r afael â chamsyniadau negyddol yn ymwneud â'r rôl. Dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o warchod plant fel busnes a dylid hyrwyddo hyn fel dewis gyrfa gwerthfawr.

> 'Hoffwn i bobl allu deall beth yw gwarchod plant mewn gwirionedd a pha mor wych ydyw. Mae cystal ag unrhyw ofal plant arall ond mae hefyd yn wahanol. Nid yw'r manteision enfawr o ddefnyddio gwarchodwr plant bob amser yn cael eu cydnabod ac mae angen i ni fynd ati i hyrwyddo hyn. Pe bai rhieni wir yn deall yr hyn y mae gwarchodwyr plant yn ei wneud, bydden nhw'n curo ar eu drysau. Mae gwir angen eu trin yn gyfartal yn y sector, ond dw i ddim yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg'. Arweinydd gofal plant mewn awdurdod lleol

> 'Efallai y dylid hybu potensial gwarchod plant o ran ennill arian - gallai roi syniad gwell, mwy cymesur i warchodwyr plant o lefel yr ansawdd/hyfforddiant/DPP y mae'n debygol y bydd angen iddynt ei wneud. Hefyd, gallai pwysleisio mai busnes yw gwarchod plant yn bennaf oll - gan amlinellu eu bod yn entrepreneuriaid sy'n unig fasnachwr - annog mwy o unigolion i sefydlu eu hunain fel gwarchodwr plant.' Arweinydd gofal plant mewn awdurdod lleol


6.78 Nododd ambell gynrychiolydd awdurdodau lleol eu bod yn hyrwyddo gwarchod plant i rieni a theuluoedd drwy weminarau a sesiynau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Maent hefyd yn defnyddio'r platfformau hyn i hyrwyddo gwarchod plant i geisio annog mwy o unigolion i ymuno â'r diwydiant. Mae PACEY hefyd wedi gwneud llawer o waith i hyrwyddo gwarchod plant ac yn gweithredu er mwyn codi ymwybyddiaeth o warchod plant a’i bwysigrwydd yn y sector chwarae a gofal plant. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gwarchod plant, o bosibl drwy ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo gwarchod plant fel math gwerthfawr o ofal plant yn ogystal â llwybr gyrfa gwerth chweil.

*Materion ariannol a chynaliadwyedd busnes*

6.79 Awgryma'r ymatebion i'r arolwg gwarchodwyr plant fod costau a threuliau rhedeg eu busnes yn her i'r mwyafrif o warchodwyr plant. Rhoddodd dros chwarter (26 y cant - 48 o blith 188) sgôr her o bump allan o bump ar gyfer costau a threuliau rhedeg eu busnes, a rhoddodd 32 y cant arall (60 allan o 188) sgôr her o bedwar allan o bump iddo – gweler Ffigur 6.5. At hynny, dywedodd 86 y cant (160 o blith 187) fod cost a threuliau rhedeg eu busnes gwarchod plant wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond un ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi dod yn haws, a dywedodd 12 y cant (22 o blith 187) na fu unrhyw newid.

**Ffigur 6.5: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod costau a threuliau rhedeg eu busnes yn her ac a yw’r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=188)

6.80 Priodolodd y gwarchodwyr plant a holwyd ac a gyfwelwyd yr argyfwng costau byw presennol i'r heriau cynyddol hyn yn ymwneud â chostau; roedd y mwyafrif hefyd yn ofni y bydd y costau hyn yn dod yn fwy heriol yn y dyfodol agos.

'Rwy'n teimlo bod costau rhedeg yn mynd i fod yn bryder mawr i'r sector gwarchod plant yn y dyfodol. Mae'r cynnydd yng nghost popeth – bwyd, nwy/trydan, costau aelodaeth, costau deunyddiau celf a chrefft, adnoddau ac ati – yn mynd i gael effaith sylweddol ar a yw [rhedeg busnes gwarchod plant] yn parhau i fod yn ariannol hyfyw' – Ymateb i'r arolwg gofal plant.

6.81 Mae'r dyfyniad uchod yn dangos nad yw'r heriau ariannol a wynebir gan warchodwyr plant wedi'u cyfyngu i gynnydd mewn gorbenion busnes, ond maent hefyd yn cynnwys y cynnydd sydyn mewn costau sy'n gysylltiedig ag eitemau eraill sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys adnoddau crefft a chwarae i'r plant.

6.82 Mae adolygiad o adroddiadau arolygu AGC yn ategu hyn gan fod cyfran sylweddol (tua thraean) o'r adroddiadau arolygu a adolygwyd yn cyfeirio at broblemau'n ymwneud ag adnoddau annigonol. Amlinellodd yr adroddiadau hyn yr angen am fwy o adnoddau chwarae, diffyg ardal yn yr awyr agored neu ddefnydd annigonol o ardal yn yr awyr agored, diffyg lle i storio adnoddau, yr angen am fwy o deganau i hyrwyddo amrywiaeth, yr angen i labelu teganau, yr angen am fwy o ddodrefn meddal, a mwy o adnoddau naturiol a synhwyraidd. Awgryma hyn y gall rhai gwarchodwyr plant ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw i ddarparu ystod o adnoddau yn eu lleoliad ac efallai y bydd angen mwy o help i gefnogi gwarchodwyr plant i wella eu lleoliad, er enghraifft cyllid i wella mannau yn yr awyr agored.


6.83 I rai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd, roedd heriau cynyddol yn sgil y cynnydd mewn costau byw yn ei gwneud yn fwyfwy anodd talu costau rhedeg eu busnes ac ennill incwm. Mae hyn wedi peri i rai gwarchodwyr plant ystyried cau eu busnes gan eu bod yn teimlo ei bod wedi dod yn llai ariannol hyfyw i barhau ag ef. Caiff hyn ei adleisio gan ganfyddiadau adroddiad PACEY Cymru a nododd ddiffyg sicrwydd ariannol fel un o'r prif resymau dros ganslo cofrestriadau gwarchodwyr plant yng Nghymru (PACEY Cymru).[17].

6.84 Er bod gwarchodwyr plant yn wynebu costau a threuliau cynyddol yn gysylltiedig â rhedeg eu busnes, teimlai llawer o'r rhai a holwyd ac a gyfwelwyd fel rhan o'n hadolygiad na allant gynyddu'r gyfradd gofal plant y maent yn ei chodi ar rieni oherwydd, fel y dywedodd un ymatebydd i'r arolwg, 'ni all rhieni ei fforddio'. Awgryma canfyddiadau'r arolwg gwarchodwyr plant fod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn ystyried lefel yr incwm a enillir yn her – gweler Ffigur 6.6. Rhoddodd mwy nag un o bob 10 (11 y cant - 20 o blith 187) sgôr o bump allan o bump ar gyfer yr

[17] PACEYCymru [Awst 2021] Adroddiad dadgofrestru gwarchodwyr plant yng Nghymru. Heb ei gyhoeddi.

her o ennill incwm, a rhoddodd 21 y cant arall (40 o blith 187) sgôr o bedwar allan o bump ar gyfer yr her hon. At hynny, dywedodd 65 y cant (121 o blith 187) fod lefel yr incwm a enillir drwy eu busnes gwarchod plant wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond pedwar y cant (wyth o blith 197) a ddywedodd ei fod wedi dod yn haws, a dywedodd 29 y cant (54 o blith 187) na fu unrhyw newid.

**Ffigur 6.6: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod lefel yr incwm a enillir yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: Arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n=187)

6.85 Eglurodd un gwarchodwr plant a gyfwelwyd hefyd sut y gall cael perthynas mor agos a phersonol gyda theuluoedd fod ar draul cyllid y busnes weithiau. Er enghraifft, yn ystod gwyliau'r ysgol mae'n gofalu am dri brawd a chwaer ac yn teimlo mor euog am godi'r ffi lawn ar gyfer y tri phlentyn nes ei fod yn cynnig gostyngiad i'r teulu.

6.86 Yn ogystal â bod yn amharod i godi'r swm llawn ar rai rhieni am eu gwasanaeth, nododd nifer o warchodwyr plant a gyfwelwyd eu bod wedi cael problemau'n derbyn taliadau gan rieni. Roedd un gwarchodwr plant wedi canslo ei wasanaeth oherwydd hyn. Cafodd broblemau gydag un teulu a ddefnyddiodd ei wasanaeth ond na thalodd amdano. Cymerodd fisoedd i'r gwarchodwr hwn gael unrhyw arian yn ôl drwy ei yswiriwr ac ni chafodd y swm llawn a oedd yn ddyledus iddo. Teimlai'r gwarchodwyr plant hyn y dylai mecanweithiau cymorth ariannol fod ar waith i'w hamddiffyn pan fydd hyn yn digwydd. Teimlai gwarchodwr plant arall fod gan rai rhieni ddiffyg parch tuag ato fel busnes sy'n dibynnu ar eu taliad i gael incwm, ac yn hytrach eu trin fel pe na bai angen yr arian arno.

*Effaith y pandemig COVID*

6.87 Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at oblygiadau i sefydlogrwydd ariannol llawer o fusnesau gwarchod plant. Canfu adroddiad gan PACEY (Mawrth 2021) a archwiliodd yr heriau yr oedd gwarchodwyr plant yn eu hwynebu mewn perthynas â COVID-19, fod 38 y cant o blith 746 o aelodau PACEY a ymatebodd i'r ymchwil, yn ansicr neu ddim yn hyderus ynghylch hyfywedd ariannol eu busnes dros y 12 mis

nesaf.[18] O ganlyniad, roedd rhai gwarchodwyr plant yn ystyried ymddeol yn gynnar neu symud i swydd arall. Canfu hefyd fod dibynnu ar incwm arall y cartref, megis incwm eu partner, yn ffactor wrth alluogi gwarchodwyr plant i barhau i warchod plant.

6.88 Roedd rhai gwarchodwyr plant a holwyd ac a gyfwelwyd fel rhan o’r adolygiad hwn yn cydnabod y cymorth ariannol a gawsant yn ystod y pandemig COVID-19. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd i’r arolwg: 'Rwyf wedi cael cymorth ariannol - roedd fy Ngwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol yn wych o ran fy nghefnogi gyda chostau cau yn sgil COVID.' Esboniodd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd sut yr oeddent yn gallu cynnig lleoedd wedi’u hariannu gan y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) i blant yr oedd eu rhieni’n weithwyr allweddol, a oedd yn eu galluogi i aros ar agor ac ennill incwm yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, bu’n rhaid i warchodwyr plant eraill a gyfwelwyd gau am ran o'r pandemig, os nad y cyfnod cyfan, oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw rieni sy’n weithwyr allweddol i gynnig C-CAS iddynt, neu eu bod wedi gorfod cau dros dro pan oedd achos o COVID- 19 yn eu lleoliad. Teimlai rhai o'r gwarchodwyr plant hyn fod diffyg cymorth ariannol yn ystod y cyfnod hwn.

6.89 Myfyriodd rhai gwarchodwyr plant a gyfwelwyd ar effeithiau negyddol parhaol COVID-19 ar hyfywedd ariannol eu busnes. Soniodd rhai gwarchodwyr plant am y gostyngiad yn y galw am ofal plant o ganlyniad i gyflwyno trefniadau gweithio mwy hyblyg yn dilyn COVID-19, gan alluogi mwy o rieni i weithio gartref. Mewn rhai achosion, mae’r trefniadau gweithio hyblyg hyn yn galluogi rhieni i ofalu am eu plant tra byddant yn gweithio, ac felly nid oes angen gofal plant arnynt. Mae hyn wedi cael effaith ar y galw am ofal plant cofleidiol yn arbennig oherwydd, fel yr eglurodd un gwarchodwr plant, 'mae rhieni sy'n gweithio o gartref yn gallu picio allan a mynd â'r plant i'r ysgol' ac felly nid oes angen gofal plant cofleidiol arnynt.

> 'Roeddwn i wastad yn brysur iawn ac roedd gen i restr aros cyn y pandemig, ond mae'r galw am leoedd gofal plant wedi lleihau ers y pandemig.' Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant

6.90 Ar nodyn cysylltiedig ynghylch anawsterau ers y pandemig, cafwyd adroddiadau bod y pandemig wedi effeithio ar ymddygiad rhai plant. Er enghraifft, nododd rhai gwarchodwyr plant fod rhai plant wedi cael trafferthion gyda’u sgiliau cymdeithasol neu wedi cael problemau ymlyniad gyda’u teuluoedd ers y pandemig. Mae hyn wedi

[18] PACEY Cymru [Mawrth 2021] [Canfyddiadau galwadau adfer yng Nghymru | PACEY]

bod yn her i rai gwarchodwyr plant gan fod plant yn eu lleoliad wedi bod yn fwy anodd eu setlo.

*Oriau a weithir.*


6.91 Nododd rhai ymatebwyr i’r arolwg gwarchod plant eu bod yn gweithio oriau hirach bob dydd, er mwyn ennill digon o incwm heb orfod cynyddu’r cyfraddau y maent yn eu codi ar rieni.

> 'Er mwyn gallu cael cyflog rhesymol rwy'n gweithio 50 awr yr wythnos, nid yw hynny'n cynnwys gwaith papur na glanhau ac ati.' Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

> 'Dim ond mewn perthynas â'r oriau sy'n cael eu gweithio y gellir ennill incwm teilwng, a gall hynny fod yn 80+ awr yr wythnos. Dim ond pan fydd adnoddau a gorbenion yn cael eu hystyried y mae ffioedd rhieni a chyllid arall yn cyfateb i'r isafswm cyflog.  Weithiau dyw e ddim hyd yn oed yn isafswm cyflog - er enghraifft pan fydd rhywun yn gweithio ar benwythnosau neu y tu allan i oriau' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

6.92 Awgryma canfyddiadau’r arolwg fod yr oriau a weithir bob dydd/wythnos yn her i’r rhan fwyaf gydag 20 y cant (37 o blith 186) o’r ymatebwyr yn dewis rhoi sgôr o bump allan o bump i hyn a 26 y cant arall (49 o blith 186) yn rhoi sgôr her o bedwar allan o bump i hyn. Ymhellach, nododd 49 y cant (92 o blith 186) eu bod yn teimlo bod oriau gwaith wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf – gweler ffigur 6.7.

**Ffigur 6.7: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod yr oriau a weithir bob dydd yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**





Ffynhonnell: arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n= 186)

*Diwallu'r galw am ofal plant*

6.93 Gofynnwyd i'r gwarchodwyr plant y gymerodd ran yn yr arolwg a oedd galw isel am leoedd gofal plant yn eu lleoliad yn her a/neu a oedd eu gallu i ddiwallu'r galw mawr am leoedd gofal plant yn her iddynt. Awgryma'r ymatebion a gasglwyd fod methu â diwallu'r galw mawr am leoedd gofal plant yn fwy o her i warchodwyr plant nag ymdrin â galw isel. Rhoddodd bron i draean (32 y cant neu 60 o blith 188) o'r ymatebwyr sgôr her o bump allan bump ar gyfer methu â diwallu'r galw mawr, a rhoddodd 14 y cant arall (26 o blith 188) sgôr her o bedwar allan o bump. At hynny, dywedodd 49 y cant (92 o blith 186) fod cael caniatâd cynllunio wedi dod yn fwy heriol dros y tair blynedd diwethaf. Ar y llaw arall, dim ond pump y cant (10 o blith 188) a roddodd sgôr her o bump allan o bump ar gyfer galw isel, gyda'r rhan fwyaf (63 y cant - 118 o blith 188) yn nodi nad oedd hyn yn her o gwbl.

6.94 Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd dangos amrywiadau daearyddol yn y canlyniadau hyn. Er enghraifft, rhoddodd 40 y cant (21 o blith 53) o ymatebwyr o ogledd Cymru sgôr her o bump allan o bump ar gyfer y galw mawr am leoedd o gymharu ag 17 y cant (wyth o blith 48) o ymatebwyr o dde-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau cyffredinol yn y galw am ofal plant a'r cyflenwad ar draws yr holl leoliadau yn yr ardaloedd hyn – h.y. bod argaeledd gofal plant mewn perthynas â diwallu'r galw yn debygol o fod yn uwch yn ne-ddwyrain Cymru ar draws pob lleoliad o gymharu ag ardaloedd yng ngogledd Cymru.

**Ffigur 6.8: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod eu gallu i diwallu'r galw am leoedd gofal plant yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n= 188)

.

6.95 Awgryma'r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolwg brofiadau amrywiol o alw a chapasiti, gyda rhai yn nodi na allant lenwi eu lleoedd, ac eraill yn brysur ac yn methu â diwallu'r galw. Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn gweld mwy o alw na nifer y lleoedd a oedd ar gael ganddynt yn ystod amseroedd ar ôl ysgol er eu bod yn gymharol dawel yn ystod y dydd. Dywedodd eraill fod diwallu anghenion gofal plant rhieni nad oeddent yn chwilio am leoedd amser llawn yn her benodol iddynt. Mae hyn yn awgrymu bod yr heriau a wynebir gan rai gwarchodwyr plant nid yn unig yn seiliedig ar ymateb i faint y galw ond hefyd natur y galw – h.y. diwallu'r galw am oriau gofal plant hyblyg gan gynnwys darparu gofal plant y tu allan i'w horiau gwaith arferol.

6.96 Pwynt arall yn ymwneud â'r galw am ofal plant a nodwyd gan warchodwyr plant a gyfwelwyd oedd eu bod yn aml wedi'u cyfyngu rhag cynnig darpariaeth a ariennir drwy raglenni eraill, megis Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar. Mae'r cyfyngiad hwn yn gwthio llawer o warchodwyr plant allan o rai meysydd o'r farchnad gofal plant ac addysg gynnar. Mae hefyd yn creu mwy o alw am leoedd gofal plant hanner diwrnod yn unig (h.y. gofal plant yn ystod rhannau o'r dydd pan nad yw'r plant yn y lleoliad addysg gynnar). Mae cael mynediad i addysg gynnar mewn un lleoliad a gofal plant mewn lleoliad gwarchod plant hefyd yn cynyddu'r galw am ofal cofleidiol, gan gynnwys cludiant i leoliadau ac oddi yno. Mae'r rhain yn aml yn ofynion y mae

gwarchodwyr plant yn ei chael hi'n anodd eu diwallu. Trafodir hyn ymhellach yn adrannau 6.103 i 6.110.

*Y nifer sy'n manteisio ar Gymorth Busnes ac anghenion cymorth busnes*

6.97 Mae penodau blaenorol wedi amlinellu bod costau cynyddol gorbenion ac analluu, neu amharodrwydd llawer o warchodwyr plant i gynyddu eu ffioedd yn unol â’r costau hyn yn bygwth hyfywedd ariannol llawer o fusnesau gwarchod plant. Dengys y canfyddiadau hefyd fod llawer o warchodwyr plant yn gweld lefel y gwaith papur a/neu’r angen i feddu ar sgiliau digidol a TG er mwyn gweithredu fel busnes yn her gynyddol. Fodd bynnag, nododd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod cyfradd y gwarchodwyr plant sy'n chwilio am unrhyw gymorth busnes sydd â’r nod o’u helpu i ymdrin â rhai o’r heriau hyn neu sy'n manteisio ar gymorth o'r fath, hefyd yn isel.

6.98 Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn mai’r rheswm am y niferoedd bach sy'n manteisio ar gymorth busnes oedd y ffaith nad yw nifer o warchodwyr plant yn ystyried eu hunain yn fusnes. Ategir hyn gan ganfyddiadau a gyflwynir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sy'n nodi bod nifer o unigolion yn manteisio ar warchod plant fel cyfle i ddarparu ar gyfer dewisiadau ffordd o fyw yn hytrach na chyfle i ddechrau busnes newydd (gweler hefyd adrannau 3.6, 4.5 a 6.2). Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn dangos nad oedd 10 y cant o'r ymatebwyr (19 o blith 188) yn ystyried bod cael mynediad at gymorth busnes yn rhywbeth a oedd yn berthnasol iddynt hwy.

6.99 Ar y llaw arall, fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg a'r rhai a gyfwelwyd yn ystyried eu hunain yn fusnes ac wedi ceisio rhywfaint o gymorth busnes yn y gorffennol.

> 'Mae'r grant cyfleustodau wedi bod yn gymorth ardderchog. Mae hyfforddiant a chymorth busnes hefyd wedi bod ar gael yn gyfleus'- Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.


6.100 Nododd eraill eu bod yn awyddus i gael gafael ar gymorth busnes ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny.

> 'Hoffwn gael gafael ar gymorth busnes gan nad yw'n ymddangos bod dim ar gael ar hyn o bryd' - Ymatebydd i'r arolwg gwarchodwyr plant.

6.101 Gofynnwyd i warchodwyr plant a gymerodd ran yn yr arolwg roi sgôr allan o bump i'r graddau yr oeddent yn ystyried bod cael gafael ar gymorth busnes yn her i’w gallu i reoli eu busnes neu leoliad (gweler ffigur 6.9). Roedd y rhan fwyaf, 66 y cant (124 o

blith 188) yn ystyried bod hon yn her gymharol fach – gan roi sgôr o dri neu lai allan o bump iddo. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r canfyddiadau hyn a oedd modd i'r rhan fwyaf o ymatebwyr gael gafael ar y cymorth busnes yr oedd ei angen arnynt ynteu a oeddent yn meddwl nad oedd angen iddynt wneud hynny. Mae barn rhanddeiliaid a nodir uchod sy'n cyfeirio at y niferoedd cymharol fach sy'n manteisio ar gymorth busnes yn awgrymu'r olaf. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn rhai o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda gwarchodwyr plant, yn enwedig y rhai a oedd wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn, a nododd nad oeddent yn teimlo bod angen unrhyw gymorth busnes arnynt – er iddynt gyfeirio hefyd at nifer o heriau rheoli busnes y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

**Ffigur 6.9: – Y graddau y mae gwarchodwyr plant yn ystyried bod cael gafael ar gymorth busnes yn her ac a yw'r her hon wedi cynyddu neu leihau dros y tair blynedd diwethaf.**




Ffynhonnell: arolwg gwarchodwyr plant 2022 (n= 188)

6.102 Mae ystod o wasanaethau cymorth busnes sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer anghenion gwarchodwyr plant eisoes ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau cymorth Business Smart sydd ar gael drwy PACEY sy'n cynnig cyngor, blogiau ac adnoddau i helpu gwarchodwyr plant i ddatblygu a thyfu eu busnes. Mae Busnes Cymru hefyd yn cynnig grantiau dechrau busnes gofal plant yn ogystal â phecynnau cymorth wedi'u teilwra, mynediad at gynghorwyr arbenigol, mentoriaid, a hyfforddiant yn ogystal â phecyn cymorth ariannol sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y sector gofal plant.

6.103 Ceisiodd Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth drwy'r Grant Cymorth i Fusnesau Gofal Plant a oedd yn cynnwys Grant Cychwyn Busnes i warchodwyr plant o hyd at £500 i unigolion a oedd yn dymuno dechrau busnes gwarchod plant newydd. Canfu

gwerthusiad o’r grant hwn fod y cymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar y rhai a’i derbyniodd, ond bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau ei fod yn hygyrch i’r rhai a oedd yn ystyried ymuno â'r maes gwarchod plant.[19].

6.104 Mae awdurdodau lleol unigol hefyd yn darparu cymorth wedi’i deilwra, yn enwedig i unigolion sy’n dymuno dechrau gwasanaeth gwarchod plant ac i warchodwyr plant sy’n dymuno hysbysebu eu gwasanaeth yn ehangach.

6.105 Mae'n ymddangos felly mai diffyg galw yn hytrach na diffyg argaeledd sy'n cyfrannu at y defnydd cymharol isel o gymorth busnes ymhlith gwarchodwyr plant. Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn efallai nad yw gwarchodwyr plant yn ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael iddynt neu nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn fusnes sy’n gymwys i gael y cymorth. Roedd yr un rhanddeiliaid o’r farn bod angen mwy o negeseuon wedi’u targedu i amlinellu’r gwasanaethau sydd ar gael i warchodwyr plant, gan ddefnyddio astudiaethau achos o bosibl i ddangos sut y mae’r cymorth sydd ar gael yn berthnasol iddynt hwy.

6.106 Nododd llawer o’r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd eu bod yn aml yn troi at warchodwyr plant eraill i gael cymorth ac arweiniad ynghylch eu busnes. Nododd gwarchodwyr plant eu bod nid yn unig yn gwerthfawrogi’r wybodaeth a’r cyngor a gânt oddi wrth ei gilydd, maent hefyd yn croesawu’r cyfle i rannu profiadau ac i gymdeithasu â gwarchodwyr plant eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig i warchodwyr plant sy'n teimlo bod y proffesiwn yn eu hynysu oddi wrth y byd ehangach – gweler hefyd adran 4.7. Nododd un gwarchodwr plant nad oedd yn meddwl y byddai wedi dal ati pe na bai wedi dod o hyd i gefnogaeth gan gyd-warchodwyr.

6.107 I gydnabod y pwys a roddir gan warchodwyr plant ar gymorth gan gymheiriaid, mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu digwyddiadau rhwydweithio a gweithdai sydd wedi’u hanelu’n benodol at warchodwyr plant lleol. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau COVID yn cyfyngu ar y gweithgareddau hyn yn ogystal â chyfleoedd eraill i warchodwyr plant rwydweithio â’i gilydd. Mae cyfleoedd i rwydweithio hefyd wedi'u cyfyngu gan nifer y gwarchodwyr plant sy'n dal i weithredu mewn rhai ardaloedd. Mae nifer y gwarchodwyr plant wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf ac mae’r pandemig wedi ysgogi llawer mwy o warchodwyr plant, yn enwedig gwarchodwyr

---

[19] Gwerthusiad o grantiau cymorth i fusnesau gofal plant | LLYW.CYMRU

plant hŷn mwy profiadol a allai fod wedi cynnig yr arweiniad mwyaf i warchodwyr plant newydd, i adael y proffesiwn yn gynt na'r disgwyl. Yn ogystal â hynny, ni wnaeth rhai o'r cylchoedd chwarae lleol a fynychwyd gan warchodwyr plant ailagor ar ôl COVID - neu fe wnaethant ailagor ond gan gyfyngu mynediad i rieni a'u plant yn unig, nid gwarchodwyr plant.  O ganlyniad, roedd rhai o'r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd yn teimlo bod eu grwpiau cymheiriaid a'u cyfleoedd i gyfarfod a rhannu profiadau gyda gwarchodwyr plant eraill wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan wneud iddynt deimlo eu bod yn cael llai o gefnogaeth ac yn fwy ynysig.

Dengys y canfyddiadau hyn fod angen cymorth ar warchodwyr plant ond bod llawer ohonynt yn amharod i fanteisio ar hynny gan wasanaethau cymorth busnes traddodiadol. Felly, efallai y bydd angen i wasanaethau cymorth busnes ystyried ffyrdd amgen o ddarparu cymorth i warchodwyr plant - o bosibl drwy gyfuno cymorth wedi'i deilwra â gweithgareddau grŵp neu rwydwaith.

*Rhwystrau i gyfleoedd i ddararpu rhaglenni eraill a ariennir (Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar)*

6.108 Amlinellodd cyfweliadau gyda gwarchodwyr plant, cynrychiolwyr PACEY Cymru a thrafodaethau grŵp gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol sawl her sy'n rhwystro gwarchodwyr plant rhag gallu cymryd rhan lawn mewn rhaglenni gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, gan gynnwys Dechrau'n Deg ac addysg gynnar. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu rhai o'r rhwystrau hyn i gyfranogiad yn ogystal â heriau anuniongyrchol eraill y mae'r rhaglenni hyn yn eu creu i warchodwyr plant mewn rhai ardaloedd.

6.109 Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi teuluoedd â phlant o dan bedair oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Ymhlith gwasanaethau eraill, mae'r rhaglen yn darparu gofal plant rhan-amser wedi'i ariannu ar gyfer plant dwy oed. Yn ddiweddar, ehangwyd Dechrau'n Deg i tua 2,500 o blant a theuluoedd ychwanegol ledled Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae darparwyr gofal plant presennol Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i ehangu cyrhaeddiad eu darpariaeth. Mae cymorth parhaus ar gael hefyd i annog darparwyr newydd, gan gynnwys gwarchodwyr plant a darparwyr gofal plant sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.

6.110 Fodd bynnag, nododd rhai gwarchodwyr plant na chaniateir iddynt ddarparu gofal plant a ariennir gan Dechrau'n Deg er eu bod wedi'u lleoli mewn ardal Dechrau'n Deg – mae hyn yn aml yn dibynnu ar yr ardal awdurdod lleol y maent wedi'u lleoli ynddi. Mae hyn wedi bod yn wir dros y blynyddoedd mewn rhai awdurdodau lleol lle mae darparu Dechrau'n Deg wedi cael ei flaenoriaethu mewn lleoliadau gofal plant a gynhelir. Mae rhai gwarchodwyr plant a fyddai'n croesawu'r cyfle i ddarparu gofal plant a ariennir gan Dechrau'n Deg felly wedi'u heithrio rhag gwneud hynny. Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd o'r farn, hyd yn oed mewn ardaloedd lle y caniateir i warchodwyr plant gynnig darpariaeth a ariennir gan Dechrau'n Deg, bod eu gallu i wneud hynny'n aml yn cael ei gyfyngu gan ofynion y meini prawf a'r prosesau caffael dan sylw. Nodwyd nad oes gan lawer o warchodwyr plant y cymwysterau gofynnol i fodloni gofynion Dechrau'n Deg[20] na'r amser sydd ei angen i gyflawni'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'system gaffael gymhleth.'

6.111 Dywedwyd, mewn llawer o achosion, os nad yw gwarchodwyr plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gallu cyflwyno darpariaeth a ariennir gan Dechrau'n Deg, neu'n teimlo nad yw'n werth gwneud hynny, eu bod yn aml yn colli cwsmeriaid sy'n rhieni plant dwy oed ac uwch i leoliadau mwy sy'n cynnig y ddarpariaeth honno. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran gyfyngedig o'r farchnad sydd ar gael i'r gwarchodwyr plant hyn h.y. plant dan ddwy oed, a phlant hŷn sydd angen gofal plant cyn ac ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol. Nid yw hyn, ym marn y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, yn ddigon i sicrhau busnes gwarchod plant cynaliadwy ac ariannol hyfyw.

6.112 Nododd gwarchodwyr plant a rhanddeiliaid ehangach hefyd y gall darpariaeth addysg gynnar hefyd eithrio rhai gwarchodwyr plant o rannau o'r farchnad gofal plant cyn-ysgol. Mae gwarchodwyr plant sy'n gweithredu o fewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru wedi'u cyfyngu rhag darparu addysg gynnar a ariennir i blant tair a phedair oed. Rhaid i blant dan eu gofal sydd hefyd yn dymuno manteisio ar addysg gynnar gael eu cludo (fel arfer gan y gwarchodwr plant) i leoliad arall am ychydig oriau'r dydd er mwyn gwneud hynny, ac yn aml mae'n rhaid i'r un gwarchodwr plant eu casglu unwaith eto yn ddiweddarach yn y dydd. Ni all pob

[20] Ym mis Mawrth 2023 adolygodd Llywodraeth Cymru ofynion darparu Dechrau'n Deg mewn ymgynghoriad â Gofal Cymdeithasol Cymru a PACEY Cymru. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, at ddibenion gofynion cymwysterau, y dylai gwarchodwyr plant gael eu categoreiddio fel Gweithwyr Dechrau'n Deg yn hytrach nag Arweinwyr Dechrau'n Deg. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi'i rheoleiddio yn fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru sydd ar gael drwy'r ddolen hon: Gweithiwr Dechrau'n Deg | Gofal Cymdeithasol Cymru

gwarchodwr plant wneud hyn tra byddant hefyd yn darparu'r lefel ofynnol o ofal i blant eraill yn eu lleoliad.

6.113 Mae canfyddiadau o werthusiadau blaenorol y Cynnig Gofal Plant yn nodi bod rhieni eisiau parhad o ran gofal plant lle bynnag y bo modd ac felly byddant yn aml yn penderfynu anfon eu plentyn i feithrinfa ddydd lle maent yn gwybod y gallant gael mynediad at ofal plant o oedran cynnar ac addysg blynyddoedd cynnar o dair oed ymlaen. I lawer o rieni, mae hyn yn well na dechrau anfon eu plentyn at warchodwr plant pan fyddant yn fach iawn, dim ond i'w symud ar ôl iddynt setlo, er mwyn eu cyflwyno i leoliad newydd yn dair neu'n bedair oed. Mae hyn, ym marn gwarchodwyr plant, yn enghraifft arall o sut y cânt eu gwthio allan o'r farchnad.

6.114 Yn ogystal â rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth sy'n cyfyngu ar fynediad gwarchodwyr plant i rai meysydd o'r farchnad gofal plant ac addysg gynnar, cyfeiriodd rhai gwarchodwyr plant at enghreifftiau o ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus yn annog rhai rhieni i beidio â dewis gwarchodwyr plant. Yn ystod y grŵp trafod gyda gwarchodwyr plant, soniwyd bod rhai ymwelwyr iechyd yn cynghori rhieni i beidio â defnyddio gwarchodwyr plant, gan roi'r rheswm bod angen lleoliad meithrin ar blant i'w cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasu ac i'w paratoi ar gyfer yr ysgol. Ym marn y gwarchodwyr plant hyn, mae hyn yn tanseilio'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau gofal plant o safon. Mae hefyd yn enghraifft bellach o'r graddau y mae gwarchodwyr plant yn ymddangos fel pe baent yn cael eu tanbrisio ac yn cael llai o barch na darparwyr gofal plant eraill.

6.115 I gloi, teimlai gwarchodwyr plant yng Nghymru eu bod yn wynebu sawl her sy’n eu rhwystro rhag gallu cymryd rhan lawn mewn rhaglenni gofal plant a ariennir gan y llywodraeth. Mae'r gystadleuaeth gan ddarparwyr eraill a'r diffyg cyfleoedd gwirioneddol i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn yn heriau sylweddol i warchodwyr plant.

## 7. Cymorth ar gyfer denu a chadw gwarchodwyr plant

7.1 Amlinellodd y rhanddeiliaid a'r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd nifer o feysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi gwarchodwyr plant yng Nghymru yn ogystal ag awgrymiadau o gamau y mae angen eu cymryd i gefnogi cadw gwarchodwyr plant presennol a denu rhai newydd i'r proffesiwn. Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r awgrymiadau hyn.

7.2 Fel y nodwyd gan y data a adolygwyd ym mhennod 4, un o'r prif faterion sy'n effeithio ar y gostyngiad yn niferoedd y gwarchodwyr plant yw'r prinder gwarchodwyr plant newydd sy'n cofrestru i ddarparu gwasanaeth. Mae gwarchod plant yn cynnig nifer o fanteision i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant (gweler adrannau 6.9 i 6.13) ac argymhellodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd y dylid hyrwyddo'r manteision a nodwyd yn eang i'r rhai sy'n ystyried gyrfa yn y maes gofal plant (gweler argymhelliad 1 yn adran 8.11). Gallai hyn fod ar ffurf astudiaethau achos lleol neu, fel yr awgrymodd rhai awdurdodau lleol drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol. Awgrymwyd y dylai'r manteision a hyrwyddir gynnwys:

- Y cyfle i redeg eich busnes eich hun / bod yn fos arnoch chi eich hun;
- Cyfleoedd dilyniant gyrfa;
- Manteision gweithio'n agosach gyda grŵp llai o blant;
- Gweithio o gartref a darparu amgylchedd tebyg i gartref.

7.3 Mae'r gost a'r broses o gofrestru fel gwarchodwr plant wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn fel rhwystr posibl i ymuno â'r proffesiwn (gweler adrannau 6.15 i 6.19). Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid symleiddio'r broses gofrestru (gweler argymhelliad 2 yn adran 8.12), a gwneud penderfyniadau cymeradwyo yn seiliedig ar geisiadau a'u prosesu'n gyflymach lle bo modd. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnig cyllid i gefnogi costau cofrestru i bob ymgeisydd newydd, ac y dylai lefel y cymorth ariannol sydd ar gael fod yn gyson i ymgeiswyr ar draws pob ardal awdurdod lleol (gweler argymhelliad 4 yn adran 8.12). Byddai hyn yn adeiladu ar raglen Grant Cymorth i Fusnesau Gofal Plant Busnes Cymru a oedd yn cynnig cyllid cychwyn busnes tebyg i warchodwyr plant. Canfu'r gwerthusiad o'r grant cymorth fod y cyllid wedi cyflymu'r broses o ddod yn warchodwr plant ond nad oedd o reidrwydd yn cymell pobl i ddod yn warchodwyr plant. Felly mae angen i hyn

gael ei ategu (fel y nodir uchod) gan weithgareddau i hyrwyddo manteision gyrfa yn y maes gwarchod plant.

7.4 Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o heriau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu, ac mae rhai ohonynt wedi annog unigolion i adael y proffesiwn. Yn ogystal ag amlinellu'r heriau hyn, cynigiodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd ac a holwyd awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain, neu o leiaf eu lleihau, a thrwy wneud hynny gadw mwy o warchodwyr plant o fewn y diwydiant a lleihau'r nifer fawr o wasanaethau sy'n cael eu canslo bob blwyddyn. Adlewyrchir llawer o'r rhain yn argymhellion 8 i 14 yn adrannau 8.17 ac 8.18 isod)

7.5 Mater a nodwyd yn gyson gan warchodwyr plant oedd baich gweinyddol y rôl. Er bod rhai gwarchodwyr plant yn teimlo bod modd ymdopi â lefel y gwaith papur gofynnol, dywedodd llawer ei fod yn her gynyddol a oedd yn anodd ei rheoli, ac i rai roedd yn rheswm dros roi'r gorau i warchod plant (gweler adrannau 6.40-6.52). Er y cydnabuwyd bod PACEY eisoes yn darparu canllawiau defnyddiol i warchodwyr plant ynghylch gwaith papur, teimlai llawer fod angen arweiniad a chymorth cliriach a chyson ar warchodwyr plant gyda gwaith papur. Un o'r meysydd allweddol y mae gwarchodwyr plant yn ei gael yn heriol yw cynhyrchu a diweddaru dogfennau polisi a gweithdrefnau, yn enwedig mewn perthynas â bodloni gofynion arolygu AGC. Mae'r heriau a nodwyd nid yn unig yn ymwneud â nifer y dogfennau sydd eu hangen ond hefyd gwybodaeth gwarchodwyr plant am ba ddogfennau polisi y mae angen iddynt eu cynhyrchu, beth y dylid ei gynnwys yn y dogfennau hyn a sut y dylid eu rhannu â rhieni, gwarcheidwaid, a phartïon eraill â diddordeb. Awgrymodd rhai gwarchodwyr plant a rhanddeiliaid y dylid cynnig mwy o dempledi dogfennau polisi a gweithdrefnau i warchodwyr plant (mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes yn cael ei gynnig gan PACEY England). Galwyd hefyd am symleiddio gwaith papur, a gwneud dim ond y gwaith papur angenrheidiol yn ofyniad ar gyfer arolygiadau (gweler argymhelliad 9 yn adran 8.17). Awgrymwyd hefyd y dylai AGC gynnal ymweliadau cynghori anffurfiol i gyd-fynd ag ymweliadau arolygu AGC, er mwyn rhoi gwybod i warchodwyr plant pa ddogfennau polisi a gweithdrefn y mae angen iddynt eu cynhyrchu neu eu diweddaru er mwyn cael adroddiad da yn dilyn ymweliad arolygu (gweler argymhelliad 11 yn adran 8.17).

7.6 Mae AGC ac eraill yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n ymwneud â'r gwaith papur a'r gwaith gweinyddol (e.e. Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gofynion gweinyddol y Cynnig Gofal Plant) drwy newid i brosesau digidol ar-lein yn hytrach

na phrosesau ar bapur. Mae hyn wedi'i groesawu gan rai, ond yn cael ei ystyried yn her ychwanegol gan eraill yn enwedig y rhai nad oes ganddynt lythrennedd digidol. Awgrymwyd felly y dylid darparu mwy o gefnogaeth ar ffurf TG a hyfforddiant digidol i warchodwyr plant sydd am wella eu sgiliau llythrennedd digidol (gweler adrannau 6.53-6.56 – gweler hefyd argymhelliad 10 yn adran 8.17).

7.7 Mae llawer o warchodwyr plant yn ystyried arolygiadau AGC yn her sylweddol. Er ei bod yn broses angenrheidiol, dywedodd llawer o warchodwyr plant fod y broses arolygu yn peri straen iddynt, a bod yr ymweliadau arolygu yn eu gwneud yn bryderus iawn. Mae rhai gwarchodwyr plant yn teimlo bod yr arolygiadau ond yn canolbwyntio ar fod yn feirniadol ac nad oes unrhyw arweiniad na chymorth i gyd-fynd â nhw. Mae rhai hefyd yn teimlo bod yr arolygiadau yn anghyson ac nad yw arolygwyr yn cydnabod yn ddigonol mai lleoliadau gwarchod plant yw cartref y gwarchodwyr plant yn ogystal â'u man gwaith (gweler adrannau 6.57-6.63). Cynigiwyd nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gellid newid y broses arolygu. Y prif awgrym oedd sicrhau dull gweithredu cyson gan arolygwyr. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod pob arolygydd yn cael briff cyson ynghylch yr hyn y dylai fod yn canolbwyntio arno yn ystod pob ymweliad ac y dylid rhannu'r wybodaeth hon â gwarchodwyr plant cyn pob ymweliad. Roedd galwad hefyd am ddarparu mwy o wybodaeth yn gyffredinol i warchodwyr plant am y broses arolygu i'w helpu i baratoi a gwneud iddynt deimlo'n llai pryderus am y broses (gweler argymhelliad 13 yn adran 8.17).

7.8 Roedd awgrym hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad mewn arolygiadau, y dylai gwarchodwyr plant, lle bynnag y bo modd, gael yr un arolygydd yn ystod pob ymweliad arolygu (gweler argymhelliad 12 yn adran 8.17). Yn gysylltiedig â'r awgrym a nodir uchod, awgrym ychwanegol gan randdeiliaid oedd y dylai arolygwyr AGC gynnal ymweliadau anffurfiol â gwarchodwyr plant rhwng arolygiadau i roi cyngor ar y broses arolygu a'r hyn a ddisgwylir (gweler argymhelliad 12 yn adran 8.17). Cydnabuwyd hefyd nad oes gan AGC y capasiti ar hyn o bryd i ymdopi â newidiadau o'r fath, ac felly byddai angen adnoddau ychwanegol i alluogi'r rhain i ddigwydd.

7.9 Pwynt cyffredin a godwyd gan warchodwyr plant a holwyd ac a gyfwelwyd oedd eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol a'u bod yn cael eu tanbrisio. Yn benodol, teimlwyd bod pobl yn ystyried yn aml bod lleoliadau gwarchod plant yn cynnig safonau is o ofal plant o gymharu â lleoliadau eraill ac nad oedd gwarchod plant fel proffesiwn bob amser yn cael ei ystyried ar yr un lefel

â phroffesiynau gofal plant eraill. Nodwyd bod y camsyniadau hyn o warchod plant yn lleihau morâl y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant ac yn gallu atal eraill rhag ystyried gwarchod plant fel proffesiwn (6.72 i 6.76).

7.10 Fodd bynnag, cydnabuwyd bod PACEY Cymru wedi gwneud gwaith sylweddol i geisio codi proffil gwarchodwyr plant. Serch hynny, roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd ac a holwyd yn teimlo bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith rhieni, sefydliadau a'r cyhoedd yn ehangach o'r lefel uchel o broffesiynoldeb ymysg gwarchodwyr plant a safon uchel y gofal plant a ddarperir ganddynt. Gellid gwneud hyn ar lefel leol drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol neu fel gweithgaredd genedlaethol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru (gweler argymhelliad 14 adran 8.18). Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud mwy i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa, gan amlinellu manteision gweithio yn y diwydiant a'r cyfleoedd dilyniant gyrfa a gynigir ganddo. Mae hwn eisoes yn faes a gefnogir gan PACEY, ond gellid ei gefnogi ymhellach ar lefel leol yn ogystal â chenedlaethol drwy weithgareddau hyrwyddo a gynhelir gan awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru (hefyd yn gysylltiedig ag argymhelliad 1 yn adran 8.11).

7.11 Fel yr amlinellir yn adrannau 6.77 i 6.84 mae rhai gwarchodwyr plant yn wynebu nifer o broblemau ariannol ac ansefydlogrwydd busnes. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn a’r heriau gweinyddol y dywedir bod gwarchodwyr plant yn eu hwynebu, nifer cymharol fach sy’n manteisio ar gyfleoedd cymorth busnes sydd wedi’u hanelu at warchodwyr plant (gweler adrannau 6.95 i 6.111). Dengys y canfyddiadau fod llawer o warchodwyr plant yn troi at eu cyd-warchodwyr plant i gael cyngor a chymorth ynglŷn â'u busnes yn hytrach nag at asiantaethau fel Busnes Cymru. Mae PACEY yn cynnig rhywfaint o gyngor ac arweiniad busnes i'w aelodau; fodd bynnag, awgrymwyd nad yw gwarchodwyr plant bob amser yn ymwybodol o'r holl wasanaethau cymorth busnes eraill sydd ar gael iddynt ac y byddai llawer yn elwa o gael mynediad iddynt. Argymhellodd rhanddeiliaid felly y gallai fod angen ymdrechion pellach i godi ymwybyddiaeth gwarchodwyr plant o’r cymorth busnes ehangach sydd ar gael iddynt, o bosibl drwy negeseuon wedi’u targedu’n benodol. Efallai y bydd angen i wasanaethau cymorth busnes hefyd ystyried ffyrdd amgen o ddarparu cymorth i warchodwyr plant - o bosibl drwy gyfuno cymorth wedi'i deilwra â gweithgareddau grŵp neu rwydwaith gwarchodwyr plant (gweler argymhelliad 18 yn adran 8.20).

7.12 Yn adrannau 6.104 i 6.111, amlinellwyd rhai o'r rhwystrau a wynebir gan warchodwyr plant mewn rhai ardaloedd o ran allu cymryd rhan lawn mewn

rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth fel Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu'r heriau ychwanegol a all ddeillio o hyn, gan gynnwys hyfywedd ariannol ceisio diwallu'r galw am ddarpariaeth hanner diwrnod yn hytrach na diwrnod llawn, a darparu gofal cofleidiol gan gynnwys cludiant i leoliadau eraill ac oddi yno. Awgrymwyd felly y dylid ymestyn cyfleoedd i gyflwyno darpariaeth ehangach a ariennir gan y llywodraeth i warchodwyr plant ar draws mwy o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru os nad pob un ohonynt (gweler argymhelliad 19 yn adran 8.21).

7.13 Nodwyd bod darparu ar gyfer y galw cynyddol am leoedd gofal plant ar adegau penodol o'r dydd – e.e. am awr cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod amser cinio pan fo gorgyffwrdd rhwng plant sy'n mynychu sesiynau'r bore neu sesiynau'r prynhawn yn unig – a chydymffurfio â chymarebau staffio plant i oedolion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar yr un pryd, yn her gyffredin i lawer o warchodwyr plant (gweler adrannau 6.20 i 6.24). Dywedodd rhai gwarchodwyr plant eu bod wedi gorfod troi busnes i ffwrdd oherwydd eu bod dros eu niferoedd yn ystod cyfnodau gorgyffwrdd ac mae hyn yn creu heriau i hyfywedd ariannol eu busnes. Er na wnaed unrhyw awgrymiadau y dylid cynyddu cymarebau cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, roedd galwad i gynnwys mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y gellir cymhwyso cymarebau yn ystod cyfnodau byr o'r dydd (gweler argymhelliad 15 yn adran 8.19).

7.14 Nododd rhai gwarchodwyr plant a rhanddeiliaid ehangach y gall y broses o gael caniatâd cynllunio i ofalu am nifer fwy o blant fod yn ddryslyd ac yn anghyson (gweler adrannau 6.25-6.30). Awgrymwyd felly y dylai awdurdodau cynllunio ledled Cymru ddatblygu dull cyson o ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a gyflwynir gan warchodwyr plant. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi mwy o wybodaeth i warchodwyr plant am ofynion cynllunio a sut i wneud cais a gwella'r cyfathrebu rhwng gwarchodwyr plant ac awdurdodau cynllunio. Dylid hefyd ystyried cyllid i helpu gwarchodwyr plant i ysgwyddo cost ceisiadau am ganiatâd cynllunio (gweler argymhellion 16 ac 17 yn adran 8.19).

7.15 Mae'n ofynnol i warchodwyr plant ymgymryd â hyfforddiant gorfodol amrywiol a'i hunanariannu yn aml (gweler adrannau 6.37 i 6.40). Mae PACEY a rhai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol yn darparu cyrsiau am ddim neu am bris gostyngol i warchodwyr plant. Mae'r cyrsiau hyn hefyd yn aml yn cael eu darparu ar-lein neu gyda'r nos ac ar benwythnosau i alluogi gwarchodwyr plant i gael mynediad atynt y tu allan i'w horiau gwaith arferol. Fodd bynnag, nid yw

hyn yn wir ar draws pob ardal awdurdod lleol. Arweiniodd hyn at rai o’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn awgrymu y dylai hyfforddiant pellach wedi’i ariannu a ddarperir ar adegau sy’n gyfleus i warchodwyr plant fod ar gael ledled Cymru (gweler argymhelliad 20 yn adran 8.22). Nodwyd hefyd y gall y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant anstatudol ymhlith gwarchodwyr plant fod yn fach yn aml - yn bennaf oherwydd cost ac amseriad y ddarpariaeth. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y gallai'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth fod yn fach mewn rhai achosion oherwydd efallai nad yw'r manteision, megis cefnogi dilyniant gyrfa, bob amser yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn gan warchodwyr plant. Awgrymwyd felly y dylid hyrwyddo ymhellach fanteision mwy o hyfforddiant anstatudol i warchodwyr plant.

7.16 Ochr yn ochr ag awgrymiadau ar gyfer argymhellion a gynigiwyd gan warchodwyr plant a rhanddeiliaid ehangach a gyfwelwyd ac a arolygwyd, roedd y llenyddiaeth a adolygwyd hefyd yn cynnwys awgrymiadau mewn perthynas ag argymhellion.

- Mae angen cyllid digonol, a dylid mynd i'r afael â bylchau cyllido i sicrhau bod gofal plant fforddiadwy ar gael;
- Dylid integreiddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd a phlant yn well, gan olygu bod awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog yn cydweithio’n agosach;
- Gellid datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu gyda'r nod o ddatblygu Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfraddau recriwtio a chadw isel, a rhwystrau i ddatblygiad proffesiynol;
- Mae angen mwy o gefnogaeth i helpu gwarchodwyr plant i ymdrin â gwaith papur a phrosesau gweinyddol eraill (gweler hefyd argymhellion 8 a 9 yn adran 8.17);
- Darparu mwy o hyfforddiant i warchodwyr plant ar redeg busnes (yn gysylltiedig ag argymhelliad 18 yn adran 8.20);
- Ystyried hyblygrwydd o ran cymarebau (yn gysylltiedig ag argymhelliad 15 yn adran 8.19);
- Dylid hyrwyddo manteision gwarchod plant yn eang er mwyn denu gwarchodwyr plant newydd a mynd i'r afael â chamsyniadau am y rôl (gweler hefyd argymhelliad 1 yn adran 8.11);

- Dylid cefnogi a hwyluso rhwydweithiau cymorth neu weithgareddau grŵp ymhlith gwarchodwyr plant, gellid edrych ar enghreifftiau fel Magic Minders a'r cynllun mentora yn Lloegr ar gyfer Cymru (gweler hefyd argymhelliad 21 yn adran 8.23).

## 8. Casgliadau ac argymhellion

8.1 Dengys canfyddiadau'r adolygiad hwn fod brwdfrydedd tuag at ofalu am blant ynghyd â'r cyfle i fod yn fos arnyn nhw eu hunain yn ffactorau allweddol sydd wedi annog llawer o unigolion yng Nghymru i ddewis gwarchod plant fel eu gyrfa hirdymor. Mae unigolion eraill yn dewis gwarchod plant fel opsiwn gyrfa tymor byr, yn aml yn seiliedig ar y cyfle y mae'n ei ddarparu i'w galluogi i ennill bywoliaeth tra'n gofalu am eu plant cyn-ysgol neu eu hwyrion eu hunain gartref. Mae'r gweithlu gwarchodwyr plant felly yn cynnwys craidd sefydlog o unigolion sydd wedi darparu gwasanaeth dros nifer o flynyddoedd a grŵp dros dro o unigolion sy'n cofrestru eu gwasanaeth am ychydig flynyddoedd yn unig cyn symud ymlaen.

*Lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig*

8.2 Mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ar adeg pan fo nifer y gwasanaethau gofal dydd i blant wedi cynyddu. Gellir priodoli'r lleihad i nifer cymharol uchel a chynyddol o warchodwyr plant sy'n gadael y diwydiant bob blwyddyn ynghyd â'r lleihad cyflym yn nifer yr unigolion sy'n cofrestru fel gwarchodwyr plant newydd. Mae'r nifer blynyddol o wasanaethau gwarchod plant sy'n canslo eu cofrestriad yn fwy na nifer y gwasanaethau gwarchodwyr plant newydd sy'n cofrestru ac mae'r gymhareb rhwng 1.5 a 2:1 bob blwyddyn ers 2018. Er y dylid ystyried rhoi blaenoriaeth i gadw gwarchodwyr plant presennol yn y diwydiant o ran mynd i'r afael â'r lleihad hwn mewn gwarchodwyr plant, mae denu gwarchodwyr plant newydd i'r diwydiant yn ymddangos yn fwy o flaenoriaeth.

8.3 Dengys y canfyddiadau fod ffactorau sy'n gwthio unigolion allan o'r sector yn ogystal â ffactorau sy'n eu denu o'r sector wedi cyfrannu at y lefel gymharol uchel o gofrestriadau a ganslwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae heriau megis galwadau cynyddol yn gysylltiedig â gwaith papur, llythrennedd cyfrifiadurol (neu ddiffyg llythrennedd) a gofynion cynyddol i'w bodloni mewn perthynas ag arolygiadau AGC ymhlith y ffactorau sydd wedi peri i rai gwarchodwyr plant adael y diwydiant yn gynt nag yr oeddent wedi'i fwriadu. Hefyd, roedd heriau ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19 wedi cynyddu cyfradd y gwarchodwyr plant a ganslodd eu cofrestriadau yn ystod 2020 a 2021. Mae cyfleoedd i ennill mwy o arian mewn swyddi eraill hefyd yn un o'r ffactorau allweddol sydd wedi denu rhai unigolion oddi wrth y maes gwarchod plant.

8.4 Dengys y canfyddiadau fod heriau i ymuno â'r maes, gan gynnwys costau'n gysylltiedig â hyfforddiant a chofrestru wedi atal rhai unigolion rhag dod yn warchodwyr plant neu wedi gwneud iddynt ailystyried hynny gan gyfrannu at y lleihad yn nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru ers 2018. Mae cyfleoedd i fynd ar drywydd cyfleoedd gyrfa eraill, sy'n aml yn talu'n well, hefyd wedi'u nodi fel ffactorau sydd wedi peri i rai unigolion beidio ag ystyried gwarchod plant fel opsiwn gyrfa. Mae cyflwyno trefniadau gweithio mwy hyblyg yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar ôl COVID-19, wedi galluogi mwy o rieni a neiniau a theidiau a gyflogir mewn ystod o swyddi gwahanol, i weithio gartref. Mae hyn wedi eu galluogi i weithio yn ogystal â gofalu am eu plant neu eu hwyrion eu hunain. O ganlyniad, mae llai o rieni a neiniau a theidiau yn cael eu denu at warchod plant fel modd o gyflawni'r un cydbwysedd rhwng gwaith a gofal plant.

8.5 Mae gwarchodwyr plant yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Mae hyn yn aml yn cael ei ysgogi gan gamdybiaethau ymysg rhai rhieni a rhanddeiliaid ehangach bod gwarchod plant, fel proffesiwn a gwasanaeth, o ansawdd neu safon is na meysydd eraill o'r sector gofal plant. Ymddengys fod hyn yn effeithio ar forâl gwarchodwyr plant presennol ac yn rhwystr pellach i unigolion sy'n ystyried gwarchod plant fel opsiwn gyrfa.

*Y data sydd ar gael*

8.6 Er y gellir olrhain tueddiadau o ran cofrestriadau gwarchod plant a chanslo cofrestriadau yn rheolaidd ar lefel genedlaethol (yn bennaf drwy ddata sydd ar gael gan AGC a StatsCymru) nid yw'r un data cyfres amser cyson ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdod lleol neu is. Cymharol ychydig sy'n hysbys felly am dueddiadau diweddar o ran argaeledd a chyfansoddiad gwasanaethau gwarchod plant ar lefel leol heblaw bod gwarchodwyr plant yn fwy tebygol na gwasanaethau gofal dydd o gael eu lleoli mewn lleoliadau trefol, ac yn llai tebygol o fod wedi'u lleoli mewn pentrefi gwledig. Mae data sydd ar gael ar lefel leol hefyd yn dangos bod mwy o leoliadau gofal plant ar gael mewn ardaloedd â llai o amddifadedd o gymharu ag ardaloedd â mwy o amddifadedd a bod gwarchodwyr plant yn cyfrif am gyfran is o'r holl leoliadau gofal plant mewn ardaloedd â mwy o amddifaded nag mewn ardaloedd â llai o amddifadedd.

8.7 Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o'r heriau y mae gwarchodwyr plant yn eu hwynebu ac wedi amlinellu'r rhesymau pam mae rhai yn gadael y diwydiant yn

gynnar tra bod eraill efallai'n amharod i gofrestru neu ymuno â'r maes. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddata cyson a chynrychioliadol sydd ar gael i ddangos i ba raddau y mae'r heriau neu'r materion hyn yn newid neu'n parhau dros amser.

8.8 Er gwaethaf y bylchau hyn mewn data a'r diffygion o ran eu hargaeledd, mae canfyddiadau'r adolygiad yn cynnig arwydd clir ar lefel Cymru gyfan o'r effaith y mae'r gostyngiad cyflym yn nifer y gwarchodwyr plant yn ei chael ar fynediad i ddarpariaeth gofal plant a dewisiadau gofal plant a wneir gan rieni. Dengys y canfyddiadau fod y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yn debygol o gael effaith negyddol ar argaeledd gofal plant mewn rhai ardaloedd yn fwy nag eraill. Er bod argaeledd cyffredinol darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ei argaeledd ar draws gwarchodwyr plant wedi lleihau'n sylweddol - unwaith eto gan gyfyngu ar y dewis o ofal plant a mynediad at ddarpariaeth Gymraeg i rieni mewn rhai rhannau o Gymru.

*Trosolwg o'r camau gweithredu sydd eu hangen i wrthdroi'r duedd*

8.9 Mae'r ffaith bod gostyngiad sylweddol a pharhaus yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig ar adeg pan fo'r galw am ofal plant yn debygol o gynyddu yn sgil cynlluniau i ehangu argaeledd gofal plant wedi'i ariannu, yn codi pryder. Er mwyn gwrthdroi'r duedd hon, mae angen mynd i'r afael â'r heriau a nodir yn yr adolygiad hwn sy'n peri i rai gwarchodwyr plant adael y proffesiwn ac yn atal eraill rhag ymuno ag ef.

8.10 O ystyried y cynnydd tebygol yn y galw am leoedd gofal plant yn y dyfodol, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn nid yn unig yn nodi bod angen cynyddu nifer cyffredinol y gwarchodwyr plant a ariennir sy'n gweithredu yn y sector gofal plant, ond bod angen cefnogi'r rhai sydd eisoes yn warchodwyr i ddarparu mwy o leoedd gofal plant. Mae llawer o warchodwyr plant eisoes yn gweld mwy o alw am leoedd nag y gallant ddarparu ar eu cyfer. Mae angen cymorth ar y gwarchodwyr plant hyn i ymateb i beth o'r galw hwn, o bosibl drwy lacio rhywfaint ar gymarebau staffio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod rhai rhannau o'r dydd a gwneud prosesau ceisiadau cynllunio yn haws er mwyn galluogi gwarchodwyr plant i ehangu eu darpariaeth lle bo modd. Mae gan warchodwyr plant eraill gapasiti ac felly mae angen cymorth arnynt i lenwi'r lleoedd gofal plant gwag sydd ganddynt yn eu lleoliad. Gallai meysydd cymorth posibl gynnwys darparu cymorth pellach i hyrwyddo a hysbysebu lleoliadau unigol nad ydynt yn llawn. Gallai'r sector

gwarchod plant yn ei gyfanrwydd hefyd elwa ar gymorth pellach i hyrwyddo gwarchod plant i rieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid ehangach, gan amlinellu'r gwaith da a'r gwasanaeth proffesiynol y maent yn eu darparu. Byddai'r lefel hon o hyrwyddo nid yn unig yn helpu i lenwi lleoedd gwag mewn lleoliadau gwarchod plant sydd â chapasiti ar hyn o bryd, ond hefyd yn mynd i'r afael â rhai camsyniadau cyffredin am y proffesiwn gwarchod plant.

*Cefnogi gwarchodwyr plant newydd i gofrestru.*

8.11 Mae denu gwarchodwyr plant newydd i'r diwydiant yn hanfodol i sicrhau bod digon o wasanaethau gwarchod plant ar gael yn y blynyddoedd i ddod. Byddai hyrwyddo manteision gwarchod plant fel proffesiwn a gwasanaeth i bobl ifanc a rhieni newydd yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol o'r gwasanaeth sydd gan rai a denu mwy o unigolion i ystyried gwarchod plant fel gyrfa.

**Argymhelliad 1** – Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru ac awdurdodau lleol ystyried ystod o weithgareddau cyfathrebu i helpu i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa i fyfyrwyr a rhieni newydd.

8.12 Mae rhwystrau eraill i fynediad a nodwyd yn yr adolygiad hwn yn cynnwys y costau a'r amser sy'n gysylltiedig â'r broses gofrestru. Eto, dylai cynorthwyo newydd-ddyfodiaid gyda'r broses hon annog mwy o unigolion i ymuno â'r proffesiwn.

**Argymhelliad 2** - Dylai AGC adolygu'r broses ymgeisio bresennol ar gyfer gwarchodwyr plant gyda'r bwriad o'i gwneud yn symlach ac yn haws i ymgeiswyr ei chwblhau, lle bo hynny'n bosibl.

**Argymhelliad 3** - Dylai AGC barhau i weithio gyda PACEY Cymru i gefnogi unigolion drwy ddarparu arweiniad, cyngor a hyfforddiant i'w galluogi i gwblhau'r broses gofrestru cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 4** – Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi Busnes Cymru i adeiladu ar raglen Grantiau Cymorth i Fusnesau Gofal Plant 2020-2021, drwy weinyddu rhaglen grantiau barhaol i gefnogi pobl i ymuno â'r sector gwarchod plant. Dylai Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol a PACEY Cymru i farchnata a hyrwyddo'r grant i ddarpar warchodwyr plant newydd.

8.13 Dengys canfyddiadau'r adolygiad fod gwarchodwyr plant newydd yn aml yn ystyried bod y costau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant gorfodol sydd ei angen yn ogystal â'r costau a'r prosesau eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu busnes newydd

yn uwch nag y gallant ei fforddio a bod y broses yn gymhleth ac o bosibl yn frawychus.

**Argymhelliad 5** – Dylid darparu canllawiau a chyllid pellach i warchodwyr plant newydd i'w galluogi i gael mynediad at yr hyfforddiant cychwynnol y gallai fod ei angen arnynt yn ogystal â chymorth i ymdrin â'r tasgau a chostau gweinyddol cychwynnol. Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu hyn, gan weithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru a Busnes Cymru sydd eisoes yn cynnig cymorth yn y meysydd hyn.

8.14 Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn amlinellu, yn y rhan fwyaf o achosion, bod gwarchodwyr plant yn wynebu mwy o alw am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael ganddynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ym mhob achos, yn enwedig ymhlith gwarchodwyr plant sydd newydd eu sefydlu. Mae gwarchodwyr plant yn aml yn dibynnu ar dafod leferydd fel y prif ddull o gael cwsmeriaid newydd. Mae hyn yn fwy heriol i warchodwyr plant sydd newydd eu sefydlu sydd, tan iddynt gael eu traed danynt, yn aml yn llai adnabyddus yn eu hardaloedd na lleoliadau mwy sefydledig eraill. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gofrestr o warchodwyr plant lleol y gellir ei gweld drwy eu gwefannau. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn arwain at gwsmeriaid newydd i warchodwyr plant, yn enwedig gwarchodwyr plant newydd.

**Argymhelliad 6** – Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod pob gwarchodwr plant cofrestredig yn cael ei gynnwys yn eu cyfeiriaduron o leoliadau gofal plant lleol. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu eu gweithgaredd hyrwyddo gwarchodwyr plant hefyd, yn enwedig gwarchodwyr plant newydd yn eu hardal.

8.15 Mae nifer y gwarchodwyr plant sy'n gallu cynnig darpariaeth Gymraeg wedi lleihau'n arbennig o gyflym yn y blynyddoedd diwethaf.

**Argymhelliad 7** – O ystyried y lleihad sylweddol iawn yn nifer y gwarchodwyr plant sy'n gallu cynnig darpariaeth Gymraeg, mae angen i AGC, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru weithio gyda PACEY i ganolbwyntio'n benodol ar ddenu gwarchodwyr plant newydd i'r proffesiwn sy'n gallu darparu eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Cefnogi cadw mwy o warchodwyr plant*

8.16 Mae lefelau uchel canfyddedig o waith papur a gwaith gweinyddol a ffocws cynyddol ar brosesau digidol / ar-lein wedi'u hamlygu fel agweddau ar eu gwaith o

ddydd i ddydd y mae llawer o warchodwyr plant, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt lawer o sgiliau digidol, yn eu cael yn heriol. Agwedd allweddol ar y prosesau gweinyddu y mae gwarchodwyr plant yn ei chael yn arbennig o heriol a dryslyd yw lefel a natur y dogfennau polisi a gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt eu cynhyrchu. Mae llawer o warchodwyr plant hefyd yn teimlo bod proses arolygu AGC yn eu rhoi dan straen ac yn ystyried bod y broses yn anghyson ac, ar adegau, yn rhy feirniadol.

8.17 Mae prosesau gweinyddu ac arolygu yn bwysig iawn i sicrhau bod gwarchod plant, ynghyd â'r holl wasanaethau gofal plant eraill, yn cael eu darparu i'r safon uchel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, os yw'r prosesau dan sylw yn annog rhai gwarchodwyr plant i adael y diwydiant, yna mae'n debygol y bydd angen diwygio rhywfaint ar y prosesau presennol.

**Argymhelliad 8** – Dylai AGC a Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda PACEY Cymru, gynnig cymorth pellach i warchodwyr plant yn amlinellu pa ddogfennau polisi a gweithdrefnau y mae angen iddynt eu cynhyrchu, beth ddylid ei gynnwys y dogfennau hyn a gyda phwy y dylent eu rhannu.

**Argymhelliad 9** – Dylai AGC a Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill gan gynnwys PACEY Cymru, adolygu’r gwaith papur cyfredol y mae’n ofynnol i warchodwyr plant ei gyflwyno gyda'r nod o symleiddio rhai agweddau lle bo modd.

**Argymhelliad 10** – Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda PACEY Cymru, ystyried cynnig mwy o gyrsiau TG a llythrennedd digidol wedi’u hariannu i warchodwyr plant gyda’r nod o’u helpu i ymdrin â’r ffocws digidol cynyddol sy'n cael ei gyflwyno ar draws yr holl brosesau gweinyddol.

**Argymhelliad 11** – Dylai AGC ystyried cynnig y cyfle i leoliadau gwarchod plant gael ymweliadau anffurfiol gan arolygwyr, rhwng arolygiadau ffurfiol, er mwyn cael gwybod beth y gallant ei ddisgwyl yn ystod yr arolygiad a’r meysydd y gallai fod angen iddynt roi sylw iddynt cyn arolygiad ffurfiol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ddyrannu rhagor o adnoddau i AGC er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

**Argymhelliad 12** – Lle bo modd, dylai AGC sicrhau bod yr un arolygwyr yn cynnal arolygiadau ffurfiol o leoliadau gofal plant yn ystod pob ymweliad. Byddai hyn yn sicrhau mwy o gysondeb ar gyfer lleoliadau unigol a pharhad o ran y prosesau arolygu ar y safle.

**Argymhelliad 13** – Lle bo angen, efallai y bydd angen i AGC sicrhau bod pob arolygydd yn cael yr un briff ynghylch yr hyn y dylent fod yn canolbwyntio arno yn ystod pob ymweliad. Dylid rhannu'r wybodaeth hon hefyd â gwarchodwyr plant cyn pob ymweliad arolygu. Byddai hyn eto yn sicrhau cysondeb o ran y broses arolygu.

8.18 Dengys canfyddiadau'r adolygiad hwn fod teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol neu eu bod yn cael eu tanbrisio yn ffactor sy'n peri i rai gwarchodwyr plant adael y proffesiwn, yn ogystal ag atal eraill rhag ymuno. Mae'r teimladau hyn o beidio â chael eu gwerthfawrogi'n ddigonol yn gysylltiedig â'r pwyntiau a amlinellwyd yn gynharach mewn perthynas â chamsyniadau cyffredin sydd gan rai ynghylch gwarchod plant fel proffesiwn a gwasanaeth. Mae PACEY Cymru eisoes yn gwneud llawer i geisio mynd i'r afael â hyn drwy ymgyrchoedd hyrwyddo cadarnhaol yn amlinellu manteision gwarchodwyr plant. Fodd bynnag, o ystyried y lefel isel o forâl sy'n parhau i fodoli ymhlith llawer o'r gwarchodwyr plant a gyfwelwyd ac a holwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'n ymddangos bod angen i gefnogaeth gyfredol PACEY ddod law yn llaw a chymorth o fannau eraill.

**Argymhelliad 14** – Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd awdurdodau lleol a PACEY Cymru, godi proffil gwarchodwyr plant trwy weithgareddau hyrwyddo sy'n amlygu'r lefel uchel o broffesiynoldeb, sgiliau a safonau gofal plant a gynigir gan warchodwyr plant..

*Cefnogi gwarchodwyr plant i ymateb i'r cynnydd yn y galw am leoedd gofal plant*

8.19 Mewn llawer o ardaloedd, mae'r galw am leoedd gyda gwarchodwyr plant yn fwy na'r capasiti sydd ar gael. Mae cynyddu nifer cyffredinol y gwasanaethau gwarchod plant cofrestredig yn un ffordd o fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, dengys yr canfyddiadau a amlinellir yn yr adolygiad hwn y gallai rhai gwarchodwyr plant presennol ddarparu ar gyfer galw ychwanegol ond eu bod wedi'u cyfyngu rhag gwneud hynny oherwydd cymarebau staff i blant y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a heriau o ran cael caniatâd cynllunio i gynyddu eu capasiti presennol.

**Argymhelliad 15** – Dylai AGC ystyried cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y gall gwarchodwyr plant ddefnyddio cymarebau staffio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod cyfnodau byr o'r dydd er mwyn galluogi gwarchodwyr plant i ddiwallu'r galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol cyn ac ar ôl ysgol yn ogystal â gofal cofleidiol sy'n gorgyffwrdd yn ystod amser cinio.

**Argymhelliad 16** – Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cynllunio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru i roi mwy o wybodaeth i

warchodwyr plant am ofynion ceisiadau cynllunio er mwyn eu galluogi i ehangu eu darpariaeth. Mae angen gwell cyfathrebu hefyd rhwng awdurdodau cynllunio a gwasanaethau gofal plant o fewn awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â chynllunio yn cael ei chyfleu i warchodwyr plant mewn ffordd gyson a pherthnasol.

**Argymhelliad 17** – Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried darparu cymorth ariannol ychwanegol i warchodwyr plant i’w helpu gyda’r costau sy’n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio.

*Cefnogi gwarchodwyr plant i fod yn fwy hyfyw a chynaliadwy yn ariannol.*

8.20 Mae rhai gwarchodwyr plant yn wynebu nifer o broblemau ariannol ac ansefydlogrwydd busnes. Mae cymorth busnes i warchodwyr plant i helpu i fynd i’r afael â rhai o’r materion hyn ar gael ar hyn o bryd drwy PACEY a Busnes Cymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y nifer sy'n manteisio ar gymorth penodol i fusnesau yn gymharol fach ymhlith gwarchodwyr plant.

**Argymhelliad 18** - Gan adeiladu ar yr argymhelliad sydd wedi’i gynnwys yn y gwerthusiad o’r Grantiau Cymorth i Fusnesau Gofal Plant, i ariannu ymgyrch hyrwyddo fwy i gyrraedd unigolion nad ydynt eisoes ar y daith i ymuno â'r maes gwarchod plant, efallai y bydd angen rhagor o ymdrechion i godi ymwybyddiaeth gwarchodwyr plant o’r cymorth busnes ehangach sydd ar gael iddynt drwy asiantaethau fel Busnes Cymru . Mae'n bosibl y gellid cyflawni hyn drwy negeseuon wedi'u targedu'n benodol. Efallai y bydd angen i wasanaethau cymorth busnes hefyd ystyried ffyrdd amgen o ddarparu cymorth i warchodwyr plant - o bosibl yn cyfuno cymorth wedi'i deilwra â gweithgareddau grŵp neu rwydwaith gwarchodwyr plant.

8.21 Dywedodd gwarchodwyr plant mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol nad ydynt yn gallu neu na chaniateir iddynt gymryd rhan lawn mewn rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth fel Dechrau’n Deg ac Addysg Gynnar. Gall heriau ychwanegol ddeillio o hyn, gan gynnwys hyfywedd ariannol ceisio diwallu'r galw am ddarpariaeth hanner diwrnod yn hytrach na diwrnod llawn, a darparu gofal cofleidiol gan gynnwys cludiant i leoliadau eraill ac oddi yno.

**Argymhelliad 19** – Dylai awdurdodau lleol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, ystyried ehangu cyfleoedd i gynnig darpariaeth ehangach a ariennir gan y llywodraeth i warchodwyr plant ar draws pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

*Cefnogi gwytnwch gwarchodwyr plant*

8.22 Mae cael mynediad i hyfforddiant anstatudol yn ogystal â hyfforddiant gofynnol statudol yn agwedd bwysig ar sicrhau bod gwarchodwyr plant yn parhau i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel a chynnal lefel uchel o broffesiynoldeb. Mae hyfforddiant hefyd yn cynyddu cyfleoedd dilyniant gyrfa i warchodwyr plant, drwy eu galluogi i ehangu neu wella eu gwasanaeth presennol, neu i'w galluogi i symud ymlaen i feysydd eraill o'r sector gofal plant ar ryw adeg yn y dyfodol. Cynigiwyd enghreifftiau yn ystod gwaith maes yr adolygiad o awdurdodau lleol yn darparu sesiynau hyfforddi gyda'r nos ac ar benwythnosau i alluogi gwarchodwyr plant i fynychu y tu allan i'w horiau gwaith. Fodd bynnag, awgryma'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fod rhai gwarchodwyr plant yn parhau i'w chael yn anodd cael mynediad at hyfforddiant ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos nad yw llawer o warchodwyr plant yn ystyried bod dilyniant gyrfa, ac felly unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â hynny, yn berthnasol iddynt ac felly maent yn llai tebygol o ddilyn unrhyw hyfforddiant nad yw'n orfodol.

**Argymhelliad 20** – Dylai pob awdurdod lleol ystyried darparu hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant gorfodol, i warchodwyr plant ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Gallai cyrsiau ar-lein fod yn un ffordd o gyflawni hyn ond mae'n annhebygol mai dyma fydd yr ateb neu'r opsiwn a ffefrir gan bob gwarchodwr plant. Yn hynny o beth, dylai ffocws ar hyfforddiant wyneb yn wyneb a ddarperir gyda'r nos a / neu ar benwythnosau fod yn ystyriaeth hefyd. Lle bo modd, dylid cyllido'r hyfforddiant hwn yn llawn neu ei gynnig am bris gostyngol.

8.23 Mae gwarchodwyr plant yn aml yn dibynnu ar ei gilydd am gymorth ac arweiniad, ac mae llawer yn rhan o rwydweithiau anffurfiol lleol o warchodwyr plant sydd wedi datblygu dros amser. Dengys canfyddiadau'r astudiaeth hon fod y rhwydweithiau hyn yn helpu llawer o warchodwyr plant i oresgyn rhai o'r teimladau ynysig y maent yn eu profi ar adegau. Fodd bynnag, bu i'r cyfyngiadau yn sgil COVID 19 gyfyngu ar lawer o'r cyfleoedd a arferai fod ar gael i warchodwyr plant gwrdd yn anffurfiol yn ystod y dydd. Ymhellach, gwarchodwyr plant sy'n gadael y proffesiwn, ac felly sy'n gadael y rhwydwaith, yn aml yw'r rhai sydd â'r profiad mwyaf ac sy'n gwasanaethu

fel mentoriaid anffurfiol i eraill, yn enwedig gwarchodwyr plant newydd o fewn y rhwydweithiau anffurfiol hyn. Mae rhwydweithiau anffurfiol sydd eisoes ar waith hefyd yn darparu llwyfan gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio i ddarparu mathau eraill o gymorth, gan gynnwys hyfforddiant, yn ogystal â chymorth busnes a gweinyddol, i warchodwyr plant. Gellir gweld rhai enghreifftiau o gymorth mwy ffurfiol yn y grŵp Magic Minders Worthing[21] a'r gwasanaeth mentora gwarchod plant newydd yn Lloegr. Gellid ymchwilio i'r mathau hyn o gynlluniau/grwpiau i weld a fyddai'n bosibl eu cyflwyno yng Nghymru.

**Argymhelliad 21** – Dylai awdurdodau lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â PACEY Cymru gefnogi ac o bosibl ddarparu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydwaith gwarchodwyr plant lleol. Gellid cyflwyno gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru i'r rhwydweithiau hyn er mwyn cael cymorth gan eu cymheiriaid. Gallai rhai gweithgareddau hyfforddi a chymorth eraill hefyd gael eu cyflwyno i warchodwyr plant drwy'r rhwydweithiau hyn.

*Dysgu mwy am anghenion gwarchodwyr plant*

8.24 Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn wedi nodi rhai tueddiadau'n ymwneud â chyfraddau cofrestru gwarchodwyr plant a chanslo cofrestriadau dros amser. Noda'r canfyddiadau hefyd nifer o fanteision a heriau sy'n gysylltiedig â gwarchod plant a gasglwyd o ddata eilaidd sydd ar gael mewn llenyddiaeth gyhoeddedig arall yn ogystal â data cynradd a gasglwyd o gyfweliadau ac arolygon a gynhaliwyd fel rhan o waith maes yr adolygiad.

8.25 Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd wedi nodi diffygion yn y data cyfres amser sydd ar gael i'r cyhoedd ar lefel leol a bylchau yn y data'n ymwneud â nodweddion y gweithlu gwarchod plant.

**Argymhelliad 22** – Mae angen i AGC a Llywodraeth Cymru gasglu data SASS a data eraill sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant sy'n cofrestru ac yn canslo eu cofrestriadau, a hynny'n flynyddol mewn modd cyson ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae angen i'r data hyn hefyd gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodwyr plant e.e. oedran, rhywedd ac iaith y lleoliad.

**Argymhelliad 23** – dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal neu gomisiynu gwaith ymchwil rheolaidd sy'n ymwneud â'r cyfleoedd a'r heriau a wynebir gan warchodwyr

[21] Magic Minders - Worthing Childminders Association (Saesneg yn unig)

plant yng Nghymru er mwyn adolygu i ba raddau y mae'r heriau hyn yn newid neu'n parhau dros amser. Bydd hyn yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill am y math o gymorth parhaus sydd ei angen i gynyddu nifer y gwarchodwyr plant sy'n gweithredu ledled Cymru.

## Cyfeiriadau


Ang, L. (2020) 'Supporting Children's Learning and Development in Childminding or Home-Based Child Care', in S. Hupp and Jewell, J. (gol.) *The Encyclopaedia of Child and Adolescent Development.* Supporting Children's Learning and Development in Childminding or Home-Based Child Care - Ang - Major Reference Works - Wiley Online Library

Ang, L. a Tabu, M. (2018) 'Conceptualising Home-Based Child Care: A Study of Home-Based Settings and Practices in Japan and England', *International Journal of Early Childhood*, 50(2), tud. 143-158.

Ang, L., Brooker, E. a Stephen, C. (2017) 'A Review of the Research on Childminding: Understanding Children's Experiences in Home-Based Childcare Settings', *Early Childhood Education Journal*, 45, tud. 261-270.

Bayram, L (2022) '*Better Childcare' report fails to reflect the reality of childminding today*. PACEY. Ar gael yn: NEWS: 'Better Childcare' report fails to reflect the reality of childminding today | PACEY (Fel ar 13 Hydref 2022)

Bonetti, S. (2019) A comparative analysis using the Labour Force Survey. *Education Policy Institute*. Ar gael yn: The early years workforce in England - Education Policy Institute (epi.org.uk) (Fel ar 13 Hydref 2022).

Bonetti, S. a Cooper, K. (2022) *Adolygiad Annibynnol: Cofrestru'r Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 52/2022. Ar gael yn: Cofrestru'r Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru: adolygiad annibynnol | LLYW.CYMRU (Fel ar 15 Chwefror 2023).

Campbell-Barr, et al. (2020) *Childminder Sustainability in England and Wales*. Prifysgol Plymouth. Ar gael yn: Childminder Sustainability in England and Wales - University of Plymouth (Fel ar 14 Hydref 2022).

Clarke, H. a Kalitowski, S. (2018) *30 Hours: one year on*. PACEY. Ar gael yn: 30 hours - one year on | PACEY (Fel ar 12 Hydref 2022).

Crocker, S. et al. (2018) *Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru, tud.7 Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:* Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU *(Fel ar 15 Ionawr 2023).*

Donohoe, H. (2022) *PACEY responds to Institute for Economic Affairs report. PACEY.* Ar gael yn: NEWS: PACEY responds to IEA report calling for childcare deregulation | PACEY (Fel ar 22 Medi 2022).

Evans, L. (2013) *Early Years Childcare Provision in Rural Local Authorities in England: An examination of factors that support childminders in the development of a quality service.* Traethawd Doethuriaeth heb ei gyhoeddi, Prifysgol Sheffield.

Fauth, et al. (2019) *Childminding practice in England*. Canolfan Ymchwil yr NCB. Ar gael yn: Childminding Practice in England: Final report (ncb.org.uk) (Fel ar 10 Ionawr 2023).

Glencross, K, et al. (2021) *Perceptions of the impact of childminding services on child, parent and family outcomes.* Llywodraeth yr Alban, Ar gael yn: Supporting documents -

Perceptions of the impact of childminding services on child, parent and family outcomes: research findings - summary - gov.scot (www.gov.scot) (Fel ar 14 Hydref 2022)

Glyn, E. et al. 2022. *Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 4* Ymchwil Arad. Llywodraeth Cymru.

Griffin, S. a Hevey, D. (2018) 'Communities of Childminders: A valuable resource', in Sykes, G., Teszenyi, E. ac Eunice, L. *Young Children and Their Communities.*

Hardy, K. et al. (2022) *Essential but undervalued: early years care & education during COVID-19*. Prifysgol Leeds. Ar gael yn: Essential but undervalued: Early years care & education during COVID-19 | childcarecanada.org (Fel ar 13 Chwefror 2023).

Ipsos Mori. 2022. *Childcare and early years survey of parents*. Ar gael yn: Childcare and early years survey of parents, Reporting year 2021 – Explore education statistics – GOV.UK (explore-education-statistics.service.gov.uk) (Fel ar 13 Chwefror 2023).

Kaneko, M. 2020. *Support programs for home-based child care: A global study*. Spring Impact ac Echidna Giving. Ar gael yn: Support Programs for Home-Based Child Care: A Global Study • Spring Impact (Fel ar 14 Chwefror 2023).

Lesh, M. a Niemietz, K. (2022) Cutting Through. How to address the cost of living crisis, *Institute of Economic Affairs*. Papur Rhif 111.

Llywodraeth Cymru (2017a) *Ffyniant i Bawb: Y cynllun gweithredu ar yr economi*. Ar gael o: Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2017b) Cynllun Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar. Ar gael yn: Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cynllun gweithlu | LLYW.CYMRU (Fel ar 20 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2020) *Arolwg Cenedlaethol Cymru*. Ar gael yn: Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU (Fel ar 13 Hydref 2022).

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cymorth i ddarparwyr gyda Chynnig Gofal Plant Cymru*. Fel ar 06/01/2023. Cymorth i ddarparwyr gyda Chynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU (Fel ar 10 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cynnig Gofal Plant Cymru: Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol.* Ar gael yn: Cyflwyniad i wasanaeth digidol cenedlaethol Cynnig Gofal Plant Cymru i ddarparwyr | LLYW.CYMRU (Fel ar 10 Ionawr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022c) Cynllun cyflogadwyedd Ar gael yn: Cynllun cyflogadwyedd 2018 | LLYW.CYMRU (Fel ar 10 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru. (2016) *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed* Ar gael yn: Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) a chanllawiau: gofal plant a reoleiddir | LLYW.CYMRU (Fel ar 14 Hydref 2022).

Llywodraeth Cymur (2019) *Adroddiad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* Ar gael yn: Adroddiad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir | LLYW.CYMRU (Fel ar 10 Ionawr 2022)

MacDonald, C. a Kelly, R. (2022) *Better Childcare. Putting Families First*. Policy Exchange. Ar gael yn: Policy Exchange - Better Childcare (Fel ar 11 Tachwedd 2022)

Ofsted. (2022) *Education recovery in early years providers: summer 2022*. Ar gael yn: Education recovery in early years providers: summer 2022 - GOV.UK (www.gov.uk) (Fel ar 12 Rhagfyr 2022)

PACEY Cymru (2020) *Inquiry into the impact of the COVID-19 outbreak on children and young people in Wales. Response from PACEY Cymru*.

PACEY Cymru (2022a) Adolygiad o gyfraddau Cynnig Gofal Plant Cymru. Ar gael yn: NEWS: Childcare Offer for Wales rate review/Adolygiad o gyfraddau Cynnig Gofal Plant Cymru | PACEY (Fel ar 14 Hydref 2022).

PACEY Cymru (2022b) *Gostyngiad yn niferoedd gwarchodwyr plant yng Nghymru*. Ar gael yn: Further decline in childminder numbers in Wales/Gostyngiad pellach yn niferoedd gwarchodwyr plant | PACEY (Fel ar 12 Rhagfyr 2022)

PACEY Cymru. (2017) *Childminder de-registrations in Wales*. Ar gael yn: Latest on childminder de-registrations in Wales | PACEY (Fel ar 14 Hydref 2022).

Page, J. (2010) *Mothers, work and childcare: choices, beliefs and dilemmas*. Prifysgol Sheffield.

Shorto, S. a Landes, A. 2017. *Experiences of former childminders in London. Report for the Greater London Authority*. Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant.

Simpson, E et al. 2022. *Childminding workforce trends: qualitative research report*. Ipsos MORI. Llywodraeth yr Alban, Ar gael yn: Childminding workforce trends qualitative research report - gov.scot (www.gov.scot) (Fel ar 14 Tachwedd 2022)

Skipp, A. a Hopwood, V. (2017) *Childminders' views on funded early education*. Llundain: Yr Adran Addysg.

Stedman, K. a Lewis, S. 2022. *Arolwg Blynyddoedd Cynnar*. Blynyddoedd Cynnar Cymru. Ymchwil Arad.

Uglow, M. et al. (2022) *Voices from the childminding profession: Perceptions on challenges and opportunities*. Yr Adran Addysg, NatCen. Ar gael yn: Voices from the childminding profession : Perceptions on challenges and opportunities : Research report : December 2022 - Digital Education Resource Archive (DERA) (ioe.ac.uk) (Fel ar 1 Chwefror 2023).

Ville, L. et al. 2022. *Childcare and early education systems: A comparative literature review of liberal welfare states*. Cymdeithas Fawcett. Ar gael yn: Download.ashx (fawcettsociety.org.uk) (Fel ar 10 Ionawr 2023).

Webster, C (2017) *Minding the gap set to return*. Early years educator. Ar gael yn: Minding the gap set to return | Early Years Educator (Fel ar 10 Ionawr 2023)

Yates, H. et al. (2014). *Childminder agency trials: key learning points for organisations setting up a childminder agency*. Yr Adran Addysg.

Yr Adran Addysg (2018) *Childcare and Early Years Survey of Parents in England, 2018.* Llundain: DfE.

Yr Adran Addysg (2022) Childminder mentor programme. Ar gael yn: Childminder mentor programme - GOV.UK (www.gov.uk) (Fel ar 13 Chwefror 2023).

## Atodiad A: Nifer y gwarchodwyr plant a'r gwasanaeth dydd i blant fesul awdurdod lleol

**Tabl A1: Nifer y Gwarchodwyr Plant cofrestredig, lleoliadau Gofal Dydd i Blant a'r holl Wasanaethau Gofal Plant ym mhob Awdurdod Lleol (Chwefror 2023) – wedi'u rhestru yn nhrefn nifer y gwarchodwyr plant**

| Awdurdod Lleol | Gwarchodwr Plant | Gofal Dydd i Blant | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 214 | 188 | 402 |
| Rhondda Cynon Taf | 121 | 107 | 228 |
| Bro Morgannwg | 113 | 79 | 192 |
| Caerffili | 108 | 102 | 210 |
| Sir y Fflint | 96 | 118 | 214 |
| Sir Gaerfyrddin | 90 | 137 | 227 |
| Abertawe | 80 | 97 | 177 |
| Powys | 78 | 108 | 186 |
| Casnewydd | 77 | 71 | 148 |
| Sir Benfro | 67 | 71 | 138 |
| Castell-nedd Port Talbot | 67 | 63 | 130 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 63 | 61 | 124 |
| Gwynedd | 58 | 98 | 156 |
| Conwy | 56 | 84 | 140 |
| Ceredigion | 56 | 46 | 102 |
| Wrecsam | 50 | 141 | 191 |
| Sir Fynwy | 44 | 54 | 98 |
| Ynys Môn | 42 | 54 | 96 |
| Sir Ddinbych | 33 | 78 | 111 |
| Torfaen | 33 | 47 | 80 |
| Blaenau Gwent | 33 | 22 | 55 |
| Merthyr Tudful | 11 | 28 | 39 |

Ffynhonnell: Offeryn Data AGC

**Tabl A2: Nifer y Gwarchodwyr Plant cofrestredig, lleoliadau Gofal Dydd i Blant a'r holl Wasanaethau Gofal Plant fesul 1000 o'r boblogaeth 0 i 12 oed – (yn nhrefn nifer y gwarchodwyr plant fesul 1000 o'r boblogaeth)**

| Awdurdod Lleol | Gwarchodwr Plant | Gofal Dydd i Blant | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | 49 | 137.2 | 186.2 |
| Bro Morgannwg | 44.8 | 157.62 | 202.5 |
| Ynys Môn | 36.9 | 169.09 | 206 |
| Powys | 35.8 | 176.78 | 212.6 |
| Sir y Fflint | 33.8 | 195.22 | 229 |
| Sir Benfro | 32.4 | 125.77 | 158.2 |
| Caerdydd | 31.7 | 144.24 | 175.9 |
| Conwy | 29.9 | 203.81 | 233.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 28.7 | 97.16 | 125.8 |
| Caerffili | 28.6 | 117.43 | 146 |
| Gwynedd | 27.5 | 167.64 | 195.2 |
| Sir Fynwy | 27.2 | 163.07 | 190.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 26.7 | 135.56 | 162.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 26.3 | 101.48 | 127.8 |
| Casnewydd | 25.3 | 115.79 | 141.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 23.2 | 109.29 | 132.5 |
| Blaenau Gwent | 22.8 | 77.07 | 99.9 |
| Sir Ddinbych | 19.5 | 219.54 | 239.1 |
| Abertawe | 18.8 | 118.71 | 137.5 |
| Wrecsam | 18.5 | 279.86 | 298.3 |
| Torfaen | 18.1 | 126.48 | 144.6 |
| Merthyr Tudful | 7.2 | 77.07 | 84.2 |

Ffynhonnell: Offeryn Data AGC

**Atodiad B Holiadur Arolwg Gwarchodwyr Plant**

Cafodd yr arolwg gwarchodwr plant ei gynnwys mewn arolwg ehangach a ddosbarthwyd i'r holl ddarparwyr gofal plant sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Dosbarthwyd yr arolwg hefyd i warchodwyr plant nad oeddent yn darparu'r Cynnig Gofal Plant

## Arolwg Darparwyr Gofal Plant

**Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant yn ogystal ag adolygiad o warchod plant yng Nghymru. Bydd eich ymatebion i'r arolwg hwn yn helpu i lywio cynlluniau a pholisïau gofal plant yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru.**

**Os ydych wedi darparu gofal plant wedi'i ariannu gan y Cynnig Gofal Plant, bydd gofyn i chi gwblhau cwestiynau sy'n gofyn eich barn a'ch profiadau o ddarparu gofal plant wedi'i ariannu gan y Cynnig. Bydd y rhan hon o'r arolwg yn cymryd tua 10 i 12 munud i'w gwblhau.**

**Os ydych chi'n warchodwr plant, bydd hefyd rhai cwestiynau cychwynnol am eich profiad o weithio fel gwarchodwr plant. Bydd hyn yn cymryd rhwng 2 a 5 munud i'w gwblhau.**

**Os ydych yn warchodwr plant, a heb fod wedi darparu gofal plant dan y Cynnig Gofal Plant eleni, dim ond rhan gyntaf yr arolwg ynglŷn â'ch gwaith fel gwarchodwr plant bydd gofyn i chi gwblhau.**

**Mae cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol. Adroddir yn ddienw ar yr holl wybodaeth a gesglir. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod y gwerthusiad yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill, gan Ymchwil Arad a Llywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am eich data a'ch hawliau ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.**

**Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am yr ymchwil, cysylltwch â: Sioned Lewis ar childcare@research.arad.wales**

**1. Nodwch pa wasanaeth y mae eich lleoliad wedi'i gofrestru i'w ddarparu. ***

- ☐ Gwarchodwr Plant
- ☐ Gofal dydd llawn
- ☐ Gofal dydd sesiynol
- ☐ Gofal plant y tu allan i'r ysgol
- ☐ Darpariaeth chwarae mynediad agored

- [ ] Creche
- [ ] Darparwr gofal plant arall / ddim yn siŵr - esboniwch.

**2. Ym mha awdurdod lleol y mae eich lleoliad? ***

**3. Ers pryd ydych chi wedi bod yn warchodwr plant?**

- [ ] Llai na 12 mis
- [ ] 1-3 blynedd
- [ ] 4-6 blynedd
- [ ] 7-9 mlynedd
- [ ] 10 mlynedd neu fwy

**4. Beth yw** eich **cynlluniau dros y 5 mlynedd nesaf?**

**Rwy'n bwriadu:**

- [ ] parhau i weithio fel gwarchodwr plant
- [ ] gadael gwarchod plant yn ystod y 12 mis nesaf
- [ ] gadael gwarchod plant yn y 1-2 flynedd nesaf
- [ ] gadael gwarchod plant yn y 3-4 blynedd nesaf
- [ ] gadael gwarchod plant yn y 5 mlynedd nesaf
- [ ] Ddim yn gwybod

**5. Os ydych chi'n bwriadu gadael eich gwaith presennol fel gwarchodwr plant o fewn y 5 mlynedd nesaf, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud nesaf?**

- ☐ Gweithio mewn swydd arall yn y sector gofal plant
- ☐ Gweithio mewn swydd arall y tu allan i'r sector gofal plant
- ☐ Ymddeol
- ☐ Dychwelyd i addysg
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Arall (nodwch):

**6. Ar raddfa o 1-5,** lle mae 1 ddim yn her o gwbl a 5 yn her sylweddol**, nodwch eich profiad o ddelio â'r agweddau canlynol ar** reoli eich lleoliad / busnes gwarchod plant?:

| | 1 = ddim yn her o gwbl | 2 | 3 | 4 | 5 = her sylweddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cael mynediad at hyfforddiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Methu â darparu ar gyfer / cwrdd â'r galw mawr am leoedd gofal plant sydd ar gael i mi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Galw isel / methu â llenwi'r lleoedd gofal plant sydd ar gael i mi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Costau a threuliau rhedeg fy musnes gwarchod plant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cael gafael ar gymorth busnes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Caniatâd cynllunio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch isod esboniad am eich ateb, neu nodwch os oes heriau eraill.

**7. Gan feddwl am** yr un gofynion gweithredu a rheoli**, a ydynt wedi dod yn haws neu'n fwy heriol dros y 3 blynedd diwethaf?**

| | Haws | Mwy heriol | Dim newid | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Cael mynediad at hyfforddiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Methu â darparu ar gyfer / ateb y galw am leoedd gofal plant sydd ar gael i mi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Galw isel / methu â llenwi'r lleoedd gofal plant sydd ar gael i mi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Costau a threuliau rhedeg fy musnes gwarchod plant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cael gafael ar gymorth busnes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Caniatâd cynllunio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y bocs isod i esbonio'ch atebion os dymunwch:

**8. Ar raddfa o 1-5,** lle mae 1 ddim yn her o gwbl a 5 yn her sylweddol**, nodwch eich** profiad eich hun o weithio **fel gwarchodwr plant?**

| | 1 = ddim yn her o gwbl | 2 | 3 | 4 | 5 = her sylweddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel yr incwm a enillir | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Oriau a weithir bob dydd / wythnos | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfleoedd dilyniant gyrfa | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Lefel y gwaith papur a'r gwaith gweinyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr angen i ddefnyddio TG / cyfrifiadur / rhyngrwyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y bocs isod i esbonio'ch atebion os dymunwch:

**9. Gan feddwl am yr** un profiadau o weithio fel gwarchodwr plant**, a ydynt wedi dod yn haws neu'n fwy heriol dros y 3 blynedd diwethaf?**

| | Haws | Mwy heriol | Dim newid | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Lefel yr incwm a enillir | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Oriau a weithir bob dydd / wythnos | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfleoedd dilyniant gyrfa | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Lefel y gwaith papur a'r gwaith gweinyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Haws | Mwy heriol | Dim newid | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Yr angen i ddefnyddio TG / cyfrifiadur / rhyngrwyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Defnyddiwch y bocs isod i esbonio'ch atebion os dymunwch:

**10. Os ydych yn fodlon rhoi adborth pellach am eich barn a'ch profiad o weithio yn y sector gofal plant, rhowch eich manylion cyswllt isod.**

| | |
|---|---|
| Eich enw | |
| Cyfeiriad ebost | |
| Rhif ffôn | |